# Adroddiad Ymchwil Prosiect Diffinio Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli

**Ionawr 2023**

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 1 |
| 2. | Methodoleg ymchwil | 4 |
| 3. | Cyd-destun o ran polisïau | 7 |
| 4. | Y cyd-destun economaidd-gymdeithasol presennol o safbwynt gofodol | 25 |
| 5. | Cyfleoedd o safbwynt twf at y dyfodol | 43 |
| 6. | Cyfyngiadau posibl | 65 |
| 7. | Mireinio graddfa ofodol yr Ardal Dwf Genedlaethol | 80 |
| 8. | Crynodeb ac ystyriaethau o ran polisïau | 88 |
| Atodiad 1 | Trosolwg o’r gwaith ymgysylltu | 93 |



Cleient: Cynghorau Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Sir Caerfyrddin, Abertawe

Ein cyfeirnod: CARP3002

Ionawr 2023

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru a gyhoeddwyd yn Chwefror 2020 yn nodi'r cyfeiriad cenedlaethol ar gyfer twf a datblygiad yng Nghymru hyd at 2040.

1.2 Mae Polisi 1 Cymru'r Dyfodol 'Ble bydd Cymru yn tyfu' yn nodi bod Llywodraeth Cymru'n cefnogi twf cynaliadwy ledled Cymru ac yn nodi'r tair Ardal Dwf Genedlaethol a ganlyn, lle mae'n dweud y bydd twf mewn cyfleoedd cyflogaeth a thai, a buddsoddi mewn seilwaith:

- Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd;
- Bae Abertawe a Llanelli; a
- Wrecsam a Glannau Dyfrdwy


1.3 Mae Polisi 1 yn dweud yr ategir yr ardaloedd twf cenedlaethol gan Ardaloedd Twf Rhanbarthol yn y tri rhanbarth a ganlyn, a fydd yn tyfu, yn datblygu ac yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus a masnachol ar raddfa ranbarthol:

- Y De-orllewin;
- Y Canolbarth; ac
- Y Gogledd

1.4 Yn ychwanegol i'r ardaloedd twf uchod, mae Polisi 1 yn dweud y dylai datblygu a thwf mewn trefi a phentrefi mewn ardaloedd gwledig fod yn briodol o ran maint, a chefnogi dyheadau ac anghenion lleol.

1.5 Nid yw Cymru'r Dyfodol yn diffinio graddfa Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli. Mae'r ffin a welir wedi'i hamlinellu fel ardal biws wedi'i chroeslinellu yn y Diagram Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru yn awgrymu y cynhwysir yr ardaloedd trefol mwy, sef Castell-nedd, Port Talbot, Dinas Abertawe a Llanelli, ynghyd â chanolfannau cyflogaeth ledled yr ardal arfordirol, gan ymestyn hefyd tua'r gogledd, at ymyl y Parc Cenedlaethol. Caiff y darluniad hwn ei atgynhyrchu yn Ffigur 1.1.

Ffigur 1.1: Diagram Rhanbarthol De-orllewin Cymru




Ffynhonnell: Cymru'r Dyfodol

1.6 Roedd awdurdodau Sir Caerfyrddin, Sir Benfro, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe wedi penodi Turley ar y cyd i ymgymryd ag asesiad cynhwysfawr o Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli.

1.7 Defnyddir y gwaith i lywio'r hyn y bydd angen ei wneud i baratoi ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol Newydd yr awdurdodau lleol unigol, y mae bob cyngor yn bwrw ymlaen â hwy'n annibynnol, sy'n golygu eu bod yn amrywio o ran lle maent wedi cyrraedd o fewn y broses o baratoi eu Cynlluniau. Bydd y gwaith hefyd yn cyfrannu at baratoi tystiolaeth gefndirol, ynghyd â pholisïau a chynigion ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol cyntaf De-orllewin Cymru.

**Amcan yr astudiaeth**

1.8 Amcan yr astudiaeth hon yw ymgymryd ag asesiad o'r cyfyngiadau a'r cyfleoedd ar draws yr ardal y deallir ei bod fwy neu lai'n cael ei chwmpasu gan Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli. Gwneir hyn er mwyn mireinio graddfa ofodol yr Ardal Dwf Genedlaethol i helpu i lywio'r gwaith o gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd cyn i Gyd-bwyllgor Corfforaethol (CBC) De-orllewin Cymru ddiffinio maint yr Ardal Dwf Genedlaethol fel rhan o baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol. O ganlyniad, nid oes bwriad i ddiffinio maint yr Ardal Dwf Genedlaethol yn bendant yn nhermau terfynau adnabyddadwy, gan fod hon yn broses yr ymgymerir â hi fel rhan o gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Strategol. Mae'r ymagwedd hon yn cydymffurfio â'r testun sy'n cefnogi Polisi 19 Cymru'r Dyfodol 'Polisïau Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol' sy'n nodi y dylid cynllunio twf yr Ardal Dwf Genedlaethol trwy baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol.

1.9 Ar lefel is-ranbarthol, bydd angen i'r Cynllun Datblygu Strategol fabwysiadu ystyriaeth o'r modd y mae pobl yn symud ynghyd â dosbarthiad swyddi ledled De-orllewin Cymru, a chefnogi ymagwedd integredig tuag at ddefnydd tir a chynllunio trafnidiaeth mewn modd strategol. Bydd cytuno ar ddiffiniad daearyddol o'r Ardal Dwf Genedlaethol o fewn y Cynllun Datblygu Strategol yn bwysig wrth fframio'r gwaith cynllunio gofodol lefel uwch hwn rhwng yr awdurdodau yn yr is-ranbarth.

1.10 Mae'n ofynnol o fewn polisi ac arweiniad cynllunio cenedlaethol i bob Cynllun Datblygu Strategol a Chynllun Datblygu Lleol gydymffurfio'n gyffredinol a'u hunain a gyda Cymru'r Dyfodol. O ystyried hyn, bydd allbynnau'r prosiect hefyd yn llywio gwaith awdurdodau lleol unigol wrth ddatblygu eu Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Mae hyn yn cydnabod y gallai'r diffiniad o ffin/graddfa ofodol yr Ardal Dwf Genedlaethol o fewn bob awdurdod gael goblygiadau ar gyfer y strategaeth ofodol, ac felly'r dosbarthiad o dir ar gyfer tai a chyflogaeth.

1.11 Dylid nodi nad oes unrhyw bwys i'r adroddiad ymchwil hwn o safbwynt penderfynu ceisiadau cynllunio, ac nid yw'n ffurfio rhan o bolisïau'r cynllun datblygu mabwysiedig ar gyfer y Cynghorau.

**Strwythur yr adroddiad**

1.12 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Adran 2: Methodoleg ymchwil
- Adran 3: Cyd-destun o ran polisïau
- Adran 4: Cyd-destun gofodol economaidd-gymdeithasol presennol
- Adran 5: Cyfleoedd ar gyfer twf
- Adran 6: Cyfyngiadau posibl
- Adran 7: Mireinio graddfa ofodol yr Ardal Dwf Genedlaethol
- Adran 8: Crynodeb ac ystyriaethau o ran polisi

# 2. Methodoleg ymchwil

2.1 Nid oes unrhyw fethodoleg ragnodedig mewn arweiniad neu bolisïau sydd wedi'u cyhoeddi o ran sut y dylai awdurdodau fynd ati i fireinio cysyniad gofodol yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol (neu Ardaloedd Twf Rhanbarthol) a gyflwynwyd yn Cymru'r Dyfodol.

2.2 Fel yr eglurwyd yn adran 1, rôl y Cynllun Datblygu Strategol fydd dehongli maint ardaloedd twf cenedlaethol a rhanbarthol o fewn eu ffin ddaearyddol.

2.3 I gynorthwyo'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol i fwrw ymlaen â'r Cynllun Datblygu Strategol, gan gynnwys diffinio ffin yr Ardal Dwf Genedlaethol, deallir mai'r bwriad yw i Lywodraeth Cymru gyhoeddi arweiniad, yn dilyn proses o ymgynghori yn 2023. Rhagwelir y bydd yr arweiniad hwn yn ystyried agweddau allweddol o safbwynt llunio cynlluniau, fel strategaeth ofodol ranbarthol a datblygu opsiynau gofodol ar gyfer twf. Bydd hyn yn gofyn am ddehongli a rhesymoli elfennau sy'n llywio'r gwaith hwn, fel cyfleoedd economaidd, pwysau o ganlyniad i wahanol ofynion ac asedau amgylcheddol, i enwi ond rhai, i benderfynu sut y maent yn effeithio ar raddfa twf a'i ddosbarthiad.

2.4 Yn absenoldeb arweiniad a methodoleg ragnodedig, datblygwyd ymagwedd sy'n ymateb i'r briff a nodwyd gan yr awdurdodau ar gyfer yr ymchwil hwn, ac mae'n cydnabod yr amcanion a nodwyd yn yr adran flaenorol. Disgrifir hyn isod. Rhagwelir y bydd yr awdurdodau'n meddwl am oblygiadau'r arweiniad ar ôl ei gadarnhau gan Lywodraeth Cymru o safbwynt dehongli casgliadau'r gwaith hwn, fel y bo'n briodol.

**Dull Ymchwilio**

2.5 O safbwynt y dull ymchwilio, defnyddiwyd cyfuniad o ddadansoddi pen desg ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Gwnaed defnydd helaeth o Systemau Gwybodaeth Daearyddol (GIS), a darperir allbynnau'r gwaith mapio hwn yma o fewn yr adroddiad

2.6 Ymgymerwyd â chyfres o dasgau fel rhan o'r broses ymchwilio. Cyflwynir y rhain isod, a darperir yr allbynnau o fewn adrannau dilynol priodol yr adroddiad.

**Tasg 1: Adolygiad o bolisïau a mapio ardaloedd y cynlluniwyd newid ar eu cyfer**

2.7 Mae hyn wedi cynnwys adolygiad o Cymru'r Dyfodol, gan gydnabod ei fod yn nodi cyfeiriad gofodol o ran lle caiff buddsoddiad mewn seilwaith a datblygu ei gyfeirio er lles ehangach Cymru a'i phobl. Rhoddir ystyriaeth hefyd i bolisïau cenedlaethol eraill, sef Polisi Cynllunio Cymru'n (PCC) bennaf.

2.8 Rhoddwyd ystyriaeth ar wahân i'r rhaglenni a'r prosesau sy'n mynd rhagddynt o fewn pob un o'r awdurdodau cysylltiedig fel rhan o'r gwaith o esblygu eu Cynllun Datblygu Lleol. Bydd hyn yn llywio dadansoddiad ar wahân mewn perthynas â chanfod cyfleoedd ar gyfer twf at y dyfodol o safbwynt gofodol, o

ran rhai sy'n bodoli eisoes a rhai sy'n datblygu, yn ogystal â dealltwriaeth o'r hierarchiaeth aneddiadau.

2.9 Gan gydnabod pwysigrwydd ysgogwyr economaidd yng nghyswllt y sail resymegol ar gyfer yr Ardal Dwf Genedlaethol, ymgymerwyd ag adolygiad cryno hefyd o strategaethau economaidd ac adfywio (e.e. y Fargen Ddinesig) ynghyd â dynodiadau (e.e. ardaloedd menter) a chynlluniau buddsoddi mewn seilwaith. Caiff yr hyn sy'n deillio o'r adolygiad hwn ei grynhoi yn adran 3, ond gyda chyfeiriadau ar bwyntiau priodol sy'n ymhelaethu ar agweddau y manylir yn eu cylch trwy gydol yr adroddiad.

**Tasg 2: Dadansoddiad gofodol economaidd-gymdeithasol**

2.10 Fe aethpwyd ati i ddadansoddi a mapio amrywiaeth o setiau data sy'n llywio'r astudiaeth dan sylw, sy'n cynnwys rhai yng nghyswllt y boblogaeth, swyddi a seilwaith cymdeithasol a thrafnidiaeth, er mwyn llunio proffil gofodol sy'n ystyried lle mae gweithgareddau presennol wedi'u canoli ar hyn o bryd, ynghyd â chynaliadwyedd/cysylltedd aneddiadau o gymharu â'i gilydd ledled ardal yr astudiaeth.

**Tasg 3: Mapio cyfyngiadau posibl**

2.11 Fe gafodd amryw haenau o gyfyngiadau o safbwynt amgylcheddol a pholïsiau eu mapio, yn ôl gwybodaeth a ddarparwyd gan yr awdurdodau, neu y cyfeiriwyd ati ganddynt.

**Tasg 4: Ymgysylltu**

2.12 Cynhaliwyd proses ymgysylltu i lywio'r ymchwil, gan gynnwys:

- Cyfarfodydd â swyddogion o fewn bob un o'r awdurdodau lleol o fewn yr Ardal Dwf Genedlaethol a'i chyffiniau. Cynhaliwyd trafodaethau â phob un o'r awdurdodau comisiynu ar wahân, yn ogystal â chynghorau Sir Benfro, Pen-y-bont ar Ogwr a Phowys, i ganfod yr ystyriaethau sy'n allweddol iddynt o safbwynt cael dealltwriaeth o raddfa ofodol yr Ardal Dwf Genedlaethol.

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y sector preifat, gan gynnwys nifer o fusnesau a leolir o fewn yr awdurdodau. Cynhaliwyd gweithdy ar wahân gydag adeiladwyr tai, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (HBF) ym mis Medi.

- Cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru yn fuan ar ôl i'r prosiect ddechrau, i drafod y dull methodolegol arfaethedig ac amcanion yr ymchwil. Cynhaliwyd cyfarfod pellach gyda Llywodraeth Cymru i drafod y canfyddiadau drafft a oedd yn ymddangos tuag at ddiwedd y rhaglen ymchwil. Ystyriwyd yr adborth wrth gwblhau'r ymchwil a'r argymhellion.

- Cyfarfod gyda chynrychiolwyr Trafnidiaeth Cymru (TfW) i drafod buddsoddiadau strategol oedd wedi'u cynllunio, gan gynnwys teithio llesol. Ymgymerwyd â gwaith ymgysylltu ar wahân gyda swyddogion sy'n

gyfrifol am weithgareddau sy’n ymwneud â thrafnidiaeth o bob un o’r awdurdodau comisiynu.

2.13 Yn Atodiad 1 i’r adroddiad hwn, cynhwysir trosolwg o’r sylwadau allweddol sy’n deillio o’r gwaith ymgysylltu yr ymgymerwyd ag ef i lywio’r ymchwil.

**Tasg 5: Goblygiadau ar gyfer mireinio graddfa ofodol yr Ardal Dwf Genedlaethol**

2.14 Defnyddiwyd yr hyn a oedd yn deillio o’r tasgau uchod, gan gynnwys barnau a rannwyd trwy’r broses ymgysylltu, i lywio proses ailadroddus o ddatblygu fersiwn weithredol o raddfa ofodol ddiffiniedig yr Ardal Dwf Genedlaethol, yn unol â’r amcan a nodwyd yn adran 1. Cynhaliwyd trafodaethau ar wahân gyda’r grŵp prosiect swyddogion i lunio fersiwn terfynol o fap eglurhaol o’r ardal, ynghyd â disgrifiad o’r ddaearyddiaeth a gwmpasir oddi mewn iddo o safbwynt gofodol. Yn unol â’r briff, mae canlyniad y dasg hon yn cydnabod nad amcan yr asesiad yw cyflawni ffin ofodol glir, gan mai’r Cyd-bwyllgor Corfforaethol fydd yn ymgymryd â hyn fel rhan o’r gwaith o baratoi’r Cynllun Datblygu Strategol.

**Tasg 6: Argymhellion o ran polisi**

2.15 Roedd gwaith ymgysylltu trwy’r broses ymchwil wedi amlygu materion pwysig y bydd angen i bolisïau ymateb iddynt wrth fwrw ymlaen â chysyniad yr Ardal Dwf Genedlaethol a’i defnyddio o fewn gwahanol haenau’r system o lunio cynlluniau, gan gynnwys Cynlluniau Datblygu Lleol Newydd a’r Cynllun Datblygu Lleol yn y dyfodol. Mae’r materion hyn wedi’u hystyried a darparwyd argymhellion lefel uchel i gynorthwyo’r awdurdodau wrth fynd ymlaen, gan gynnwys dulliau o fynd i’r afael â datblygiadau mawr o fewn yr Ardal Dwf Genedlaethol a thu hwnt.

# 3. Cyd-destun o ran polisïau


3.1 Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o'r cyd-destun presennol o ran polisïau. Mae'n canolbwyntio ar y cyfiawnhad dros yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol o fewn Cymru'r Dyfodol a'r modd y cawsant eu hadnabod, ond yn ategu hyn gydag ystyriaeth o'r berthynas â'r Cynlluniau Datblygu Strategol yn y dyfodol, a'r cyd-destun presennol o ran polisïau lleol a ddarperir gan Gynlluniau Datblygu Lleol cyfredol ac sy'n cael eu datblygu.

**Polisi Cynllunio Cenedlaethol**

3.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040) yn nodi sut mae'r system gynllunio ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol yn gallu cynorthwyo i sicrhau datblygu cynaliadwy a chyflawni lleoedd cynaliadwy trwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol.

3.3 Mae'r graffigyn a ganlyn, a gymerwyd o PCC, yn dangos sut mae gwahanol haenau o'r cynllun datblygu, gyda'i gilydd, yn mynd i'r afael â materion cynllunio sydd wedi'u nodi ar lefel genedlaethol.

Ffigur 3.1: Proses gynllunio genedlaethol Cymru




Ffynhonnell: Ffigur 3 Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11 (Chwefror 2021)

3.4 Nid yw PCC yn mynd i'r afael ag Ardaloedd Twf Cenedlaethol yn benodol, fodd bynnag, mae'n darparu cyd-destun ar gyfer llunio strategaethau gofodol o fewn cynlluniau datblygu, sy'n cynnwys Cynlluniau Datblygu Lleol, ond hefyd trwy Gynlluniau Datblygu Strategol yn y dyfodol. Mae'n ailddatgan y ffaith y dylai'r cynlluniau hyn gydymffurfio'n gyffredinol â Cymru'r Dyfodol, sy'n cadarnhau, yn achos strategaethau gofodol, y dylai'r rhain fod yn gyson ag Egwyddorion

Cynllunio Allweddol, a chyfrannu tuag at y Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol. Rhoddir ystyriaeth bellach i'r arweiniad a ddarperir ar Gynlluniau Datblygu Strategol yn nes ymlaen yn yr adran hon.

**Cymru'r Dyfodol 2040**

3.5 Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel Cymru'r Dyfodol) yw'r cynllun datblygu cenedlaethol ar gyfer Cymru. Wedi'i gyhoeddi yn Chwefror 2021, mae'n ffurfio rhan o'r Cynllun Datblygu Statudol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru.

3.6 Cyn ystyried yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol yn benodol, fel y nodir yn PCC, mae'n bwysig cydnabod y Canlyniadau sylfaenol a ddiffinnir yn Cymru'r Dyfodol. Cyflwynir y rhain fel uchelgeisiau cyffredinol sy'n seiliedig ar yr egwyddorion cynllunio cenedlaethol a'r canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol a nodir yn PCC. Felly maent yn cynrychioli gweledigaeth neu ddatganiad o ran ble mae Llywodraeth Cymru yn dymuno i Gymru fod mewn 20 mlynedd. Mae'n bwysig nodi, yng nghyd-destun yr asesiad o'r Ardal Dwf Genedlaethol, bod Cymru'r Dyfodol yn datgan yn glir:

'Mae pob rhan o Cymru'r Dyfodol, o'r strategaeth ofodol i bolisïau rhanbarthol, yn ymwneud â chyflawni'r Canlyniadau' (Cymru'r Dyfodol, tudalen 52)

3.7 Felly mae'n rhaid i'r Ardal Dwf Genedlaethol a ddiffiniwyd allu dangos ei bod yn cydymffurfio â'r 11 Canlyniad, a bod cefnogaeth i gyflawni'r gofynion cysylltiedig, yn ôl y crynodeb a ganlyn, sef 'Cymru lle mae pobl yn byw':

- …ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach
- …mewn lleoedd gwledig llewyrchus lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau
- … mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy
- … mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu
- … ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy
- … mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo
- … mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy
- … mewn lleoedd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf
- … mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd

- … mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, cadarn a chysylltiedig
- … mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd

**Polisi 1: Ble bydd Cymru yn tyfu – Y Strategaeth Ofodol ac Ardaloedd Twf Cenedlaethol**

3.8 Mae'r egwyddorion sylfaenol o ran canfod cyfleoedd cydamserol ar gyfer twf o ran swyddi, cymunedau a seilwaith, ynghyd ag ardaloedd ble mae twf wedi'i ganolbwyntio sy'n arwain at gydgrynhoi cyfleoedd, fel mae Cymru'r Dyfodol yn nodi, yn cyd-fynd yn gryf â chyflawni'r Canlyniadau uchod. Yn wir, wrth gyflwyno ei strategaeth ofodol, mae'n nodi'n glir:

'Mae cydleoli cartrefi, swyddi a gwasanaethau yn golygu canolbwyntio ar **ddinasoedd a threfi mawr** fel y prif ardaloedd datblygu… Bydd ardaloedd trefol sy'n tyfu ledled Cymru yn creu crynoadau o swyddi, gwasanaethau ac amwynderau a màs critigol o bobl i gynnal gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus da ac amrywiaeth o weithgareddau economaidd.' (Cymru'r Dyfodol, tudalen 60)

3.9 Yng nghyd-destun yr uchod, mae Polisi 1 'Ble bydd Cymru yn tyfu' yn nodi:

'Mewn tair Ardal Dwf Genedlaethol gwelir twf cyflogaeth a thai a buddsoddi mewn seilwaith' (Cymru'r Dyfodol, tudalen 62)

3.10 Yn y testun ategol, mae'n mynd ymlaen i ddarparu ei gyfiawnhad ar gyfer dynodi y tair ardal hon, y mae Bae Abertawe a Llanelli yn un ohonynt, gan nodi:

'Mae pob un o'r ardaloedd trefol hyn yn wahanol yn economaidd ac maent yn cynnal amrywiaeth o fusnesau, mentrau a phrifysgolion ac yn cynnig ffyrdd o fyw diwylliannol gyfoethog i'w trigolion ac ymwelwyr. Maent yn lleoedd o bwys rhyngwladol a chenedlaethol a nod y strategaeth hon yw eu helpu i barhau i dyfu ac adfywio.' (Cymru'r Dyfodol, tudalen 62)

3.11 Mae darparu ar gyfer twf o'r fath mewn modd cynaliadwy yn unol â'r canlyniadau hyn yn gofyn am ystyried agosrwydd amgylcheddau gwledig / cysylltiedig, ynghyd â lleihau'r effeithiau niweidiol ar ardaloedd o'r fath o ganlyniad i dwf. Yn wir, mae Cymru'r Dyfodol yn cadarnhau:

'Drwy ganolbwyntio twf ar raddfa fawr ar yr ardaloedd trefol gellir sianelu pwysau datblygu i ffwrdd oddi wrth gefn gwlad a diogelu tir amaethyddol cynhyrchiol.' (Cymru'r Dyfodol, tudalen 64)

3.12 Mae'n nodi hefyd:

'Mae'r strategaeth ofodol yn grymuso llunwyr polisi a gwneuthurwyr penderfyniadau lleol i ddatblygu'r blaenoriaethau cenedlaethol drwy Gynlluniau

Datblygu Strategol a Lleol a nodi meysydd a materion pwysig yn eu hardaloedd penodol.’ (Cymru’r Dyfodol, tudalen 64)

3.13 Mae’r modd y mae’r adroddiad hwn wedi’i strwythuro i roi ystyriaeth ar wahân i gyfansoddiad economaidd-gymdeithasol presennol yr ardal o safbwynt gofodol, cyfleoedd i ddarparu ar gyfer twf, ynghyd â’r cyfyngiadau amgylcheddol sylfaenol, yn cydweddu â’r egwyddorion gofodol, ac felly’r Canlyniadau a fynnir trwy Cymru’r Dyfodol.

**Polisi 28 – Ardal Dwf Genedlaethol – Bae Abertawe a Llanelli**

3.14 Yn unol â Pholisi 1, mae Polisi 28 yn cadarnhau mai Bae Abertawe a Llanelli fydd y prif ffocws ar gyfer twf a buddsoddiad yn rhanbarth y De-orllewin.

3.15 O ran deall y sail resymegol ar gyfer dynodiad yr Ardal Dwf Genedlaethol, mae’n bwysig nodi yn y cyd-destun hwn bod y Polisi’n cadarnhau y bydd yn ffocws ar gyfer:

- Twf economaidd a thai strategol;
- Gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol; a
- Gweithgynhyrchu uwch, seilwaith trafnidiaeth a seilwaith digidol

3.16 Mae’r testun ategol sy’n nodi’r cyfiawnhad dros hyn yn datgan:

‘Yr ardal sy'n cynnwys Castell-nedd, Port Talbot, Dinas Abertawe a Llanelli fydd y brif ardal dwf ar gyfer y rhanbarth.’

3.17 Mae’n mynd ymlaen i gadarnhau mai’r ardal hon, ar hyn o bryd, yw’r <u>brif ganolfan</u>:

- Poblogaeth;
- Cyflogaeth;
- Gwasanaethau; ac
- Fe’i gwasanaethir gan y prif seilwaith cysylltedd

3.18 O ran effaith bwriadedig adnabod ardal o fewn Ardal Dwf Genedlaethol, mae Cymru’r Dyfodol yn cadarnhau mai eu bwriad yw darparu ‘fframwaith ar gyfer polisïau cydgysylltiedig, cyflawni seilwaith a gwariant gan y Llywodraeth, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid.’ [Cyfeiriad: Cymru’r Dyfodol, tudalen 106]

3.19 O safbwynt bod yr uchod yn darparu sail resymegol Llywodraeth Cymru ar gyfer adnabod a diffinio Ardaloedd Twf Cenedlaethol, mae’n ddefnyddiol amlygu’r gwahaniaeth rhyngddynt â pholisiau eraill ar gyfer twf rhanbarthol a nodir hefyd yn Cymru’r Dyfodol. Mae Cymru’r Dyfodol yn nodi’r gwahaniaeth bod yr

ardaloedd hyn yn ‘cyflawni rolau swyddogaethol pwysig yn eu rhanbarth’ [Cyfeiriad: Cymru’r Dyfodol, tudalen 107] ynghyd â’u statws fel canolfannau allweddol ar gyfer:

- Cyflogaeth;
- Gwasanaethau;
- Twristiaeth;
- Manwerthu; a
- Diwylliant

3.20 Yn y cyd-destun hwn, mae Polisi 29 yn diffinio Caerfyrddin a Threfi Porthladd Sir Benfro (Hwlffordd, Aberdaugleddau, Penfro a Doc Penfro) fel ardaloedd twf rhanbarthol ac felly’n ffocws twf a reolir. Wrth ddiffinio’r ddaearyddiaeth hon, mae’r polisi’n cydnabod eu cysylltiadau cryf â’r Ardal Dwf Genedlaethol.

3.21 Yn olaf, yn nhermau’r berthynas ehangach â thwf ar draws rhannau eraill o’r awdurdodau, mae’n bwysig cydnabod bod Polisi 1 a’r testun ategol yn cadarnhau:

‘Ym mhob rhan o Gymru, mae'r strategaeth hon yn cefnogi twf cynaliadwy. Nid oes gan unrhyw le heb swyddi, cartrefi, mannau cymunedol na bywyd gwyllt unrhyw obaith o gael cymuned nac economi ffyniannus na chydlynol ac ni fydd y Gymraeg yn ffynnu yno.’

3.22 I gefnogi hyn, o dan yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol a’r Ardaloedd Twf Rhanbarthol, mae Polisi 1 yn cadarnhau: ‘Dylai mesurau datblygu a thwf mewn trefi a phentrefi mewn ardaloedd gwledig fod yn briodol o ran maint a chefnogi dyheadau ac anghenion lleol.’ [Cyfeiriad: Cymru’r Dyfodol, tudalen 62]. Mae’r testun ategol yn parhau i gadarnhau y dylai datblygiadau yn y lleoliadau hyn ategu ymdrechion i dyfu dinasoedd a threfi yn hytrach na chystadlu â hwy.

**Polisi 19 Polisïau Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol a Chynlluniau Datblygu Strategol**

3.23 Mae Polisi 19 Cymru’r Dyfodol yn sefydlu cwmpas Cynllun Datblygu Strategol, sy’n cynnwys, ymhlith pethau eraill: strategaeth ofodol; hierarchiaeth aneddiadau; y ddarpariaeth a’r gofyniad tai; anghenion sipsiwn a theithwyr; darpariaeth cyflogaeth; ardaloedd gofodol ar gyfer tai strategol, twf cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy; nodi lleiniau glas, coridorau gwyrdd a thirweddau sydd o bwys cenedlaethol lle y bo angen.

3.24 Mae PCC yn cadarnhau y dylid paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol ar sail ranbarthol ac y dylent adlewyrchu ardaloedd swyddogaethol, i fynd i’r afael â materion fel marchnadoedd tai rhanbarthol, patrymau teithio i’r gwaith, ac ardaloedd cyfle economaidd. Mae’n cadarnhau hefyd bod paratoi Cynllun

Datblygu Strategol yn caniatau ystyried cyfleoedd a heriau a chynllunio ar eu cyfer mewn modd integredig a chynhwysfawr, sy'n hyrwyddo camau i gyflawni canlyniadau cadarnhaol o safbwynt cynllunio.

3.25 Mae ardal Cynllun Datblygu Strategol De-orllewin Cymru yn cynnwys yr awdurdodau a ganlyn: Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Rhan), Sir Caerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Benfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Abertawe.

3.26 Daeth Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021) i rym ar 28 Chwefror 2022, cyn i bob un o'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol fod â'r gallu i arfer eu swyddogaeth gynllunio strategol o 30 Mehefin 2022. Mae Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol yn cadarnhau bod y broses ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Strategol fwy neu lai'n adlewyrchu proses y Cynlluniau Datblygu Lleol. Fel y nodir yn adran 2, deallir y caiff arweiniad ar gyfer paratoi'r Cynlluniau Datblygu Strategol ei gyhoeddi yn 2023 yn dilyn proses ymgynghori.

3.27 Cyn cyhoeddi'r arweiniad hwn yn ffurfiol, cydnabyddir y deallir y disgwylir y bydd cyfnod cynllunio Cynllun Datblygu Strategol yn weddol hirdymor, h.y. 25 mlynedd, ac y bydd yn sefydlu graddfa a dosbarthiad gofodol twf ar gyfer dogfennau Cynllun Datblygu Lleol Cryno (CDLlC) dilynol y bydd angen eu paratoi gan awdurdodau unigol, neu trwy gydweithrediad yn dilyn mabwysiadu'r CDLl.

**Polisïau eraill Cymru'r Dyfodol**

3.28 Ceir nifer o bolisïau eraill sy'n dylanwadu'n uniongyrchol ar y diffiniad posibl o'r Ardal Dwf Genedlaethol yn Cymru'r Dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys y polisïau a ganlyn, sy'n cael eu hystyried yn fanylach ar y pwynt priodol yn rhannau dilynol yr adroddiad hwn:

- Polisi 6 Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf
- Polisi 11 Cysylltedd Cenedlaethol
- Polisi 17 Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig
- Polisi 30 Lleiniau Glas yn y De-orllewin
- Polisi 31 Metro'r De-orllewin

**Strategaethau economaidd allweddol**

**Strategaeth economaidd Llywodraeth Cymru**

3.29 Yn genedlaethol, roedd Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru (2017) yn amlygu bodolaeth amrywiadau o ran canlyniadau economaidd ledled Cymru o safbwynt gofodol, yng nghyd-destun diffyg cyffredinol parhaus o safbwynt cynhyrchiant. Roedd yn ymrwymo i ddull gwell o fynd i'r afael â strategaeth economaidd ar raddfa ranbarthol, sy'n cael ei adlewyrchu yn

Cymru'r Dyfodol ac sy'n llywio'r dulliau rhanbarthol a nodir isod o safbwynt strategaeth.

3.30 Yn fwy diweddar, roedd y Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi (2021), a ddatblygwyd yng ngolau'r pandemig Covid-19, yn nodi gweledigaeth o ran "economi llesiant sy'n ysgogi ffyniant, sy'n amgylcheddol gadarn, ac sy'n helpu pawb i wireddu eu potensial" [Cyfeiriad: Llywodraeth Cymru (2021), Y Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi, t.6 (https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/economic-resilience-reconstruction-mission.pdf#:~:text=3Our%20Economic%20Resilience%20%26%20Reconstruction%20Mission%20We%20have,the%20economic%20impact%20while%20supporting%20business%20and%20workers.)]. Ei ffocws yw cyflawni economi fwy gwyrdd, teg a ffyniannus, gan amlygu (ymhlith pethau eraill) cyfleoedd i ddatblygu'r 'economi sylfaenol' a thwf carbon isel. Mae'r genhadaeth hefyd yn cynnwys pwyslais ar ehangu'r hyn a gynigir yng nghanol trefi Cymru, yn gysylltiedig â chymorth i gynyddu'r gallu i weithio'n lleol, ynghyd â'r egwyddorion 'canol trefi'n gyntaf' a nodir yn Cymru'r Dyfodol.

**Strategaeth ranbarthol**

3.31 Yn Ne-orllewin Cymru, ceir hanes cadarnhaol o gydweithredu rhanbarthol yng nghyswllt datblygu economaidd ac adfywio. Yn 2013, fe aeth y pedwar awdurdod lleol, Sir Caerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe ati i fabwysiadu Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Darparodd hyn y sail strategol ar gyfer Bargen Ddinesig Bae Abertawe, sef pecyn o naw rhaglen a phrosiect ar draws y rhanbarth, a gefnogir gan fuddsoddiad o £236 miliwn gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, y mae'r gwaith o'u cyflawni wedi dechrau ers tro [Cyfeiriad: Bargen Ddinesig Bae Abertawe: https://www.bargenddinesigbaeabertawe.cymru/]. O fewn portffolio'r Fargen Ddinesig, rhoir sylw mawr i ynni a datgarboneiddio, arloesi a digidoleiddio, fel y dangosir yn Nhabl 3.1.

Tabl 3.1: Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe

| **Prosiect / rhaglen** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| Yr Egin, Canolfan S4C | Cyfleuster sy'n cynnwys pencadlys S4C a hwb ar gyfer busnesau creadigol, a leolir ochr yn ochr â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin |
| Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau | Cyfres o fuddsoddiadau gweddnewidiol yn Abertawe, sy'n cynnwys Arena newydd; datblygiad swyddfeydd yn Ffordd y Brenin; a chyfleuster 'Matrics Arloesedd' yng nghampws SA1 Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |

| | |
|---|---|
| Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel | Cyfres o brosiectau i gefnogi datgarboneiddio a darparu gwell mynediad i swyddfeydd ar gyfer busnesau (gan gynnwys Canolfan Dechnoleg newydd Bae Abertawe ym Mharc Ynni Baglan) |
| Pentre Awel | Pentref gwyddor bywyd a llesiant yn Llanelli, gyda chyfuniad o fannau sy'n darparu cyfleusterau hamdden, Ymchwil a Datblygu, ynghyd â rhai addysgol a masnachol |
| Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer | Sicrhau gwell effeithlonrwydd o ran ynni mewn cartrefi trwy ddefnyddio technolegau adnewyddadwy yn y gwaith o ddatblygu cartrefi newydd, ynghyd â rhaglenni ôl-ffitio |
| Ardal Forol Doc Penfro | Parth arddangos ac ardal brofi i gefnogi datblygiad y sector ynni morol |
| Campysau Abertawe | Cyfleusterau gwyddor bywyd a gwyddor chwaraeon yng nghampws Singleton Prifysgol Abertawe ac Ysbyty Treforys |
| Seilwaith Digidol | Sicrhau mynediad i gysylltedd ffibr llawn yn nhrefi a dinasoedd y rhanbarth, gwell mynediad i fand eang yn ardaloedd gwledig y rhanbarth, ynghyd â chefnogi'r rhanbarth i allu manteisio ar welliannau o ran capasiti digidol |
| Sgiliau a Thalentau | Canfod y gofynion o ran sgiliau a hyfforddiant er mwyn gwireddu manteision portffolio'r Fargen Ddinesig |

Ffynhonnell: Bargen Ddinesig Bae Abertawe

3.32 Gellir gweld o'r rhestr uchod bod bob un ond dau o brosiectau a rhaglenni'r Fargen Ddinesig wedi'u lleoli'n bennaf yn yr Ardal Dwf Genedlaethol, neu byddant yn cael eu cyflenwi ar draws y rhanbarth (dylai'r ddau sy'n weddill – Yr Egin, Canolfan S4C yng Nghaerfyrddin ac Ardal Forol Doc Penfro – gael effeithiau ledled y rhanbarth hefyd).

3.33 Gan adeiladu ar y Fargen Ddinesig, fe aeth y pedwar awdurdod lleol rhanbarthol ati i gymeradwyo Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru yn fuan yn 2022. Mae'r Cynllun Cyflawni hwn yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu economaidd ledled y rhanbarth, ac yn ategu Fframwaith Economaidd Rhanbarthol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â phartneriaid lleol [Cyfeiriad: Llywodraeth Cymru (2021), Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru (https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-12/south-west-wales-

regional-economic-framework.pdf#:~:text=The%20Regional%20Economic%20Framework%20for%20South%20West%20Wales%2C,more%20regionally-focused%20model%20of%20economic%20development%2C%20in%20accordance)]. Mae'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol yn nodi tair 'cenhadaeth' i arwain strategaeth ranbarthol, sy'n canolbwyntio ar ddod yn "arweinydd y DU ym maes ynni adnewyddadwy a datblygiad economi sero net"; "adeiladu sylfaen fusnes gref, gydnerth sydd wedi'i gwreiddio" a "tyfu a chynnal cynnig 'profiad' De-orllewin Cymru", gan gynnwys y cyfleoedd a gyflwynir gan yr economi ymwelwyr [Cyfeirnod: Awdurdodau Lleol De-orllewin Cymru (2022), Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru (https://www.swansea.gov.uk/regionaleconomicdeliveryplan#:~:text=South%20West%20Wales%20Regional%20Economic%20Delivery%20Plan%20Covering,major%20study%20that%27s%20identified%20regional%20strengths%20and%20opportunities)]. Mae hefyd yn nodi piblinell o brosiectau, sydd i'w datblygu ar gyfer ystod eang o fuddsoddiadau a ddaw i'r amlwg dros amser. Mae'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol a'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yn darparu'r cyd-destun strategol ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru a sefydlwyd yn 2021 i ddarparu strwythur rhanbarthol i ysgogi datblygu strategol cynaliadwy.

3.34 Yn ychwanegol i'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol, mae strategaethau rhanbarthol perthnasol eraill yn cynnwys:

- Strategaeth Ynni Ranbarthol De-orllewin Cymru a baratowyd yn 2021/22. Mae hon yn nodi llwybr i sicrhau datgarboneiddio'r system ynni. Mae'n amlygu'r lefelau defnydd uchel iawn o ynni yn y rhanbarth (yn bennaf oherwydd y defnydd o ynni ym maes diwydiant, yn enwedig hynny sy'n gysylltiedig â chynhyrchu dur), ac yn amlinellu blaenoriaethau yng nghyswllt effeithlonrwydd ynni, cynhyrchu ynni ar y môr ac ar y tir, datgarboneiddio gwres a thrafnidiaeth, ynghyd â defnyddio technoleg i ddatblygu systemau mwy deallus a hyblyg.

- Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau De-orllewin Cymru 2022-25 [Cyfeiriad: Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol De-orllewin Cymru (2022), Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau (http://www.rlp.org.uk/SharedFiles/Download.aspx?pageid=2&mid=13&fileid=50)]. Dyma'r un diweddaraf mewn cyfres o gynlluniau a baratowyd gan y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol i ddarparu gwybodaeth i ddarparwyr a Llywodraeth Cymru am anghenion o ran sgiliau at y dyfodol. Mae'r Cynllun yn mynd ati'n arbennig i amlygu'r angen am sgiliau digidol uwch ynghyd â sgiliau 'gwyrdd', yng nghyd-destun pwysau sylweddol ar fusnesau o ran recriwtio.

- Gan edrych ar draws ôl-troed gofodol ehangach, ffurfiwyd rhaglen Clwstwr Diwydiannol De Cymru (SWIC) yn 2019, gyda chefnogaeth gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU i helpu i gynllunio llwybr i sero net ar gyfer

sylfaen diwydiannol ac ynni sylweddol De Cymru, sy'n canolbwyntio ar brosiectau penodol a fydd yn lleihau allyriadau, ac yn datblygu economi gylchol sy'n allyrru llai o garbon [Cyfeiriad: Gweler SWIC].

3.35 Ar draws y strategaethau rhanbarthol hyn, ceir themâu cyffredin sy'n gysylltiedig â ffocws ar ddatgarboneiddio a newid ynni (sy'n arbennig o bwysig yn Ne-orllewin Cymru, o ystyried potensial sylweddol y rhanbarth o safbwynt ynni carbon isel, ynghyd â lefelau dwysedd carbon uchel llawer o'i sylfaen diwydiannol. Cydnabyddir yn gyffredinol bod De-orllewin Cymru yn rhanbarth cydlynol yn nhermau polisïau, er ei fod yn ymestyn y tu hwnt i ardal ddaearyddol ddealledig yr Ardal Dwf Genedlaethol ei hun.

**Strategaethau economaidd lleol**

3.36 Ar lefel leol, ceir sylfaen helaeth o ran strategaethau economaidd, y cafodd llawer ohonynt eu diweddaru yn ystod y pandemig Covid-19:

- Yn Sir Gaerfyrddin, cyhoeddwyd Trawsnewidiadau, Cynllun Adfywio Strategol y Cyngor Sir, yn 2015. Roedd yn amlygu buddsoddiad yn y tair prif dref ac yn Cross Hands, yn ogystal â 'Llain Arfordirol Sir Gaerfyrddin', sy'n darparu cyd-destun strategol ar gyfer nifer o ddatblygiadau mawr (fel Yr Egin, Canolfan S4C) sydd wedi'u cyflwyno'n ddiweddarach. Yn dilyn hynny, roedd Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin, a fabwysiadwyd gan weinyddiaeth flaenorol y Cyngor Sir, yn disgrifio adfywio fel "prif flaenoriaeth" y Cyngor, ac yn ail-gadarnhau ei ymrwymiad i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn Trawsnewidiadau [Cyfeiriad: Cyngor Sir Caerfyrddin, Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y pum mlynedd nesaf (https://www.sirgar.llyw.cymru/media/1212983/symud-ymlaen.pdf)]. Yn ystod y pandemig Covid-19, comisiynodd y Cyngor Gynllun Adfer a Chyflawni Economaidd ar gyfer y sir. Roedd hyn yn amlygu cyfleoedd mewn "gweithgynhyrchu uwch, y diwydiannau creadigol, yr economi werdd, iechyd, gofal a gwyddor bywyd ac amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd". I gyd-fynd â hwn, lluniwyd cyfres o Uwchgynlluniau Adfywio ar gyfer y tair prif dref (gan gynnwys Rhydaman a Llanelli), ynghyd â chynlluniau ar gyfer rhwydwaith y sir o ddeg o drefi llai.

- Yn Abertawe, nodir cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer adfywio canol y ddinas yn Strategaeth Ailbwrpasu Canol Dinas Abertawe (2021) [Cyfeiriad: Cyngor Abertawe (2021), Strategaeth Ailbwrpasu Canol Dinas Abertawe (https://www.abertawe.gov.uk/strategaethailbwrpasu?lang=cy)]. Mae hon yn adeiladu ar Fframwaith Adfywio Ardal Ganolog Abertawe 2016, yn nodi dull newydd o fynd i'r afael â dyfodol canol y ddinas yng ngolau patrymau newidiol o safbwynt manwerthu a gweithio. Yn fwy cyffredinol, mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2022/23. O ran twf economaidd, mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi'r amcan "trawsnewid ein heconomi a'n hisadeiledd, fel bod gan Abertawe ganol dinas defnydd cymysg ffyniannus ac economi leol a fydd yn cefnogi ffyniant ein dinasyddion". Datblygodd y Cyngor Gynllun Gweithredu

Adferiad Economaidd yn 2021 i gefnogi adferiad yr economi leol yn dilyn y pandemig COVID-19. Mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Gweithredu Adferiad Twristiaeth hefyd yn 2021, sy'n cydnabod (fel mewn rhannau eraill o'r rhanbarth) pwysigrwydd y sector lletygarwch.

- Yng Nghastell-nedd Port Talbot, cymeradwyodd y Cyngor Gynllun Corfforaethol newydd Adfer, Ailosod, Adfywio, yn 2022. Mae hwn yn cynnwys pedair thema o fewn 'Rhaglen Newid Strategol', gyda'r nod o greu'r "amodau ar gyfer mwy o waith gwyrdd, sicr, y telir yn dda amdano yn yr ardal" [Cyfeiriad: Cyngor Castell-nedd Port Talbot (2022), Adfer, Ailosod, Adfywio: Cynllun Corfforaethol 2022-27k, t.45 (https://www.npt.gov.uk/media/17198/cynllun-corfforaethol-2022-2027-adfer-ailosod-adfywio.pdf?v=20220422124029)]. Ochr yn ochr â'r Cynllun Corfforaethol, mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu Cynllun Adferiad Economaidd, sy'n ceisio adeiladu ar yr adferiad o'r pandemig Covid-19 er mwyn "tyfu ein cymuned fusnes, cefnogi cyflogaeth barhaol a'r gallu i gamu ymlaen mewn gwaith, ynghyd â chynyddu cynhyrchiant a thâl dros y tymor hir" [Cyfeiriad: Cyngor Castell-nedd Port Talbot [SQW] (2022), Cynllun Adferiad Economaidd]. Mae'r cynllun yn nodi cryfder y sylfaen diwydiannol presennol ynghyd â'r potensial o safbwynt arweinyddiaeth wrth newid i economi carbon isel. Mae'n amlygu maint a photensial safleoedd mawr Castell-nedd Port Talbot o ran cyflogaeth, ac yn nodi'r angen i hyrwyddo cyfleoedd economaidd ledled y fwrdeistref sirol, gan gynnwys o fewn y Cymoedd.

- Yn Sir Benfro, cyhoeddodd y Cyngor 'Strategaeth Adfer ac Adfywio 2020-2030'. Mae'r strategaeth hon yn cyfuno cynlluniau'r Cyngor ar gyfer ailgychwyn ac adfer yr economi mewn ymateb i'r pandemig Covid 19, gyda'i ddull adnewyddu ac adfywio tymor hwy. Mae'n nodi cynlluniau uchelgeisiol y Cyngor i symud at sefyllfa economaidd gryfach na hynny oedd yn bodoli cyn y pandemig. Mae'r rhain yn cynnwys creu swyddi peirianneg werdd newydd, glân, â ffocws ar Ddyfrffordd y Ddau Gleddau, ynghyd â gwelliannau parhaus i seilwaith allweddol, gan gynnwys darparu mynediad i fand eang o ansawdd da ym mhob ardal erbyn 2023. Cydnabyddir hefyd pwysigrwydd cynnal y gwaith o drawsnewid ac adfywio trefi allweddol, ac yn enwedig canol y trefi hyn. Nodwyd bod hyn yn angenrheidiol ar gyfer denu gweithwyr ym maes yr economïau gwybodaeth a chreadigol. Mae'r Strategaeth yn cyfeirio hefyd at y gwaith parhaus gydag Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau i helpu i sicrhau statws Porthladd Rhydd ar gyfer Aberdaugleddau. Fel y cyfeiriwyd mewn rhan arall o'r adroddiad hwn, mae'r gwaith wedi mynd ymlaen i'r cam o gyflwyno cais ar y cyd â Chastell-nedd Port Talbot.

3.37 Ar draws y sylfaen hon o strategaethau lleol, mae'n werth amlygu tair thema gyffredin. Yn gyntaf, yr ymrwymiad i gefnogi twf economaidd cynaliadwy o fewn y fframwaith rhanbarthol a nodwyd yn flaenorol: ym mhob un o'r pedwar awdurdod, gwnaed cryn dipyn o waith i adolygu cynlluniau yng ngolau'r

pandemig Covid-19, ac i flaenoriaethu adferiad economaidd. Yn ail, ffocws ar ganolfannau trefi a dinasoedd, sy'n cael ei ddatblygu ymhellach ar lefel fwy lleol trwy (er enghraifft) uwchgynlluniau adfer trefi Sir Gaerfyrddin. Yn drydydd, y ffocws cynyddol, sy'n cyd-fynd â strategaethau rhanbarthol a chenedlaethol, ar ddatgarboneiddio a newid ynni, sy'n cael ei atgyfnerthu unwaith eto trwy gyfres o strategaethau thematig penodol ar lefel leol (fel Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadawy (DARE) Castell-nedd Port Talbot).

**Rhaglenni ariannu**

3.38 Yn hanesyddol, mae'r cynlluniau datblygu economaidd ac adfywio a fabwysiadwyd ar lefel ranbarthol a lleol wedi'u cysylltu'n agos â ffynonellau buddsoddi strategol (er enghraifft, roedd Strategaeth Adfywio Economaidd Bae Abertawe 2013 wedi helpu i lywio proses y Fargen Ddinesig). Gwelwyd newid sylweddol mewn blynyddoedd diweddar o ran y dirwedd gyllid ar gyfer cynlluniau adfywio, fel y mae cronfeydd Ewropeaidd (y mae'r rhanbarth wedi cael budd mawr ohonynt) yn dirwyn i ben. Fodd bynnag, cafwyd cydweithrediad ar lefel ranbarthol i baratoi Cynllun Buddsoddi ar gyfer dyraniadau at y dyfodol o dan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae nifer o gynigion ar gyfer buddsoddi cyfalaf wedi'u cyflwyno i Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU.

3.39 Mae'r ardal hefyd yn ymgorffori Ardal Fenter yng Nglannau Port Talbot, a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hon wedi'i chysylltu'n agos â'r ffocws ar weithgynhyrchu ym Mhort Talbot, a'r capasiti o ran twf, a cheir cyfeiriad pellach at hyn ym Mhennod 5.

**Tystiolaeth o gysylltiadau swyddogaethol rhwng ardaloedd ar sail ddaearyddol ofodol**

3.40 Tra nad yw'r broses o ddatblygu Cynllun Datblygu Strategol wedi cychwyn yn ffurfiol, bydd goblygiadau'r Ardal Dwf Genedlaethol a'i diffiniad o safbwynt gofodol yn ystyriaeth wrth ddatblygu'r strategaeth ofodol o fewn yr ardal ddaearyddol hon sy'n ymestyn y tu hwnt i'w chyffiniau lleol. Tra bo'r uchod yn amlygu tystiolaeth o strategaethau economaidd a rennir ar draws y rhanbarth, ac ar ffurf cyfuniadau eraill o ran awdurdodau, hyd yma, ychydig iawn o dystiolaeth ddiweddar sydd ar gael sy'n rhoi sylw penodol i geisio deall y cysylltiadau swyddogaethol sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng awdurdodau ac ar draws yr ardal, y bennaf oherwydd bod cynlluniau'n cael eu llunio o fewn yr ardaloedd gweinyddol presennol. Ym mhle bydd tystiolaeth o'r fath yn sicr o gael ei pharatoi i lywio'r Cynllun Datblygu Strategol, mae'r adran hon y rhoi ystyriaeth gryno i'r dadansoddiad sydd wedi'i gyhoeddi o safbwynt cysylltiadau swyddogaethol daearyddol ar draws yr ardal neu sy'n llywio diffiniadau ystadegol.


3.41 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, a chyn sylfaen dystiolaeth y Cynllun Datblygu Strategol, nid oes tystiolaeth o unrhyw ymgais i ddiffinio naill ai'r Ardaloedd Marchnad Economaidd Swyddogaethol (FEMA) neu Ardaloedd Marchnad Dai Strategol (FEMA) ar draws De-orllewin Cymru, gan nodi nad

ydynt yn ofyniad penodol o dan arweiniad perthnasol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r awdurdodau unigol yn flaenorol wedi cydnabod cryfder a natur cysylltiadau swyddogaethol rhwng yr ardaloedd gweinyddol, ac yn parhau i wneud hynny, i ddeall goblygiadau eu gwahanol Gynlluniau Datblygu Lleol. Mae hyn wedi cynnwys cyhoeddi astudiaethau sy'n cynnwys mwy nag un awdurdod, gyda'r awdurdodau'n parhau i adeiladu ar y gwaith hwn o fewn y dystiolaeth sy'n llywio'r Cynlluniau Datblygu Lleol Newydd sy'n cael eu datblygu ganddynt ar hyn o bryd. Deallir, wrth fwrw ymlaen â chael tystiolaeth i lywio'r Cynllun Datblygu Strategol, y bydd y dadansoddiadau a gyflwynir yn yr astudiaethau hyn yn parhau i gael eu hadolygu a'u diweddaru'n unol â hynny.

3.42 Yn absenoldeb ardaloedd daearyddol swyddogaethol diffiniedig, rhoddwyd ystyriaeth ar lefel uchel i ddiffiniadau presennol ar sail ystadegau neu ddangosyddion sy'n rhoi gwybodaeth am anghenion a'u lleoliad o safbwynt gofodol.

3.43 Yn nhermau ardaloedd teithio i'r gwaith, mae Ffigur 3.2 yn dangos bod dinas a sir gyfan Abertawe, a'r rhan fwyaf o Gastell-nedd Port Talbot o fewn Ardal Teithio i'r Gwaith Abertawe, yn ôl hynny a ddiffiniwyd ar sail cyfrifiad 2011. Hefyd, mae Ardal Teithio i'r Gwaith Abertawe yn ymestyn ychydig ymhellach i'r gogledd, i ran de-orllewinol Powys, yng nghyffiniau Ystradgynlais. O ran Ardal Teithio i'r Gwaith Llanelli, er ei bod yn cynnwys rhan fechan o Gastell-nedd Port Talbot, mae'n cwmpasu'r rhan fwyaf o Sir Gaerfyrddin, ac yn cynnwys Rhydaman a Cross Hands, yn ogystal ag yn ymestyn tua'r gorllewin i gwmpasu Sir Gaerfyrddin a'i chefnwlad. Mae Hwlffordd ac Aberdaugleddau, yn ogystal â Phenfro a Dinbych-y-pysgod, yn ffurfio'r Ardaloedd Teithio i'r Gwaith yn Sir Benfro. Dangosir hyn yn Ffigur 3.2.


Ffigur 3.2: Ardaloedd Teithio i'r Gwaith 2011




Ffynhonnell: ONS

3.44 Mae prisiau tai yn ddangosydd o'r galw o fewn y farchnad, ac yn symptom o amodau'r farchnad dai o ran y cydbwysedd cymharol rhwng y cyflenwad a'r galw am dai. Mae Ffigur 3.3 yn cyflwyno data'r Gofrestrfa Tir i sefydlu'r pris cyfartalog a dalwyd mewn gwahanol sectorau cod post.

Ffigur 3.3: Pris Cyfartalog a Dalwyd yn ôl Sector Cod Post [Cyfeiriad: Categorïau a ddiffinnir mewn perthynas â'r pris cyfartalog o tua £187,258 ar draws y chwe awdurdod yn eu cyfanrwydd, wedi'u talgrynnu i'r £5,000 agosaf] (2021)




Ffynhonnell: Y Gofrestrfa Tir; dadansoddiad Turley

3.45 Mae mapio prisiau, gan ganolbwyntio ar graidd ardal yr astudiaeth yng nghyffiniau Abertawe, yn dangos ardal eang lle mae prisiau cyffredinol yn gymharol isel. Mae'r ardal hon yn ymestyn ymhellach i'r dwyrain, ond, o safbwynt gofodol, mae'n terfynu wrth fynd ymlaen i rannau mwy gwledig Abertawe a Sir Gaerfyrddin ac i mewn i Sir Benfro. Ym mhob un o'r rhannau gwledig hyn, ceir ynysoedd llai o brisiau is o fewn sawl un o'r aneddiadau llai.

**Polisi cynllunio lleol**

3.46 Mae rhannau dilynol o'r adroddiad hwn rhoi ystyriaeth fanylach i oblygiadau gofodol ymagweddau cyfredol a rhai sy'n datblygu o safbwynt polisïau yng nghyswllt darparu ar gyfer twf, ynghyd â'r hierarchiaethau aneddiadau mewn Cynlluniau Datblygu Lleol a fabwysiadwyd. Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o'r Cynlluniau Datblygu Lleol ar draws ardal yr astudiaeth i roi cyd-destun ar gyfer y dadansoddiad manylach hwn.

**Abertawe**

3.47 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2010-2025 ar 28ain Chwefror 2019. Mae'n nodi ei fod yn hyrwyddo agenda gref o ran Creu Lleoedd, sy'n ymagwedd bositif o safbwynt rheoli a hyrwyddo twf, ynghyd ag o ran cyflenwi'r

seilwaith ategol a fynnir fel sail i’r newid trawsnewidiol y rhagwelir y bydd Abertawe yn ei brofi fel y ddinas sydd yng nghanol Rhanbarth Bae Abertawe.

3.48 Mae polisïau’r cynllun ar gyfer twf wedi’u seilio ar y potensial amlwg y bydd yn cyflawni 13,600 o swyddi dros gyfnod y cynllun, ynghyd â’r disgwyl y rhagwelir cynnydd mawr yn nifer y boblogaeth ac aelwydydd. Mae hyn yn ategu’r ddarpariaeth o dir i gyd-fynd â’r gofyniad a nodwyd i gyflenwi 15,600 o gartrefi, ynghyd â gofyniad am 19ha o dir cyflogaeth i ddarparu ar gyfer y twf economaidd a ragwelir, sy’n debygol o fod yn gysylltiedig ag effaith y Fargen Ddinesig. Cydnabyddir y byddai darpariaeth ar y raddfa hon yn gynnydd sylweddol o’r lefelau a gyflenwyd yn y gorffennol. Mae’r strategaeth ofodol, o safbwynt darparu ar gyfer twf, wedi’i seilio ar ganfod nifer gyfyngedig o gymdogaethau cynaliadwy newydd mewn Ardaloedd Datblygu Strategol o fewn yr ardaloedd trefol presennol, neu’n agos atynt, ynghyd â nifer o estyniadau anstrategol o faint canolig ar gyrion aneddiadau, ynghyd â dyraniadau llai, mwy gwasgarog i gwblhau aneddiadau.

**Sir Gaerfyrddin**

3.49 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin ar 10fed Rhagfyr 2014, a bwriedwyd iddo arwain datblygiad hyd at 2021. Defnyddiwyd tystiolaeth, a oedd yn rhoi ystyriaeth i fanylion ynghylch niferoedd y boblogaeth a’r twf o ran aelwydydd a ragwelir, i ganfod bod angen 15,197 o dai dros gyfnod y cynllun. Defnyddiwyd rhagor o dystiolaeth economaidd i gyfiawnhau’r dyraniad o 111.13ha o dir cyflogaeth.

3.50 Mae darparu ar gyfer twf yn seiliedig ar strategaeth ofodol y bwriedir y bydd yn cadarnhau patrwm presennol yr aneddiadau o safbwynt gofodol ac yn caniatáu cefnogi, cadw a pharhau i ddarparu cyfleusterau, gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth hyfyw mewn lleoliadau hygyrch a phriodol. Bwriedir hefyd galluogi datblygiad economïau lleol sy’n gynaliadwy. Mae hyn yn gweld dosbarthiad y ddarpariaeth o dai a chyflogaeth yn cael ei ganolbwyntio yng nghanolfannau trefol sefydledig Llanelli, Caerfyrddin a grŵp Rhydaman/Cross Hands o aneddiadau. Mae’n cadarnhau bod y ffocws ar yr aneddiadau hyn fel ‘Ardaloedd Twf’ yn adlewyrchu eu gwahanol statws a’u nodweddion o safbwynt eu cynaliadwyedd a’u hygyrchedd. Mae’n nodi bod yr Ardaloedd Twf hyn yn dangos hygyrchedd da trwy gysylltiadau â’r rhwydwaith priffyrdd strategol a’r rhwydwaith rheilffyrdd, yn ogystal â thrafnidiaeth gyhoeddus.

3.51 Yn 2018, dechreuodd Cyngor Sir Caerfyrddin ar ei Gynllun Datblygu Lleol Newydd ac ymgynghorodd wedyn ar ei CDLl Newydd Adneuol yn 2019/2020. Yna fe gafodd y cynnydd ar y CDLl Newydd ei atal o ganlyniad i gyhoeddiad annisgwyl targedau newydd i leihau lefelau ffosffad afonydd mewn ardaloedd cadwraeth arbennig ledled Cymru gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn Ionawr 2021, a roddodd gyfyngiadau sylweddol ar ddatblygiad mewn rhannau o’r sir. Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran mynd i’r afael â’r materion hyn, ac mae’r awdurdod cynllunio lleol wrthi ar hyn o bryd yn paratoi ail CDLl Newydd adneuol. Bydd yr ail gynllun adneuol yn ceisio cadw Caerfyrddin, Llanelli a

Rhydaman/Cross Hands fel yr ardaloedd a fydd yn derbyn y lefel uchaf o ddarpariaeth o ran tai a chyflogaeth, sy'n adlewyrchu eu rhinweddau o safbwynt cynaliadwyedd.

**Castell-nedd Port Talbot**

3.52 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Castell-nedd Port Talbot yn Ionawr 2016. Mae'r ddogfen yn nodi gweledigaeth ac amcanion y Cyngor, ynghyd â chyfres o bolisïau a chynigion sydd, gyda'i gilydd, yn nodi'r fframwaith ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn y fwrdeistref sirol yn y cyfnod 2011-2026.

3.53 Mae'r CDLl yn darparu ar gyfer angen am 7,800 o dai, sy'n seiliedig ar senario, a arweinir gan ofynion economaidd, sy'n tybio y bydd twf o 3,850 o ran swyddi, y mae'n cadarnhau fydd yn ategu'r ymagwedd a gymerwyd gan Ddinas a Sir Abertawe. Mae cyfanswm o 96ha o dir wedi'i ddyrannu hefyd at ddibenion cyflogaeth, y nodir ei fod yn cynnwys lle i ddarparu ar gyfer anghenion y sector ynni, ynghyd â chyfleusterau a gwasanaethau ategol.

3.54 Mae'r CDLl yn nodi bod y senario dewisedig a arweinir gan ofynion economaidd yn rhywbeth i ymgyrraedd ato, sy'n anelu at sicrhau'r twf mwyaf o ran swyddi o fewn yr economi leol. Cydnabyddir y cysylltiad â'r angen am dai, gan weld bod y lefel o dai y nodir bod ei hangen yn seiliedig yn bennaf ar y gostyngiad ym maint cyfartalog aelwydydd, gan annog elfen o fewnfudo i'r Sir, sy'n sicrhau ei bod yn dod yn fwy annibynnol, ac yn llai dibynnol ar ffynonellau llafur allanol, trwy wella cyfraddau gweithgarwch economaidd preswylwyr.

3.55 O safbwynt gofodol, mae'r CDLl yn canolbwyntio datblygiad ar hyd y coridor arfordirol, ac yn ardaloedd trefol Castell-nedd a Phort Talbot, wrth nodi bod Pontardawe a Chwm Nedd Uchaf yn ardaloedd twf strategol o fewn cymunedau'r cymoedd.

**Sir Benfro**

3.56 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Sir Benfro ar 28ain Chwefror 2013. Mae'n darparu ar gyfer 7,300 o dai newydd, i gyflawni angen am 5,700 o gartrefi, a oedd bryd hynny'n cydnabod amcanestyniadau a oedd yn dangos y rhagwelwyd bod poblogaeth yr awdurdod am dyfu o ganlyniad i lefel fewnfudo net sylweddol. Gwneir darpariaeth hefyd ar gyfer 173 hectar o dir cyflogaeth, gan gydnabod pwysigrwydd cefnogi datblygiad gweithgareddau yng nghyswllt y porthladd ac ynni at y dyfodol yn agos at Dyfrffordd Aberdaugleddau, gyda sawl safle cyflogaeth strategol wedi'u nodi yn y cyffiniau. Mae'r Cynllun yn cynnwys strategaeth aneddiadau sy'n anelu at gyflawni cydbwysedd o safbwynt eu dosbarthiad rhwng ardaloedd trefol a gwledig Sir Benfro.

**Crynodeb**

3.57 Mae'r Canlyniadau a nodir yn Cymru'r Dyfodol yn tanlinellu pwysigrwydd darparu ar gyfer twf mewn modd cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar ganolbwyntio datblygiadau newydd o fewn trefi a dinasoedd, gydag opsiynau

cynaliadwy o safbwynt teithio, sy'n lliniaru effeithiau ar yr amgylchedd, ac yn hyrwyddo'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.

3.58 Mae nodi'r tair Ardal Dwf Genedlaethol, sy'n cynnwys Bae Abertawe a Llanelli, yn atgyfnerthu'r strategaeth ofodol hon ac yn taflu goleuni ar eu diffiniad daearyddol, sy'n bwysig. Yn nghyd-destun Ardal Dwf Bae Abertawe a Llanelli, mae'n bwysig nodi bod Cymru'r Dyfodol yn datgan yn glir y cafodd y ddaearyddiaeth hon ei hadnabod am ei bod yn brif ganolfan sy'n bodoli eisoes o safbwynt ei phoblogaeth, swyddi a gwasanaethau, yn ogystal â'r cysylltiadau presennol o ran seilwaith, sy'n ei chysylltu â chanolfannau economaidd eraill, ac yn hwyluso patrwm hunangynhwysol o symudiadau, sy'n gynaliadwy. Pwynt pwysig arall yw ei fod hefyd yn cydnabod bod gan yr ardal hon y cyfle yn y dyfodol i dderbyn lefel strategol gynaliadwy o dwf economaidd ac o ran tai, gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth newydd ym maes gweithgynhyrchu uwch a thrafnidiaeth.

3.59 Mae gwahaniaeth clir yn y cyswllt hwn, o safbwynt y sail resymegol ar gyfer diffinio ardaloedd twf rhanbarthol. Tra eu bod yn ganolfannau allweddol sy'n bodoli eisoes o ran cyflogaeth, gwasanaethau, manwerthu a diwylliant, maent yn ganolbwynt ar gyfer twf a reolir, sy'n eu galluogi i gynnal a chefnogi eu poblogaeth eu hunain a'r cymunedau o'u hamgylch.

3.60 O ran yr adolygiad o'r cynlluniau a'r strategaethau cyhoeddedig sydd ar gael, rhoddwyd ystyriaeth uniongyrchol iddo hefyd yn y dadansoddiad gofodol a geir yn y rhannau sydd i ddod. Er enghraifft, mae'n ystyried cynlluniau trafnidiaeth presennol ar y lefel ranbarthol, yn ogystal â strategaethau buddsoddi ac economaidd, ynghyd â dosbarthiad gofodol y twf y cynllunnir ar ei gyfer o fewn Cynlluniau Datblygu Lleol.

# 4. Y cyd-destun economaidd-gymdeithasol presennol o safbwynt gofodol

4.1 Mae'n bwysig bod y rhan flaenorol o'r adroddiad wedi cadarnhau'r ystyriaethau economaidd-gymdeithasol yn Cymru'r Dyfodol sy'n diffinio'r Ardal Dwf Genedlaethol, gan gydnabod mai hon yw:

- y prif ganolfan ar hyn o bryd o ran y boblogaeth, swyddi a gwasanaethau, ynghyd â chysylltiadau o safbwynt seilwaith;
- mae'n gallu derbyn lefel strategol gynaliadwy o dwf economaidd ac o ran tai; a
- bydd yn derbyn buddsoddiad mewn seilwaith

4.2 Mae'r adran hon yn ystyried y cyntaf o ddwy gydran sy'n darparu cyfiawnhad o safbwynt gofodol. Defnyddir GIS a dadansoddiad ehangach i feithrin gwell dealltwriaeth o'r goblygiadau o ran sicrhau bod unrhyw ddiffiniad daearyddol yn cyd-fynd yn gywir â lle mae gweithgareddau wedi'u canoli ar hyn o bryd, ynghyd â'r goblygiadau o ran darparu ar gyfer twf at y dyfodol mewn modd cynaliadwy. Mae'n ystyried:

- dosbarthiad presennol y boblogaeth, cyflogaeth ac allbynnau economaidd ar draws yr ardal;
- hierarchiaeth aneddiadau o fewn y cyd-destun cynllunio, ochr yn ochr â rhai ystyriaethau ehangach yng nghyswllt dosbarthiad aneddiadau;
- cysylltiadau a seilwaith trafnidiaeth presennol; ynghyd ag
- asedau allweddol, o ran addysg, ymchwil ac arloesedd; y stoc diwydiannol a busnes; ynghyd â darpariaeth ddiwylliannol.

**Y boblogaeth, cyflogaeth ac allbynnau**


**Y boblogaeth**

4.3 Mae Ffigur 4.1 yn dangos nifer y preswylwyr fesul hectar ym mhob LSOA [Cyfeiriad: Ardal Gynnyrch Ehangach

4.4 Mae'r map yn dangos lle mae'r boblogaeth wedi'i chanoli, yn ymestyn allan o ganol Abertawe. Gwelir pod lefelau poblogaeth cymharol ddwys yn bodoli yn Llanelli, Port Talbot a Chastell-nedd yn arbennig.

4.5 Mae'n bwysig nodi bod yr ardal arfordirol yn cynnwys cymdogaethau mwy poblog, sy'n atgyfnerthu nifer bresennol y bobl sydd wedi'u canoli o fewn yr ardal ddaearyddol hon, ym mhle mae dwysedd y boblogaeth yn lleihau'n gyflym ym mhob un ond ychydig o gymdogaethau yn yr ardaloedd o'i chwmpas.

Ffigur 4.1: Dwysedd y boblogaeth- nifer y preswylwyr fesul hectar (2020)





**Cyflogaeth**

4.6 O ran bod lle mae swyddi neu gyflogaeth wedi'u canoli yn cynrychioli penderfynydd allweddol arall yn seiliedig ar Cymru'r Dyfodol, mae Ffigur 4.2 yn dangos nifer y swyddi fesul hectar, sydd wedi'u dadansoddi yn ôl yr LSOA a gan

ddefnyddio’r data diweddaraf sydd ar gael o 2020 [Cyfeiriad: Yn deillio o Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth].

Ffigur 4.2: Dwysedd cyflogaeth – nifer y swyddi fesul hectar (2020)





4.7 O safbwynt daearyddol, mae hwn yn dangos darlun tebyg iawn i hwnnw sy’n mapio’r boblogaeth, sy’n galonogol o ran ei fod yn amlygu cynaliadwyedd y modd y mae lleoliad swyddi a chartrefi’n cyd-fynd â’i gilydd. Ceir rhai eithriadau sy’n werth eu nodi, sy’n cynnwys cyflogaeth sydd wedi’i chanoli yn rhannau

gogleddol ardal drefol Abertawe, sy’n adlewyrchu ei hagosrwydd i gyffyrdd yr M4. Hefyd, mae amlygrwydd y swyddi sydd wedi’u canoli ym Mhort Talbot yn fwy arwyddocaol na’r boblogaeth sydd wedi’i chanoli yno, sy’n adlewyrchu maint gwaith Dur Tata, a’r mathau eraill o ddefnydd yn y cyffiniau o safbwynt cyflogaeth. Y tu hwnt i Abertawe a Phort Talbot, yn gyffredinol, mae lle mae swyddi wedi’u canoli yn cyd-fynd â’r dosbarthiad trefol, sy’n dangos Castell-nedd a Llanelli yn amlwg.

**Allbynnau economaidd**

4.8 Mae’n bosibl hefyd mapio ym mhle mae allbynnau wedi’u canoli ar lefel leol, gan ddefnyddio Amgangyfrifon Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y DU Fesul Ardaloedd Bach y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Yn ôl y disgwyl, mae hyn yn olrhain y mapio o ran y boblogaeth a chyflogaeth, gyda’r niferoedd mwyaf wedi’u canoli yn yr ardaloedd sy’n ymestyn o Fargam, drwodd i ogledd a chanol Abertawe, a gyda niferoedd llai wedi’u canoli yng nghyffiniau Llanelli a Cross Hands fel y mae Ffigur 4.3 yn dangos.

Ffigur 4.3: Lle mae GVA wedi’i ganoli o safbwynt lleol




*Ffynhonnell: SYG (2021), Amcangyfrifon Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y DU Fesul Ardaloedd Bach; dadansoddiad SQW*

**Yr hierarchiaeth aneddiadau**

4.9 O ran ystyried yr hierarchiaeth aneddiadau presennol ar draws ardal yr astudiaeth, mae’n bwysig nodi’r cyd-destun o safbwynt polisïau cenedlaethol sydd yn sail i hwn. Mae Polisi 6 o Cymru’r Dyfodol wedi’i seilio ar ddull ‘Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf’. Mae hyn yn mynnu bod rhaid lleoli unrhyw gyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus newydd sylweddol yng nghanol trefi a dinasoedd. Mae’r polisi’n datgan y dylai


fod ganddynt gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da, a hynny i'r dref neu'r ddinas gyfan ac allan ohoni, a, lle y bo'n briodol, y rhanbarth ehangach.

4.10 Mae Polisi Cynllunio Cymru'n datblygu hyn ymhellach trwy ddatgan y dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu dull dilyniannol o ddewis safleoedd newydd yn eu cynllun datblygu, ac wrth benderfynu ceisiadau cynllunio [Cyfeiriad: Polisi Cynllunio Cymru, Paragraff 4.3.18].

4.11 Fel rhan o fireinio cyd-destun gofodol yr Ardal Dwf Genedlaethol, mae angen rhoi ystyriaeth felly i'r hierarchiaeth aneddiadau o fewn y rhanbarth, er bod y rhain yn ddynodiadau polisi a fydd yn cael eu hadolygu fel rhan o'r gwaith o baratoi CDLl Newydd.

4.12 Mae Ffigur 4.4 yn dangos dynodiadau presennol yr aneddiadau, gan geisio darparu rhywfaint o gysondeb o ran y disgrifiadau o'r amryw hierarchiaethau.

Ffigur 4.4: Yr hierarchiaeth aneddiadau fel y mae wedi'i diffinio ar hyn o bryd - Cynlluniau Datblygu Lleol mabwysiedig



4.13 O ran ystyried Ffigur 4.4, mae'n amlwg mai Abertawe yw'r brif ganolfan drefol, sy'n cael ei chydnabod yn ei CDLl presennol ac yn adlewyrchu ei statws fel dinas. Nid oes unrhyw hierarchiaeth pellach wedi'i nodi sy'n dosbarthu rhannau eraill o'r ardal drefol. Mae'r strategaeth ofodol wedi'i ffurfio o dair elfen: yr ardal drefol, nodi pentrefi allweddol y tu allan i'r brif ardal drefol, a'r ardal gefn gwlad agored. Mae Polisi PS1 o'r CDLl yn cyfeirio datblygu tuag at oddi mewn i i ffin anheddiad ardal drefol Abertawe a phentrefi allweddol. Mae'r CDLl yn diffinio'r 'ardal drefol', sy'n cynnwys Abertawe ei hun a'r aneddiadau sy'n cynnwys Y Mwmbwls, Tregŵyr a Chlydach (y diffinnir pob un ohonynt fel 'canolfannau rhanbarthol'). Mae Sir Abertawe hefyd yn cynnwys ardal gefnwlad wledig fawr tua'r gogledd a'r gorllewin, ac nid yw bob rhan o'r 'ardal drefol' yn cyffinio arni: mae Polisi ER3 o'r CDLl yn diffinio cyfres o 'letemau glas' i atal ymgyfuniad aneddiadau.

4.14 Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae maint a 'chynnig' yr aneddiadau mwy yng Nghastell-nedd (sy'n cynnwys Melincryddan), Port Talbot (sy'n cynnwys Felindre) a Phontardawe (sy'n cynnwys Trebanos, Rhydyfro ac Ynysmeudwy) yn cael eu cydnabod yn eu dynodiad fel 'Trefi' o fewn yr hierarchiaeth. Dosbarthir Llansawel, Sgiwen, Tai-bach a Glyn-nedd (sy'n cynnwys Pont Walbi) fel Canolfannau Rhanbarthol. Ni chynhwysir haen ddilynol o 'Ganolfannau Mawr Lleol' yn y Cynllun, ond mae'n amlwg bod ganddynt eu rôl fwy lleol eu hunain o fewn yr hierarchiaeth. Mae'r strategaeth a nodir yng Nghynllun Datblygu Lleol Castell-nedd Port Talbot yn gwahaniaethu rhwng ardal strategaeth ofodol y 'Coridor Arfordirol', sy'n cynnwys Port Talbot a Chastell-nedd, ynghyd ag ardal strategaeth y 'Cymoedd', sy'n cynnwys Pontardawe, Glyn-nedd a'r gefnwlad wledig.

4.15 Yn Sir Gaerfyrddin, mae'r CDLl Newydd Adneuol yn defnyddio dosbarthiad ar sail Haenau, sy'n nodi clystyrau o aneddiadau. Mae aneddiadau Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman/Cross Hands yn cael eu nodi fel Prif Ganolfannau Haen 1. Dosbarthir aneddiadau eraill sy'n llai fel Canolfannau Gwasanaeth. Mae'r CDLl Newydd Adneuol hefyd yn nodi chwe 'chlwstwr' o aneddiadau ar draws y sir: â'r rheiny'n berthnasol i'r Ardal Dwf Genedlaethol, mae'r rhain yn cynnwys Llanelli ac ardal De Gwendraeth, y nodir eu bod "o bwys strategol, nid yn unig i Sir Gaerfyrddin, ond hefyd ar lefel ranbarthol a chenedlaethol", ynghyd ag Aman a Gwendraeth Uchaf, y nodir eu bod yn ganolbwynt allweddol ar gyfer buddsoddiad mewn swyddi cartrefi a gwasanaethau.

4.16 Y tu hwnt i'r hierarchiaeth aneddiadau fel y'i nodir yn y CDLl mabwysiedig a'r cynllun sy'n cael ei ddatblygu, fel y disgrifir uchod, mae'n berthnasol i nodi diffiniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o 'Ardaloedd Adeiledig' [Cyfeiriad: diffinir Ardaloedd Adeiledig fel tir a chanddo arwynebedd o o leiaf 20 hectar, lle mae aneddiadau sydd o fewn 200 i'w gilydd wedi'u cysylltu]. Mae SYG yn diffinio 8 Ardal Adeiledig fwy, sy'n cynnwys nifer o is-raniadau. Y mwyaf o'r rhain o bell ffordd yw Abertawe, sy'n ymestyn i gynnwys y rhan fwyaf o'r rhan arfordirol o Gastell-nedd Port Talbot, sy'n amlygu'r cysylltiadau agos ar draws y rhan hon o Fae Abertawe. Yr Ardaloedd Adeiledig mwy eraill yw Llanelli,

Rhydaman a Gorseinon, ac mae'r gweddill yn aneddiadau llai. Mae Tabl 4.1 yn nodi poblogaeth bob Ardal Adeiledig a'r is-raniadau a gynhwysir oddi mewn iddynt.

Tabl 4.1: Ardaloedd Adeiledig Mwy a'u his-raniadau (poblogaeth dros 5,000)

| **Ardal Adeiledig** | **Is-raniadau** | **Poblogaeth Amcangyfrifiedig 2020** |
|---|---|---|
| Abertawe | Glais | 861 |
| Abertawe | Tregŵyr | 8,151 |
| Abertawe | Castell-nedd | 51,581 |
| Abertawe | Pontardawe | 13,330 |
| Abertawe | Port Talbot | 38,134 |
| Abertawe | Abertawe | 185,033 |
| Abertawe | Cila Uchaf | 1,323 |
| Abertawe | Ystradgynlais | 10,670 |
| AA Abertawe | Cyfanswm | 309,083 |
| Llanelli | Llanelli | 45,551 |
| Llanelli | Llangennech | 4,313 |
| Llanelli | Pwll | 1,348 |
| Llanelli | Cyfanswm AA Llanelli | 51,212 |
| Rhydaman | Rhydaman | 8,610 |
| Rhydaman | Pen-y-groes (yn cynnwys Cross Hands) | 6,465 |
| Rhydaman | Pen-y-banc | 1,115 |
| Rhydaman | Saron | 922 |
| Rhydaman | Y Tymbl | 4,333 |
| Rhydaman | Tŷ-croes | 3,775 |
| AA Rhydaman | Cyfanswm | 25,220 |
| Gorseinon | Gorseinon | 17,340 |
| Gorseinon | Casllwchwr | 5,014 |
| AA Gorseinon | Cyfanswm | 22,234 |
| Pontarddulais | Pontarddulais | 9,757 |
| Porth Tywyn | Porth Tywyn | 6,061 |

| | | |
|---|---|---|
| Porth Tywyn | Pen-bre | 2,007 |
| AA Porth Tywyn | Cyfanswm | 8,068 |
| Gwauncaegurwen / Brynaman | Brynaman | 2,634 |
| Gwauncaegurwen / Brynaman | Gwauncaergurwen | 3,130 |
| AA Gwauncaegurwen / Brynaman | Cyfanswm | 5,764 |
| Glyn-nedd | Blaengwrach | 1,146 |
| Glyn-nedd | Glyn-nedd | 4,195 |
| AA Glyn-nedd | Cyfanswm | 5,341 |

Ffynhonnell: SYG, Amcangyfrifon Poblogaeth Ardaloedd Bach

4.17 Dylid nodi, mewn rhai achosion, bod maint yr ‘Ardaloedd Adeiledig mwy’ yn ymestyn cryn bellter y tu hwnt i’r anheddiad ‘craidd’: er enghraifft, mae’n amlwg fod Castell-nedd a Phort Talbot yn aneddiadau sydd ar wahân i Abertawe, ac mae Ystradgynlais (a gynhwysir fel is-raniad o AA Abertawe) ym Mhowys, sydd y tu hwnt i ffin y tri awdurdod o fewn yr Ardal Dwf Genedlaethol, ac yn bell iawn o Abertawe ei hun. Ond mae diffiniad yr Ardaloedd Adeiledig yn darparu modd arall (sy’n deillio o’r tu allan) o edrych ar ddaearyddiaeth drefol yr ardal, ynghyd â’r cysylltiadau rhwng canolfannau trefi.

**Cysylltiadau a seilwaith**

**Seilwaith trafnidiaeth**

4.18 Gan werthfawrogi rôl bwysig isadeiledd presennol o safbwynt hwyluso symudiad pobl a’r modd y mae cymunedau wedi’u canoli o amgylch hybiau allweddol, mae Ffigur 4.5 yn dangos y seilwaith trafnidiaeth allweddol ar draws yr ardal, gan gynnwys pwyntiau nodol (gorsafoedd, cyffyrdd ac ati).

4.19 Dengys hyn:

- Cysylltiadau rheilffordd pwysig y dwyrain-gorllewin sy’n rhedeg ar hyd y coridor arfordirol, gyda Phrif Linell Reilffordd De Cymru yn cysylltu Port Talbot, Castell-nedd, Abertawe, Tregŵyr, Llanelli a Phorth Tywyn (ac yn darparu cysylltedd â Chaerdydd a Llundain), ynghyd â Rheilffordd Canol Cymru sy’n ymestyn i’r gogledd i Bontarddulais a Rhydaman;

- Cysylltiadau ar gyfer cludo nwyddau ar y rheilffyrdd sy’n chwarae rôl bwysig o ran lleihau gwasanaethau dosbarthu ar y ffyrdd. Mae’r rhain yn cynnwys pedair llinell gargo yng Nghastell-nedd Port Talbot: Llinell Onllwyn o Gastell-nedd (Pentrecaseg), Cwm Nedd i Gwmgwrach, Cwm Dulais i Onllwyn, Dyffryn Aman – Rhydaman i Dairgwaith. Mae llinellau’n gweithredu hefyd rhwng Dociau Abertawe trwy Bentrecaseg a Glanfeydd

Afon Nedd a rhwng Port Talbot a'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yng Nghastell-nedd Port Talbot / Powys (ystyrir rhagor o wybodaeth am y buddsoddiad hwn sydd wedi'i gynllunio yn adran 5); ynghyd â'r


- Rhwydwaith ffyrdd strategol, yn enwedig hynny sy'n cynnwys yr M4 sy'n mynd o amgylch y brif ardal drefol o Bort Talbot, gan gysylltu rhannau mwyaf gogleddol Abertawe. Cysylltir Llanelli a Chastell-nedd â'r M4 gan yr A4138 a'r A465 yn y drefn honno; tra bo'r A465 hefyd yn ymestyn y cysylltedd o Gastell-nedd a'r M4 i Flaenau'r Cymoedd, yr M50 a Chanolbarth Lloegr. Mae coridor yr M4 yn ymestyn i'r gorllewin ar hyd yr A48 o Bont Abraham, trwy Cross Hands, Caerfyrddin ac ymlaen i Sir Benfro a'i phorthladdoedd. Ceir cysylltiad ffordd yn y gogledd hefyd o ben yr M4 at Bont Abraham, ar hyd yr A483 i

4.20 Mae buddsoddiad mawr mewn trafnidiaeth mewn blynyddoedd diweddar wedi cynnwys gwelliannau i goridor Ffordd Fabian sy'n cysylltu Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe; ynghyd â gwelliannau i'r rhwydwaith ffyrdd yng nghyffiniau Rhydaman a Cross Hands, a datblygiad yr hwb trafnidiaeth mawr ym Mharcffordd Port Talbot. Darperir rhagor o fanylion yng nghyswllt buddsoddiad parhaus mewn cynlluniau seilwaith ar gyfer cludiant yn adran 5, ond nodir yma, y tu hwnt i'r Ardal Dwf Genedlaethol ei hun, y bydd deuoli ffordd Blaenau'r Cymoedd (yr A465) i'r dwyrain o Hirwaun yn gwella cysylltedd o Fae Abertawe i Ganolbarth Lloegr.

4.21 Mae'r mapio'n datgelu 'T gwrthdro' a grewyd gan y llwybrau trafnidiaeth strategol allweddol, sy'n cynnwys cysylltiadau rheilffordd, ar hyd yr ardal arfordirol ac yna i fyny'r M4/cyswllt rheilffordd y gogledd. Fodd bynnag, mae'n werth nodi'r cysylltiadau rheilffordd cymharol wan ar draws cymunedau'r Cymoedd, a rhwng aneddiadau llai y Cymoedd a'r cytrefi arfordirol mwy, o ystyried absenoldeb (ar wahan i ar reilffordd Calon Cymru) cysylltiadau rheilffordd i deithwyr rhwng y gogledd a'r de.

4.22 Mae arwyddocâd ehangach ar lefel ranbarthol a chenedlaethol i seilwaith porthladdoedd yr ardal hefyd. Mae Porthladd Abertawe a Phorthladd Port Talbot yn eiddo i *Associated British Ports* (ABP): mae Port Talbot yn arbennig o arwyddocaol o safbwynt ei fod yn borthladd dŵr dwfn mawr, sef un o ddim ond 3 o'r fath yn y DU. Trafodir y cyfleoedd datblygu sy'n gysylltiedig â'r porthladdoedd yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Ffigur 4.5: Seilwaith trafnidiaeth strategol





**Seilwaith gwasanaethau cyhoeddus**

4.23 Mae Ffigur 4.5 yn amlygu'r ysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd, sydd wedi'u canoli o fewn y brif ardal drefol arfordirol. Nodir bod mwy o wahaniaethau rhwng yr ysgolion uwchradd y tu allan i'r ardal hon yn ôl patrwm yr aneddiadau.

4.24 Mae dau fwrdd iechyd gwahanol yn gwasanaethu'r ardal ddaearyddol hon, sef Hywel Dda a Bae Abertawe. Lleolir y brif ddarpariaeth o wasanaethau ysbyty ar hyd y llain arfordirol, gyda'r unig ysbyty damweiniau ac achosion brys mawr ac ysbyty acíwt mawr (Treforys a Singleton yn y drefn honno) wedi'u lleoli yn ardal drefol ehangach Abertawe.

Ffigur 4.6: Seilwaith gwasanaethau cyhoeddus



**Asedau economaidd allweddol**

4.25 Mae'r is-adran hon yn ystyried dosbarthiad gofodol asedau economaidd allweddol, gan edrych ar gyfleusterau addysg, ymchwil ac arloesedd, stoc busnes a diwydiannol, ynghyd ag asedau diwylliannol a hamdden.

**Addysg uwch ac addysg bellach**

4.26 Roedd y dadansoddiad uchod yn ystyried ysgolion, ond mae'n amlwg fod gan brifysgolion a cholegau ôl-troed mwy yn nhermau eu myfyrwyr. Maent hefyd yn gweithredu fel catalyddion pwysig o safbwynt economaidd, o ystyried eu ffocws ar ymchwil a chyfleoedd pwysig ar gyfer meithrin cysylltiadau cynhyrchiol gyda busnesau.

4.27 Cynigir y brif ddarpariaeth prifysgol gan Brifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant:

- Lleolir Prifysgol Abertawe ar ddau brif safle: Campws Singleton sydd wedi'i hen sefydlu yn ardal drefol Abertawe, ynghyd â safle mwy diweddar Campws y Bae, a leolir ar Ffordd Fabian yng Nghastell-nedd Port Talbot. Roedd Campws y Bae yn cynnwys y cynllun mawr i ailddatblygu safle petrocemegol blaenorol, ac roedd wedi ehangu darpariaeth y Brifysgol yn sylweddol.

- Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn gweithredu o dri lleoliad mawr yn Ne-orllewin Cymru (yn Abertawe, Caerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan). Lleolir campysau Abertawe yng nghanol y ddinas, gyda buddsoddiad mawr yn natblygiad SA1 y Glannau ac yng Nghampws Busnes Abertawe mewn blynyddoedd diweddar.

4.28 Yn ogystal, ceir nifer o sefydliadau ymchwil addysg uwch arbenigol yn yr ardal, y lleolir pob un ohonynt yn Abertawe ac yn rhan arfordirol Castell-nedd Port Talbot. Mae'r rhain yn cynnwys Athrofa Gwyddor Bywyd Prifysgol Abertawe (a leolir rhwng Campws Singleton ac Ysbyty Singleton), ynghyd â chyfres o sefydliadau arbenigol yng Nghastell-nedd Port Talbot sy'n canolbwyntio ar ynni a datgarboneiddio diwydiannol. Y mwyaf o'r rhain yw Canolfan Hydrogen Prifysgol De Cymru ym Maglan [Cyfeiriad: Mae sefydliadau eraill yn cynnwys y Ganolfan Ymchwil Tyrbinau Nwy (Prifysgol Caerdydd, Margam); a'r Arddangoswr Ynni Gwres Solar (Prifysgol Abertawe, Margam)]. Ymhlith y buddsoddiad sydd wedi'i gynllunio at y dyfodol o safbwynt y prifysgolion y mae datblygu cyfleuster ymchwil diwydiannol SWITCH ym Mhort Talbot, ynghyd â darpariaeth ymchwil a arweinir gan y prifysgolion sydd i ddod ym Mhentre Awel yn Llanelli, a'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yn Onllwyn (a drafodir ymhellach isod). Yn hanesyddol, cafwyd cysylltiadau cryf rhwng Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a'r sector diwydiant o fewn yr ardal, fel y dangosir gan y gyfres hon o gyfleusterau ymchwil diwydiannol, a thrwy weithredu nifer o raglenni arloesi rhanbarthol a arweinir gan y prifysgolion [Cyfeiriad: Er enghraifft, rhaglen ASTUTE 2020 a gyflenwir gan Brifysgol Abertawe].

4.29 Cynigir addysg bellach gan Goleg Sir Gâr (gyda champysau'r Graig, yn union i'r gorllewin o Lanelli; ac yn Rhydaman [Cyfeiriad: Yn ogystal ag yng Nghaerfyrddin, a cheir coleg amaethyddol ger Llandeilo]); Coleg Gŵyr (gyda chyfleusterau yn Abertawe a Gorseinon); a Grŵp Colegau NPTC (gyda'i brif gyfleusterau ym Margam, Castell-nedd a Phontardawe; safleoedd arbenigol yn Llandarsi, Maesteg ac Abertawe, Coleg y Drenewydd a Choleg Bannau Brycheiniog ym Mhowys, ynghyd â chynlluniau i ddatblygu campws newydd ym Mhort Talbot). Mae gan Abertawe gynnig sylweddol o ran darpariaeth chweched dosbarth hefyd.

4.30 Mae'n werth gwneud dau sylw yng nghyswllt y ddarpariaeth o addysg uwch ac addysg bellach ar hyn o bryd o safbwynt daearyddol. Yn gyntaf, mae nifer sylweddol o asedau prifysgol wedi'u canoli yn yr ardal, sy'n rhychwantu Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, sydd wedi'u hintegreiddio'n fewnol ac wedi ehangu mewn blynyddoedd diweddar. Yn ail, o safbwynt sefydliadol, ceir cysylltiadau pwysig â'r rhanbarth ehangach: er enghraifft, mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Choleg Sir Gâr yn ffurfio rhan o'r un grŵp, ac mae ganddynt ôl-troed sylweddol ledled De-orllewin Cymru a thu hwnt, ac mae Grŵp Colegau NPTC yn ymestyn i'r gogledd i Ganolbarth Cymru. Tra bo nifer weladwy o asedau wedi'u canoli ar hyd arfordir Bae Abertawe a Llanelli, mae integreiddio â'r gefnwlad ehangach yn bwysig.

**Asedau busnes a diwydiannol allweddol**

4.31 Mae ardal ehangach yr Ardal Dwf Genedlaethol yn rhannu treftadaeth ddiwydiannol gyffredin, a hithau wedi'i chysylltu'n hanesyddol â'r diwydiannau glo, metel, peirianneg a phetrocemegol. Mae eu hetifeddiaeth yn dal i fod yn bwysig, o safbwynt cryfderau'r hyn sydd gan y sector addysg uwch i'w gynnig ym maes peirianneg, a amlygwyd uchod, ac o ran graddfa gymharol cyflogaeth ac allbynnau'r sector gweithgynhyrchu, yn enwedig yng Nghastell-nedd Port Talbot a Llanelli. Mae asedau allweddol sydd â chysylltiadau a pherthynas ledled yr ardal yn cynnwys:

- Presenoldeb mawr sy'n parhau o safbwynt y diwydiant dur a'i gadwyn gyflenwi, yn gysylltiedig â gwaith mawr Tata ym Mhort Talbot (ynghyd â'i gyfleuster dur arbenigol yn Nhrostre yn Llanelli). Mae Tata yn cynnal eu cyfleusterau ymchwil a datblygu yng Nglannau Harbwr Port Talbot, a fydd yn cael eu hymestyn gan ganolfan arfaethedig SWITCH Prifysgol Abertawe.

- Sylfaen weithgynhyrchu ehangach sy'n cynnwys cryfderau'r sector modurol (e.e. Gestamp Tallent a Marelli Automotive yn Llanelli); ac (yn enwedig yng nghyffiniau Port Talbot) nifer o ddefnyddiau ynni-ddwys, sy'n cynnwys dur a sment, ynghyd ag ystod amrywiol o weithgareddau gweithgynhyrchu [Cyfeiriad: sy'n cynnwys cynhyrchu papur, cynhyrchion metel gorffenedig, haenau a selyddion arbenigol o fewn amrywiaeth eang o ddiwydiannau]. Tra bo cyflogaeth yn y sector gweithgynhyrchu yn yr ardal wedi gostwng yn sylweddol yn y 1980au (ac wedi lleihau ymhellach

ar ddechrau'r 2000au), bu'n gadarn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fel y nodwyd uchod, cefnogir y sector gweithgynhyrchu cyffredinol gan sylfaen o ymchwil prifysgol (e.e., y Ganolfan Ymchwil Deunyddiau a'r Academi Deunyddiau a Gweithgynhyrchu ym Mhrifysgol Abertawe), yn ogystal â gan asedau ymchwil a datblygu yn y sector preifat (yr un mwyaf amlwg yw TWI ym Mhort Talbot).

- Gweithgaredd sydd wedi'i ganoli yn y sector cynhyrchu bwyd, yn enwedig yng nghyffiniau Cross Hands (sef cartref Bwydydd Castell Howell, gweithgynhyrchwr mawr), ac sy'n gysylltiedig â dyheadau i ddatblygu parc gweithgynhyrchu bwyd.

4.32 Ceir cryfderau hefyd, sy'n datblygu yn y meysydd a ganlyn:

- Ynni sy'n gysylltiedig â'r lefel uchel o weithgaredd sydd wedi'i ganoli ym maes diwydiant ynni-ddwys, y gallu presennol o ran cynhyrchu ac ymchwil ym maes hydrogen, ynghyd â lle i ehangu'r gallu i gynhyrchu ynni ar y môr yn sylweddol (a drafodir ymhellach isod).

- Data a thechnoleg ddigidol, gan gynnwys cryfderau sylweddol Prifysgol Abertawe ym maes cyfrifiadura, ynghyd â'r twf diweddar ym maes datblygu meddalwedd a gwasanaethau i fusnesau (er enghraifft, Keytree a Vizolution) a rhywfaint o asedau digidol creadigol (er enghraifft, Tinopolis yn Llanelli). Mae'n werth nodi hefyd presenoldeb sylweddol y DVLA yn Abertawe, sydd, o fewn ei strategaeth, yn disgrifio ei weledigaeth o ran bod yn "sefydliad dynamig, digidol", sy'n fuddsoddwr mawr mewn gwyddor data a seiberddiogelwch [Cyfeiriad: DVLA (2021), Cynllun Strategol 2021-24 (https://www.gov.uk/government/publications/dvla-strategic-plan-2021-to-2024/dvla-strategic-plan-2021-to-2024)].

- Gwyddorau bywyd, sy'n cael eu sbarduno'n rhannol gan ddatblygiad yr Athrofa Gwyddor Bywyd yn Abertawe, ynghyd â chyfraniad gweithredol sefydliadau'r GIG o safbwynt sbarduno'r galw am gynhyrchion a gwasanaethau newydd (er enghraifft, trwy'r cydweithrediad rhanbarthol ARCH a arweinir gan Fyrddau Iechyd Bae Abertawe a Hywel Dda).

4.33 Gan edrych ar draws y ciplun hwn o weithgaredd diwydiannol, ceir tystiolaeth o gysylltiadau ledled ardal Bae Abertawe a Llanelli, ynghyd â chryn dipyn o gysondeb rhwng cryfderau'r ardal ym maes ymchwil a diwydiant. Ceir cysylltiadau pwysig hefyd y tu hwnt i'r ardal gyfagos: er enghraifft, mae cynlluniau ABP ar gyfer datblygu'r porthladdoedd yn y dyfodol yn ymestyn i'w hasedau yng Nghaerdydd a Chasnewydd, yn ogystal â Phort Talbot ac Abertawe, tra bo rhaglen Clwstwr Diwydiannol De Cymru (SWIC) (y cyfeiriwyd ati'n flaenorol) yn ceisio datblygu cynllun ar gyfer datgarboneiddio diwydiannol ar draws y rhanbarth cyfan, yn ymestyn o Aberdaugleddau, drwodd i Gasnewydd.

4.34 Roedd busnesau yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r astudiaeth hon yn cydnabod ardal farchnad 'leol' a oedd wedi'i chanoli yng nghyffiniau Bae

Abertawe, ynghyd â chysylltiadau pwysig â'r rhanbarth ehangach. Roedd sawl un yn disgrifio gweithio gyda sylfaen cwsmeriaid o 'Dde Cymru a Gorllewin Lloegr', a bod y cysylltiadau rheilffordd a ffordd da rhwng y dwyrain a'r gorllewin yn hwyluso cysylltiadau o safbwynt y gadwyn gyflenwi a chyflogaeth tua'r dwyrain i gyfeiriad Caerdydd. Fodd bynnag, roedd rhai hefyd yn cyfeirio at bwysigrwydd cadwyni cyflenwi yn yr ardal leol, yn ogystal â gwerth gweithlu lleol, ffyddlon.

4.35 Gan edrych ar gyfleusterau arloesi ym maes busnes (y tu hwnt i'r cyfleusterau ymchwil a datblygu a gynigir gan y prifysgolion a chyflogwyr mawr), mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth wedi'i chanoli ar hyd y coridor arfordirol. Mae buddsoddiadau allweddol yn cynnwys Canolfan Dechnoleg Bae Abertawe ym Maglan (sydd ei hun yn cynnig lle i ehangu ar gyfer y Ganolfan Arloesi bresennol ym Maglan), ynghyd â chanolfan arloesi digidol Kingsway yng nghanol Abertawe. Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i ddatblygu canolfan arloesedd 'Matrix' fel rhan o Ardal Arloesi SA1 Glannau Abertawe, a arweinir gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

**Asedau diwylliannol a hamdden**

4.36 Roedd Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru wedi nodi'r potensial o ran twf y rhanbarth fel "economi profiad", sy'n manteisio ar ei gynnig ansawdd bywyd, ynghyd â'i bosibiliadau o ran datblygu ei economi ymwelwyr a'i gynnig hamdden. O fewn cyd-destun yr Ardal Dwf Genedlaethol sy'n datblygu, mae Abertawe yn cynnig canolbwynt ar gyfer y cynnig diwylliannol a hamdden rhanbarthol (er enghraifft, trwy fuddsoddiad blaenorol yn Stadiwm Liberty ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau; cwblhau Arena Abertawe'n ddiweddar o fewn canol y ddinas; ynghyd â'r datblygiad sydd wedi'i gynllunio i hyrwyddo treftadaeth safle gwaith copr Hafod Morfa).


4.37 O fewn rhannau gwledig yr ardal, mae asedau'r economi ymwelwyr yn cynnwys AHNE Gŵyr ynghyd â chynnig sylweddol o ran darpariaeth 'hamdden awyr agored'. Mae datblygiadau diweddar a newydd i hyrwyddo hyn yn cynnwys cyrchfan antur Wildfox sy'n cael ei datblygu yng Nghwm Afan, ynghyd â buddsoddiad yng Ngwlad y Sgydau. Yn ogystal, mae gan yr ardal cynnig helaeth o safbwynt treftadaeth ddiwydiannol a chynddiwydiannol (e.e., Castell Margam a Mynachlog Nedd yng Nghastell-nedd Port Talbot, ynghyd â Pharc Howard yn Llanelli).

**Y Gymraeg**

4.38 Rhywbeth sy'n berthnasol i natur y datblygu ar draws yr Ardal Dwf Genedlaethol, ynghyd â'i bosibiliadau, yw'r angen i ddiogelu a hybu'r defnydd o'r Gymraeg. O fewn Cymru'r Dyfodol, mae Llywodraeth Cymru'n mynegi mai'r uchelgais glir 'ar gyfer y Gymraeg yw cyrraedd miliwn o siaradwyr, yn ogystal â chynyddu canran y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd i 10% erbyn 2050', gan ddatgan ei bod yn nodi bod mwy na 562,000 o siaradwyr ar hyn o bryd.

4.39 Mae’n cyflwyno lluniad o fap ar sail data Cyfrifiad 2011, i ddangos darlun cymharol o leoliad siaradwyr Cymraeg. Dangosir fersiwn o’r map hwn isod yn Ffigur 4.7.

Ffigur 4.7: Nifer y bobl (tair oed a throsodd) sy’n gallu siarad Cymraeg, yn ôl aneddiadau




Ffynhonnell: Cymru’r Dyfodol, Cyfrifiad 2011

4.40 Mae'n amlwg o'r map hwn y ceir niferoedd uwch o siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin, o gymharu â rhannau eraill o ardal yr astudiaeth. Mae'r mapio yn Cymru'r Dyfodol ar lefel aneddiadau yn awgrymu y lleolir niferoedd uwch o siaradwyr Cymraeg yn sawl un o'r aneddiadau yn Sir Gaerfyrddin, sydd agosaf at Abertawe. Ceir aneddiadau eraill gyda chynrychiolaeth uwch yng Ngŵyr hefyd, ac ar y brif ffordd tua'r gogledd yng Nghastell-nedd Port Talbot.

4.41 I raddau, ceir cefnogaeth sylfaenol ar gyfer twf ardaloedd a chanddynt gynrychiolaeth gref, ynghyd â'r rheiny lle mae'r gynrychiolaeth yn is, os bydd yn cyfrannu at gynnydd o ran y defnydd o'r Gymraeg. Yn y cyd-destun hwn, nodir o fewn Cynlluniau mabwysiedig presennol y diffinir 'Ardaloedd ieithyddol sensitif o ran y Gymraeg' yn Abertawe o fewn rhan ogleddol y sir, ac yng Nghastell-nedd Port Talbot, o fewn Dyffryn Aman, Cwm Tawe Uchaf a (rhan o) Gwm Dulais a Phontardawe. Mae CDLl Newydd Adneuol Sir Gaerfyrddin yn diffinio bod y sir gyfan yn 'ieithyddol sensitif', gan nodi, hyd yn oed yn y ward ag iddi'r boblogaeth isaf o siaradwyr Cymraeg (Glan-y-môr yn Llanelli), mae'r ganran yn dal i fod yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru.

**Crynodeb**

4.42 Mae'r adran hon wedi cyflwyno dadansoddiad gofodol o broffil economaidd-gymdeithasol bresennol yr ardal, yn ogystal â'r seilwaith sy'n cysylltu cymunedau ac ardaloedd cyflogaeth.

4.43 Mae'n amlwg o'r gwaith mapio hwn ei fod yn glir bod yr aneddiadau a'r lleoliadau cyflogaeth mwy ar hyd y darn arfordirol yn cynrychioli ardaloedd lle mae niferoedd uchaf y boblogaeth a swyddi wedi'u canoli.

4.44 Mae gan yr ardal arfordirol hon gysylltiadau cryf o ran ei seilwaith ffyrdd a rheilffyrdd presennol, ac mae nifer o wasanaethau seilwaith cymdeithasol cysylltiedig wedi'u canoli yno.

4.45 Mae niferoedd llai o'r boblogaeth a swyddi wedi'u canoli yn yr aneddiadau llai, mwy ymylol yng Nghastell-nedd Port Talbot a Sir Gaerfyrddin. Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchu'r seilwaith trafnidiaeth mwy cyfyngedig rhwng y gogledd / de, gyda chysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd yn ymestyn i fyny'r M4, yr A483 a'r A48 i Rydaman a Cross Hands, ynghyd â chysylltiadau ffyrdd (yr A465) i fyny i'r Cymoedd yng Nghastell-nedd Port Talbot.

4.46 Ceir cryn dipyn o gysylltiadau diwydiannol ar draws Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli. Lleolir y rhain yn bennaf yn y llain drefol ddeheuol o Bort Talbot i Lanelli, ac maent yn adlewyrchu 'etifeddiaeth' diwydiannu hanesyddol, yn ogystal â chysylltiadau presennol ac ymarferol rhwng busnesau, eu cadwyni cyflenwi a'r sylfaen wybodaeth.

# 5. Cyfleoedd o safbwynt twf at y dyfodol

5.1 Mae'r adran hon yn ystyried yr ail faes cyfiawnhad gofodol a gydnabyddwyd ar ddechrau Adran 4, sy'n ystyried y modd y mae gwahanol rannau o ardal yr astudiaeth yn dangos y gallu i dderbyn a lleoli twf strategol o safbwynt economaidd a thai ar raddfa genedlaethol yn y dyfodol mewn modd cynaliadwy, yn ogystal â buddsoddiad mewn seilwaith.

5.2 Mae hyn yn cynnwys ystyried cynigion presennol o fewn y CDLl presennol a'r un sy'n datblygu, ynghyd â strategaethau economaidd cyhoeddedig a mynd ati ar wahân i ganfod buddsoddiadau sydd â'r potensial i fod yn drawsnewidiol.

5.3 Ochr yn ochr â chanfod ardaloedd ym mhle gellid cynnwys / hwyluso twf, mae'r adran hefyd yn ystyried buddsoddiad parhaus ac at y dyfodol yn y seilwaith trafnidiaeth ar draws yr ardal. Bydd gwelliannau i'r seilwaith hwn yn dylanwadu ar y galw am leoedd ar gyfer tai a chyflogaeth, a bydd gan hyn oblygiadau hefyd o safbwynt gallu aelwydydd a gweithwyr i deithio mewn modd cynaliadwy i gael mynediad i gyfleoedd newydd.

5.4 Bwriad mapio ardaloedd cyfle gofodol gan ddefnyddio GIS yw helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o'r cyfleoedd presennol ac at y dyfodol o ran twf yn y rhanbarth yn ei gyfanrwydd. Mae'n sicrhau hefyd bod unrhyw fireinio daearyddol yn adlewyrchu'n gywir lle mae'r cyfleoedd presennol wedi'u canoli, ynghyd â'r potensial o safbwynt twf at y dyfodol, cyn ymgymryd â rhagor o waith gan y Cyd-bwyllgor Corfforaethol i ddiffinio'r Ardal Dwf Genedlaethol fel rhan o baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol, fel yr eglurwyd yn Adran 3.

**Cynllunio ar gyfer twf at y dyfodol – ardaloedd cyfle gofodol**

5.5 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi'n glir, fel yr eglurwyd yn Adran 2, y bydd yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol yn ffocws twf strategol o safbwynt yr economi a thai, ynghyd â buddsoddiad mewn seilwaith o fewn eu gwahanol ranbarthau (sef De-orllewin Cymru yn achos Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli). A chaiff yr ardaloedd hyn eu hategu gan Ardaloedd Twf Rhanbarthol a fydd yn ffocws ar gyfer twf a reolir, ac yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus a masnachol ar raddfa ranbarthol.

5.6 Mae pob un o'r awdurdodau comisiynu wedi mabwysiadu Cynlluniau Datblygu Lleol, ac maent wedi cyrraedd camau gwahanol o safbwynt llunio Cynlluniau newydd. Mae'r Cynlluniau presennol hyn, a'r rhai sy'n cael eu datblygu, yn cynnwys ardaloedd presennol y nodwyd bod ganddynt botensial o ran twf at y dyfodol, yn enwedig yng nghyswllt cyfleoedd o safbwynt tir ar gyfer tai a chyflogaeth, sy'n adlewyrchu'r strategaeth ofodol ar gyfer yr awdurdod lleol.


5.7 Defnyddiwyd y wybodaeth hon at ddibenion dangos yr ardaloedd daearyddol allweddol y rhagwelir y byddant yn newid ac yn tyfu. Mae'n bwysig nodi nad oes bwriad i hyn achub y blaen o ran nodi strategaethau gofodol ar gyfer twf ar

lefel is-ranbarthol neu leol a arweinir gan gynllun. Y bwriad yw cael dealltwriaeth o'r ardaloedd allweddol lle gellid disgwyl twf strategol o safbwynt cenedlaethol, a allai ddylanwadu ar faint daearyddol yr Ardal Dwf Genedlaethol.

5.8 O ran nodi safleoedd / cyfleoedd penodol ar gyfer eu cynnwys, gwnaed penderfyniad i beidio â gosod trothwy (h.y. nifer y cartrefi / swyddi) a fyddai'n golygu y byddai ardaloedd penodol o dan y trothwy yn cael eu gadael allan. Mae hyn yn cydnabod, o ran cyfraniad 'strategol' cyfleoedd datblygu / adfywio, bod rhaid bod yn fwy gofalus yn hytrach na dim ond ystyried eu graddfa. Er enghraifft, gallai cyfle i ddatblygu ddenu diddordeb neu fod ag arwyddocâd o safbwynt cenedlaethol oherwydd y math o feddiannydd a fwriedir ar ei gyfer, yn hytrach na nifer y swyddi y bydd yn eu creu. Mae hyn yn cydnabod y cyfiawnhad yn Cymru'r Dyfodol, a nodwyd yn Adran 2, sy'n cadarnhau y bydd Ardaloedd Twf Cenedlaethol hefyd yn ffocws ar gyfer gweithgynhyrchu uwch, ynghyd â seilwaith digidol a seilwaith trafnidiaeth.

5.9 Felly mae Ffigur 5.1 yn dangos yr haenau o wybodaeth sydd ar gael, a ddarparwyd gan bob un o'r awdurdodau, am yr ardaloedd yr ystyrir eu bod o faint neu arwyddocâd strategol.

Ffigur 5.1: Ardaloedd a nodwyd o safbwynt posibiliadau o ran twf arwyddocaol yn y dyfodol – tai a chyflogaeth



5.10 Caiff yr ardaloedd allweddol a nodwyd o safbwynt y posibiliadau o ran twf ar gyfer bob awdurdod eu hystyried yn eu tro.

**Abertawe**

5.11 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Abertawe yn 2019 ac mae'n darparu'r fframwaith datblygu mwyaf cyfredol ar gyfer twf o fewn y Sir. Y prif ardaloedd twf o fewn Abertawe yw'r rheiny a leolir yn bennaf o fewn yr Ardaloedd Datblygu Strategol a neilltuwyd. Yn ogystal, mae'r CDLl yn 'diogelu' tir sy'n gyfagos i Ysbyty Treforys (Polisi SI 4) ar gyfer ehangu'r ysbyty i gyflenwi cyfleuster o bwys rhanbarthol. Nodir yr Ardaloedd Datblygu Strategol yn y Cynllun fel 'cymdogaethau newydd cynaliadwy…o fewn, neu'n agos i'r ardal drefol bresennol' [Cyfeiriad: Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2010 - 2025, paragraff 1.3.23]. Nodir cyfanswm o 12 lleoliad o fewn yr Ardal Ddatblygu Strategol. Aseswyd bod Ardal Ddatblygu Strategol a arweinir gan ofynion preswyl yn darparu ar gyfer lleiafswm o 400 o gartrefi, a rhagwelir y byddant, yn gynyddol, yn cyflenwi bron i 5,300 o gartrefi. Rhagwelir y bydd yr Ardal Ddatblygu Strategol, a fydd yn darparu ar gyfer defnydd cymysg, yn cyflenwi tua 4,400 o gartrefi ychwanegol. Mae'r Cynllun yn cadarnhau y bwriedir y bydd yr Ardal Ddatblygu Strategol yn cyfrannu cyfanswm o tua 70% o'r holl ddyraniadau o safbwynt datblygiadau preswyl o fewn cyfnod y Cynllun. Nodir mai'r Ardaloedd Ddatblygu Strategol a'u defnyddiau bwriadedig o ran datblygu yw:

- I'r de o Heol Glanffrwd, Pontarddulais – fe'i harweinir gan ddefnydd preswyl ar gyfer 720 o gartrefi.
- I'r gogledd o Garden Village – fe'i harweinir gan ddefnydd preswyl ar gyfer tua 750 o gartrefi.
- I'r de o'r A4240, Penllergaer – fe'i harweinir gan ddefnydd preswyl ar gyfer tua 850 o gartrefi.
- I'r gorllewin o Heol Llangyfelach, Penderi – fe'i harweinir gan ddefnydd preswyl ar gyfer tua 1,950 o gartrefi.
- I'r gogledd o Heol Clasemont, Treforys – fe'i harweinir gan ddefnydd preswyl ar gyfer tua 600 o gartrefi.
- Ysbyty Cefn Coed – tiroedd dros ben ar gyfer datblygiad a arweinir gan ddefnydd preswyl ar gyfer 427 o gartrefi.
- I'r gogledd orllewin o'r M4 Cyffordd 46, Llangyfelach – datblygiad defnydd cymysg sy'n lleoli tua 800 o gartrefi, ynghyd â pharc busnes strategol 14ha.
- I'r gogledd o Waunarlwydd yn ymestyn i'r gogledd o Fforest-fach – datblygiad defnydd cymysg sy'n lleoli tua 1,319 o gartrefi, ynghyd â safle cyflogaeth rhanbarthol.

- Coridor Ffordd Fabian - lleoliad cyflogaeth allweddol, sy'n manteisio ar ei agosrwydd at Gampws y Bae Prifysgol Abertawe, ynghyd ag Ardal Arloesi Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phorthladd Abertawe, gyda chapasiti ar gyfer tua 525 o gartrefi a 12ha o ddefnydd cyflogaeth posibl.

- Bro Abertawe – strategaeth ddatblygu i gyflwyno'r tir sy'n weddill a chanddo gapasiti ar gyfer tua 450 o gartrefi a 4ha o ddefnydd cyflogaeth.

- Ardal Canol Dinas Abertawe – mae hyn yn cynnwys ardal Glannau'r ddinas, ac mae'n destun nifer o brosiectau datblygu arwyddocaol mewn lleoliadau amlwg yng nghanol y ddinas, a fydd, gyda'i gilydd, yn ceisio cyflenwi defnydd preswyl newydd (hyd at 900 o gartrefi), ochr yn ochr â swyddi a datblygiad masnachol sy'n anelu at greu cyfleoedd cyflogaeth sylweddol. Mae nifer o gynlluniau'n cael eu cyflwyno gan y Cyngor gyda'r partner datblygu 'Urban Splash'.

- Coridor Glannau'r Tawe a Gwaith Copr Hafod Morfa – safle strategol ar lannau'r afon sydd o bwys arwyddocaol o safbwynt treftadaeth. Mae'n bwriadu darparu cymysgedd o ddefnyddiau, sy'n cynnwys tai (hyd at 370 o gartrefi), ochr yn ochr â datblygiad hamdden a masnachol newydd sylweddol, sy'n cynnwys cynigion 'skyline' ar gyfer atyniad hamdden llawn adrenalin.

**Castell-nedd Port Talbot**

5.12 Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wrthi ar hyn o bryd yn datblygu Cynllun Datblygu Lleol Newydd ac felly, unwaith eto, mae'r ardaloedd twf allweddol o fewn y fersiwn mabwysiedig o'r Cynllun (Ionawr 2016) wedi'u cynnwys ochr yn ochr ag ardaloedd eraill a nodwyd o safbwynt cyfleoedd strategol at y dyfodol. Mae'r CDLl wedi nodi'r ardaloedd a ganlyn o ran eu natur strategol, ac felly maent yn arwyddocaol o safbwynt diffinio'r Ardal Dwf Genedlaethol:

- Ardaloedd Adfywio Strategol yng Nghoed Darcy (Castell-nedd) a Glannau'r Harbwr (Port Talbot), y mae'r ddwy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd capasiti yng Nghoed Darcy i gyflenwi tua 4,000 o gartrefi newydd a 41,200 metr sgwâr o fannau Busnes B1. Rhagwelir y bydd gan Glannau'r Harbwr y capasiti i gyflenwi tua 385 o gartrefi newydd a 7ha o dir cyflogaeth, ynghyd â 3.37ha o ddefnydd A1 Nwyddau Cymhariaeth Swmpus.

- Safleoedd Cyflogaeth strategol ym Mae Baglan a Chyffordd 38 (M4) Margam. Mae'r Cynllun yn nodi 'Lleolir y safleoedd hyn yn y coridor arfordirol, sef yr ardal y mae'r galw mwyaf amdani o safbwynt y farchnad, gyda mynediad rhwydd i'r ffordd strategol a rhwydweithiau cludo nwyddau.' [Cyfeiriad: Ibid, paragraff 5.2.2] Mae'r safle ym Mae Baglan yn cynnwys tua 75ha o dir, er mai dim ond 15ha sydd wedi'u neilltuo ar gyfer cyflogaeth gonfensiynol o fewn cyfnod y cynllun. Bwriedir i'r safle ddarparu amrywiaeth o unedau cyflogaeth o ran eu math a'u maint, sy'n cynnwys posibiliadau ar gyfer diwydiannau gweithgynhyrchu, a bwriedir y

bydd yn diwallu angen rhanbarthol yn y cyswllt hwn. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n prynu safle Bae Baglan gyda'r bwriad o fynd ati i'w hyrwyddo fel lleoliad pwysig o ran cyflogaeth ac i gyflymu'r broses o'i gyflenwi.

- Ardaloedd Twf Strategol – nodir dwy ardal o'r fath yn y Cymoedd, sef Pontardawe a Chwm Nedd Uchaf. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn diffinio'r cyntaf o'r ddwy: 'Pontardawe yw'r anheddiad mwyaf yn Ardal Strategol y Cymoedd, ac mae ganddo'r cyfleusterau a'r amwynderau i gefnogi rhagor o dwf sylweddol dros gyfnod y Cynllun. Bydd y twf hwn yn ardal Pontardawe yn helpu i gefnogi a gwella tref Pontardawe, ei hamwynderau manwerthu a diwylliannol, a bydd yn cefnogi ac yn annog datblygu economaidd ledled Cwm Tawe a Dyffryn Aman. [Cyfeiriad: Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (2011-2026) Mabwysiadwyd yn Ionawr 2016, paragraff 4.0.33]' Mae'r Cynllun yn nodi'r capasiti i gyflenwi cyfanswm o tua 660 o gartrefi a 0.2ha o dir cyflogaeth. Mae Ardal Dwf Strategol Cwm Nedd Uchaf wedi nodi capasiti ar gyfer tua 264 o gartrefi a 1.2ha o dir cyflogaeth.

- Campws Prifysgol y Coridor Arfordirol sy'n cydnabod y dyraniad o dir ar Ffordd Fabian ar gyfer datblygu Campws Gwyddoniaeth ac Arloesi'r Bae, Prifysgol Abertawe. Oherwydd ei gwblhau'n ddiweddar, mae'r safle wedi dyblu maint y Brifysgol a chydnabyddir hefyd y potensial o ran capasiti dilynol pellach ar gyfer ehangu. Nodir o fewn y Cynllun Datblygu Lleol, 'Ystyrir bod y datblygiad yn arwyddocaol yn nhermau cyflawni'r dyheadau a'r egwyddorion allweddol ar gyfer twf economaidd-gymdeithasol yn y rhanbarth, fel y nodir o fewn Cynllun Gofodol Cymru, yn ogystal â gweithredu fel cyfrannwr mawr i'r economi wybodaeth o ran darparu campws arloesi lle gellir integreiddio addysg uwch ac ymchwil a datblygu yn gyfan gwbl.' [Cyfeiriad: Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (2011-2026) Mabwysiadwyd yn Ionawr 2016, paragraff 4.0.28]

- Cynlluniau Adfywio'r Coridor Arfordirol sy'n anelu at hybu a chefnogi twf a datblygu'r coridor arfordirol – nodir tri chynllun adfywio ag iddynt ddefnydd cymysg, y mae pob un ohonynt mewn cyfnodau gwahanol o ran eu datblygu ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Maent yn cynnwys cynlluniau Canol Tref Castell-nedd, Ysgol Gyfun Glan Afan a Lido Afan.

- Yr Harbwr / Dociau Llanwol sy'n darparu pwynt mynediad strategol ar gyfer nwyddau cyffredinol, ynghyd â chyfleusterau dŵr dwfn ar gyfer cargo swmpus. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn diogelu'r cyfleusterau cludo nwyddau hyn o dan Bolisi TR 4, sy'n nodi: 'Caiff y rhain eu diogelu mewn cydnabyddiaeth o'u rôl bwysig o ran cefnogi'r economi leol a chaniatáu cludo nwyddau mewn modd arall yn lle defnyddio ffyrdd, sy'n lleihau tagfeydd ac allyriadau.' [Cyfeiriad: Ibid, paragraff 5.4.31]

- Ardal Fenter Glannau Port Talbot. Mae'r Cynllun Strategol diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer yr Ardal Fenter yn cadarnhau ei fod wedi llwyddo i ddarparu ar gyfer amrywiaeth eang o sectorau – sy'n cynnwys Defnyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch, Ynni a'r Amgylchedd ac Adeiladu [Cyfeiriad: Cynllun Strategol Ardal Fenter Glannau Port Talbot 2018 – 2021 (Chwefror 2019)].

- 19 o ardaloedd cyflogaeth dynodedig, sy'n cynnwys Gwaith Dur Tata a Margam (EC2/11). Mae'r gwaith dur ym Mhort Talbot yn cyflogi tua 4,000 o weithwyr ar hyn o bryd.

- Cydnabyddir hefyd bod rhagor o gyfleoedd datblygu ar gael ar dir llwyd o fewn y tair prif ganolfan tref, sef Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe, sy'n gallu darparu ar gyfer datblygiadau o faint cymharol fach.

**Sir Gaerfyrddin**

5.13 Fel rhan o'r prosiect hwn, ac yng nghyd-destun datblygu ei CDLl Newydd Adneuol, mae'r Cyngor wedi nodi 3 ardal gyfle, sy'n ystyried dyraniadau presennol o fewn y Cynllun mabwysiedig.

5.14 Tra bo'r dull hwn yn wahanol i hynny a ddisgrifiwyd uchod ar gyfer Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, mae hyn yn cydnabod y cynnydd ychwanegol a wnaed o ran y CDLl Newydd hwn.

5.15 Fodd bynnag, lleolir bob un o'r ardaloedd o fewn ardaloedd a ddiffinnir fel Ardaloedd Twf yn y CDLl mabwysiedig ar CDLl Newydd Adneuol. Felly, dangosir y 3 ardal a ddisgrifir isod yn Ffigur 5.1 fel ardaloedd daearyddol eang, nid ar ffurf sy'n cael ei adlewyrchu'n uniongyrchol mewn polisïau cynllunio mabwysiedig neu sy'n cael eu datblygu, ond er mwyn cipio'r ardaloedd ym mhle mae'r mwyafrif o'r cyfleoedd o safbwynt adfywio a thwf wedi'u canoli. Mae'r ddwy ardal gyntaf, Arfordir Llanelli a'r ardal gyfle o ran adfywio, ynghyd ag ardal gyfle Dafen, yn dod o fewn Ardal Dwf Llanelli a nodwyd yn y CDLl mabwysiedig. Nodir fod gan yr ardal hon ddyraniadau preswyl i leoli 3,927 o gartrefi. Mae'r capasiti hwn wedi'i leihau yn y CDLl Adneuol i tua 1,700 o gartrefi, er y nodir y gellir adolygu hyn:

- Arfordir Llanelli a'r ardal gyfle adfywio yr ystyrir eu bod yn ymestyn ar hyd yr ardal arfordirol gan ddilyn ochr ddeheuol y brif ardal drefol, ac ymlaen i Borth Tywyn. Mae'r ardal hon yn cynnwys cyfleoedd sylweddol o safbwynt adfywio, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer mentrau ar y cyd â Llywodraeth Cymru, ynghyd â photensial i elwa ar ddatblygiad gwyddor bywyd Pentre Awel sy'n dod i'r amlwg yng nghanol yr ardal hon.'

- Ardal gyfle Dafen: Mae'r ardal gyfle hefyd yn cynnig y cyfle ar gyfer defnyddiau cyflogaeth sylweddol gyda'r CDLl Newydd Adneuol yn nodi 14.93ha o dir cyflogaeth o fewn yr ardal gyfle hon, sef ffigwr sy'n is na'r dyraniad yn y CDLl mabwysiedig, sy'n nodi 22.80ha o dir ar gyfer defnyddiau B1, B2 a B8. Mae'r Cyngor yn nodi'r posibilrwydd y gallai'r tir

hwn ddarparu ar gyfer tua 3,700 o weithwyr pe bai'n cael ei ddatblygu ar gyfer swyddfeydd yn unig, neu tua 890 o swyddi ar gyfer defnyddiau diwydiannol yn unig (cynhyrchu/warysau), er y nodir, ym mhle mae cymysgedd o ddefnyddiau'n fwy tebygol, mae'r potensial o ran swyddi'n debygol o fod o fewn yr ystod hon.

- Cross Hands: Yn y CDLl mabwysiedig, nodir bod capasiti'r ardal dwf ehangach (sy'n cynnwys Rhydaman) yn 2,552 o gartrefi, er, unwaith eto, bod hyn wedi'i leihau i 1,080 o gartrefi yn y CDLl Newydd Adneuol, ond gellir adolygu hyn. Mae'r ardal gyfle hefyd yn cynnig y cyfle ar gyfer darparu defnyddiau cyflogaeth newydd, gyda'r CDLl Newydd Adneuol yn nodi 21.92ha o dir cyflogaeth o fewn yr ardal gyfle, sydd yn fwy neu lai'r un fath â'r dyraniad yn y CDLl mabwysiedig, sy'n nodi 21.12ha o dir ar gyfer defnyddiau B1, B2 a B8. Fel yr uchod, mae'r Cyngor wedi amcangyfrif y potensial o ran creu swyddi ar sail y pedair ardal wahanol. O fewn ardal Dwyrain Cross Hands (8.7ha), amcangyfrifir y gellir darparu ar gyfer rhwng 2,425 (swyddfeydd) neu 579 (gweithwyr diwydiannol) o swyddi. Gwelir bod y cydbwysedd yn debygol o ogwyddo mwy tuag at gyflogaeth mewn swyddfeydd. Ar y Parc Busnes (4.73ha), amcangyfrifir y byddid yn creu rhwng 2,956 (swyddfeydd) a 706 (diwydiannol) o swyddi, ond mae'r diddordeb yn gogwyddo mwy tuag at ddefnyddiau B2/B8 ar hyn o bryd. Nodwyd bod gan Heol y Waun (1.09ha) y potensial ar gyfer rhwng 600 (swyddfeydd) a 164 (diwydiannol) o swyddi. Yn olaf, ym Mharc Bwyd Gorllewin Cross Hands (7.31 ha), yn seiliedig ar ddiddordeb diweddar mewn ehangu defnyddiau presennol, mae'r Cyngor yn nodi'r potensial am greu ychydig dros 1,000 o swyddi mewn unedau cynhyrchu / warysau.

**Buddsoddiadau economaidd eraill sydd â'r potensial i fod yn drawsnewidiol**

5.16 Yn ogystal â'r cyfleoedd datblygu allweddol y cyfeiriwyd atynt uchod, ceir nifer o fuddsoddiadau eraill sydd â'r potensial i fod yn drawsnewidiol ac sydd o bwys o safbwynt rhanbarthol a chenedlaethol, sy'n cael eu disgrifio yn y paragraffau a ganlyn.

**Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd**

5.17 Mae datblygiad arfaethedig Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd (GCRE), a leolir ar diroedd o fewn ardaloedd gweinyddol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Powys, yn Safle Glo Brig Nant Helen a Chanolfan Ddosbarthu Onllwyn, yn brosiect sydd â'r potensial i fod o bwys i'r DU gyfan y mae buddsoddiad ar ei gyfer gan y Llywodraeth Ganolog.

5.18 Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer traciau prawf ag iddynt gyfluniad dolennog, ynghyd â swyddfeydd gweithredu a rheoli, gan gynnwys cyfleusterau ar gyfer staff, ymchwil a datblygu, addysg a hyfforddiant. Mae'r safle wedi'i gysylltu â'r ffordd a chysylltiad rheilffordd presennol sy'n cysylltu â llinell gangen Castell-nedd ac Aberhonddu, er nad yw'n darparu cysylltiadau o safbwynt gwasanaethau i deithwyr ar hyn o bryd. Bwriad GCRE yw darparu

cyfleuster prawf cynhwysfawr a modern, sydd wedi'i leoli yn y DU. Nid yw cyfleuster o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd, ac felly mae'n rhaid cael mynediad i gyfleusterau yn Ewrop ac UDA. Bydd yn gweithredu fel catalydd ar gyfer creu hwb technoleg rheilffyrdd yng Nghymru, yn darparu llwyfan marchnad agored ar gyfer arwain gweithgaredd ymchwil a datblygu i wella cryfderau cystadleuol y DU fel arweinydd byd-eang o safbwynt anelu at fod yn garbon niwtral.

5.19 Un o'i amcanion penodol yw datblygu cyfleoedd addysg a hyfforddiant mewn partneriaeth â phrifysgolion, gan gynnwys y rheiny yn yr Ardal Arfordirol ynghyd â Phrifysgol Birmingham. Roedd yr asesiad o effeithiau economaidd-gymdeithasol yng nghyswllt y cais cynllunio wedi nodi'r potensial i greu rhwng 53 (cam 1) a 163 (cam 3) o swyddi uniongyrchol net yn ystod y gwaith adeiladu, ynghyd â chreu rhwng 141 (cam 1) a 298 (cam 3) o swyddi yn ystod y cyfnod gweithredu. Mae'n nodi y bydd sawl un o'r swyddi gweithredol hyn yn rhai sy'n gofyn am sgiliau uwch.

5.20 Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi nodi potensial o ran cael tiroedd ychwanegol yn agos i'r safle GCRE presennol trwy gyfrwng ei Alwad am Safleoedd Ymgeisiol ar gyfer y CDLl Newydd, sy'n cynnig y cyfle ar gyfer datblygiad ategol ychwanegol.

**Pentre Awel**

5.21 Pentref gwyddor bywyd a llesiant gwerth £200 miliwn yw Pentre Awel sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar draws safle 83 erw yn Llynnoedd Delta ar ochr ddeheuol Llanelli. Mae'n brosiect allweddol o fewn Bargen Ddinesig Bae Abertawe ac yn ymwneud â chyflenwi canolfan darpariaeth glinigol ac ymchwil i alluogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ehangu ei ddarpariaeth ymchwil a pheirianneg feddygol drwy ganolbwyntio ar dreialon clinigol ar lefel gymunedol; canolfan addysg a hyfforddiant i gefnogi mynediad i yrfaoedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol; cyfleusterau hamdden newydd; tai cymdeithasol a fforddiadwy (sy'n cynnwys pentref byw â chymorth); hyd at 10,000 metr sgwâr o le i ehangu busnesau; tai marchnad agored a gwesty. Mae'r achos busnes llawn ar gyfer y prosiect yn rhagweld y bydd dros 1,000 o swyddi'n cael eu creu, gyda'r cam cyntaf (y ganolfan hamdden, canolfan addysg a hyfforddiant, a chyfleuster darpariaeth glinigol ac ymchwil) wedi'i gynllunio ar gyfer ei gwblhau yn 2024.

5.22 Rhagwelir bod Pentre Awel am gyflawni canlyniad economaidd cadarnhaol, o fewn rhan gymharol ddifreintiedig o Lanelli. Mae'n cyd-fynd yn agos hefyd â chyfleoedd ac asedau mewn rhannau eraill o Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli: mae Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant yn bartneriaid arweiniol, ac mae'r ffocws ar iechyd a llesiant yn gyson â'r cryfderau sy'n datblygu o ran gwyddor bywyd a ddisgrifiwyd yn flaenorol (e.e., yn gysylltiedig ag Athrofa Gwyddor Bywyd Abertawe) ynghyd â'r cydweithrediad rhwng Byrddau Iechyd Bae Abertawe a Phrifysgol Hywel Dda (sy'n gwasanaethu Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, a Sir Gaerfyrddin, yn y drefn honno).

**Eden Las**

5.23 Wedi'i ddatblygu'n wreiddiol o'r cynigion ar gyfer Morlyn Llanw Bae Abertawe, mae prosiect Eden Las yn rhagweld cynllun sydd wedi'i ariannu'n breifat sy'n ymwneud ag adeiladu morlyn llanw 9.5 cilomedr, i'r de o Ddoc Tywysog Cymru yn Abertawe. Hwn fyddai morlyn llanw cyntaf y DU, gyda chapasiti i gynhyrchu 320 MW o ynni adnewyddadwy. Mae'r prosiect yn rhagweld y bydd yn cael ei ddatblygu dros gyfnod o 12 mlynedd. Mae hyn yn cynnwys cynigion ar gyfer 'gigaffatri' 5,500 metr sgwâr (60,000 troedfedd sgwâr) i gynhyrchu batris uwch-dechnoleg ar gyfer y sector ynni adnewyddadwy; casgliad o baneli solar arnofiol; canolfan ddata a datblygiad preswyl. Cynigir y bydd y morlyn yn cynhyrchu cyflenwad rhad a helaeth o ynni adnewyddadwy, gan fanteisio ar asedau naturiol Bae Abertawe a phweru defnyddiau diwydiannol cymharol ynni-ddwys.

**Cyrchfannau Wildfox ('Wildfox Resorts')**

5.24 Rhoddwyd caniatad cynllunio yn 2022 ar gyfer datblygiad Cyrchfan Wildfox Cwm Afan yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae'r Cyngor yn ystyried bod gan y datblygiad hamdden newydd hwn botensial i fod yn drawsnewidiol. Dywedir bod y datblygiad hwn yn cynnwys buddsoddiad gwerth £250m a fydd yn cyflenwi 570 o gabanau gwyliau, gwesty 50 gwely, a gwesty sy'n cynnwys 15 o fflatiau gwyliau, yn ogystal â pharc dŵr dan do a chyfleuster i wneud gweithgareddau mewn ceunentydd. Y tu hwnt i greu cyfleoedd gwaith yn y cyfnod adeiladu, rhagwelir y bydd y datblygiad yn hybu twristiaeth o fewn yr ardal drwy gydol y flwyddyn, gan liniaru'r problemau cyfredol o safbwynt cyflogaeth dymhorol. Rhagwelir y bydd graddfa'r cyfle hwn, ynghyd â'i gynnig unigryw, yn denu twristiaid o bob cwr o'r DU, gan godi proffil yr ardal ar lefel genedlaethol o ganlyniad i hynny.

**Ffordd Fabian / ardal Jersey Marine**

5.25 Ystyrir bod ardal Ffordd Fabian / Jersey Marine yn cynrychioli ardal gyfle bwysig. Yn ogystal ag ardal y Coridorau a nodwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol Abertawe, rhagwelir y bydd yn darparu ar gyfer cyflogaeth a datblygiadau tai at y dyfodol o fewn Castell-nedd Port Talbot, gan gydnabod y cyfle i adeiladu ar yr ardal dwf a nodwyd yn Abertawe, ynghyd â'i lleoliad rhwng Campws y Brifysgol, yr M4 a'r Dociau. Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi nodi bod tiroedd ar hyd y coridor wedi cael eu hyrwyddo fel rhan o'r ymarfer Galwad am Safleoedd Ymgeisiol sy'n rhan o'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

**Porthladdoedd y Dyfodol ('Future Ports')**

5.26 Ochr yn ochr â chynnig Eden Las, mae *Associated British Ports* (APB) yn dal tua 56 hectar o dir datblygu yng nghyffiniau dociau Port Talbot a Margam, sy'n cynnwys porthladd dŵr dwfn Port Talbot, sy'n gwasanaethu safle dur Tata'n bennaf ar hyn o bryd. Yn 2021, cyhoeddodd APB ei Weledigaeth ar gyfer Porthladdoedd y Dyfodol, sy'n nodi uchelgais i ddatblygu'r Porthladd ym Mhort Talbot i gefnogi "cyfleusterau gweithgynhyrchu carbon isel, gyda'r galw'n canolbwyntio ar y porthladd", ynghyd â datblygu'r diwydiant ynni

adnewyddadwy [Cyfeiriad: ABP (2021), Porthladdoedd y Dyfodol: Port Talbot (https://www.abports.co.uk/media/ad4px2sn/abp-future-ports-port-talbot-online-final.pdf)]. Mae Gweledigaeth Porthladdoedd y Dyfodol yn disgrifio cynllun trawsnewidiol i ganolbwyntio unwaith eto ar gyfleoedd twf carbon isel ar sail pedair 'cenhadaeth':

- Cynhyrchu ynni, gan gynnwys gwynt alltraeth sy'n arnofio (FLOW), gyda'r potensial ar gyfer datblygu capasiti o ran gweithgynhyrchu; ynghyd â chynhyrchu pŵer gwynt a solar ar y tir. Mae datblygiad technoleg FLOW mewn cyfnod cymharol gynnar ar hyn o bryd, ac mae ABP yn cydnabod y gystadleuaeth gref o fannau eraill, er yr ystyrir bod mynediad i ddŵr dwfn, tir datblygu ar dir llwyd ac agosrwydd at safleoedd cynhyrchu dur, ynghyd ag agregau, yn asedau pwysig. Mae dadansoddiad economaidd cynnar a gyflawnwyd ar gyfer ABP yn rhagweld rhwng 570 a 1,000 o swyddi (gros) yng Nghastell-nedd Port Talbot, mewn rolau gweithredol, cynnal a chadw, gweithgynhyrchu, ac yn y gadwyn gyflenwi, er y dylid ystyried y rhain fel amcangyfrifon cychwynnol ar hyn o bryd [Cyfeiriad: MetroDynamics ar ran ABP (2022), 'Outline Economic Impact Assessment of the Floating Offshore Wind (FLOW) at Port Talbot and Swansea'. Mae hwn hefyd yn amcangyfrif y caiff 420-820 o swyddi gros eu creu yn Abertawe].

- Datgarboneiddio gweithgynhyrchu, sy'n cynnwys cyfleoedd ar gyfer dal, defnyddio a storio carbon, ynghyd â chyfleusterau ar gyfer mewnforio hydrogen, gyda'r potensial i wneud Port Talbot yn lleoliad deniadol ar gyfer diwydiannau ynni-ddwys, er enghraifft, ym maes sment, cemegion, gwydr a cherameg.

- Logisteg, trwy wneud defnydd mwy effeithiol o gysylltiadau rheilffordd Port Talbot â'r Porthladd Dŵr Dwfn.

- Datblygiad clwstwr gweithgynhyrchu ac ymchwil a datblygu, gan adeiladu ar alluogrwydd presennol Castell-nedd Port Talbot ym maes gweithgynhyrchu. Mynegwyd diddordeb mewn cyfleusterau gweithgynhyrchu mwy, sy'n gysylltiedig ag agosrwydd at safleoedd cynhyrchu ynni (gyda'r potensial ar gyfer cefnogi tua 1,300 o swyddi ym Maglan, Glannau'r Harbwr a'r Porthladd) [Cyfeiriad: SQW ar gyfer Prifysgol De Cymru (2022), 'Strategic Hydrogen Site Development in Neath Port Talbot: Analysis of potential economic impacts'].

5.27 Gallai'r uchelgeisiau ar gyfer y Porthladd gael goblygiadau arwyddocaol iawn o safbwynt twf economaidd. Mae'r rhain o bwys ehangach hefyd, o safbwynt rhanbarthol a chenedlaethol, sy'n gysylltiedig â rhaglen SWIC y cyfeiriwyd ati uchod. Mae'n berthnasol ar hyn o bryd i nodi bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar y cyd wedi lansio proses ymgeisio ym mis Medi 2022, i safleoedd ddod ymlaen i gael eu dynodi'n 'Borthladdoedd Rhydd', er mwyn cael manteisio ar gyfres o gymelliadau yng nghyswllt tollau a threth (a mesurau eraill hefyd efallai) i gefnogi buddsoddiad

https://www.gov.uk/government/publications/freeport-programme-in-wales-bidding-prospectus/freeport-programme-in-wales-bidding-prospectus]. Mae cynnig ar gyfer dynodiad Porthladd Rhydd yn cael ei ddatblygu ar y cyd ar hyn o bryd ym Mhort Talbot ac yn Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau, sy'n gysylltiedig â photensial y porthladdoedd o safbwynt ynni adnewyddadwy ac (ym Mhort Talbot) argaeledd safleoedd arwyddocaol).

**Buddsoddiad mewn seilwaith trafnidiaeth**

5.28 Ochr yn ochr â'r dynodiadau o ran twf posibl o safbwynt tai a chyflogaeth a nodwyd yn yr adran flaenorol, ac o fewn cyd-destun pwysigrwydd cydnabyddedig trafnidiaeth gynaliadwy a hygyrch o fewn polisïau ar lefel genedlaethol, mae'r potensial o ran gwella seilwaith trafnidiaeth neu gyflenwi seilwaith newydd yn ystyriaeth bellach arall o ran lle y gellir disgwyl gweld twf a darparu ar ei gyfer.

5.29 Nodir arwyddocâd cysylltedd cenedlaethol ym Mholisi 11 o Cymru'r Dyfodol, sy'n cynnwys annog pobl i deithio'n bellach ar drafnidiaeth gyhoeddus, ynghyd â chefnogi camau i gyflawni buddsoddiad mewn rhwydweithiau cysylltiedig. Mae'n bwysig nodi bod y polisi'n disgwyl i awdurdodau cynllunio 'achub ar y cyfleoedd sy'n deillio ohonynt' [Cyfeiriad: Cymru'r Dyfodol, tudalen 83]. Mae Polisi 12 yn nodi ffocws tebyg o ran pwysigrwydd gwella cysylltedd rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys bod angen gwneud hyn i gefnogi twf ac adfywio cynaliadwy mewn ardaloedd trefol, gan flaenoriaethu camau i wella teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus a'u hintegreiddio. Mae'r polisi'n disgwyl bod "rhaid i awdurdodau cynllunio gynllunio ar gyfer twf ac adfywiad yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol er mwyn achub ar gyfleoedd sy'n deillio o fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys nodi cyfleoedd am ddatblygiadau dwysedd uwch, defnydd cymysg a di-gar o amgylch gorsafoedd metro".

**Cynlluniau trafnidiaeth presennol allweddol**

5.30 Ymgysylltwyd â swyddogion trafnidiaeth arweiniol o fewn bob un o'r awdurdodau i ganfod buddsoddiadau penodol mewn trafnidiaeth. Trwy'r ymgysylltu hwn, nodwyd bod amserlenni'n ansicr o ran y fersiwn nesaf o'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, mae'r fersiwn presennol yn gymharol hen erbyn hyn. Yn yr un modd, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, disgwyliwyd canlyniad Adolygiad Ffyrdd Llywodraeth Cymru. O safbwynt ystyried natur buddsoddiad mewn seilwaith trafnidiaeth at y dyfodol, nodwyd y cyfeiriad clir a ddarperir gan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, sy'n awgrymu buddsoddiad arbennig o gyfyngedig mewn cynlluniau ar gyfer ffyrdd newydd, gyda chryn bwyslais ar opsiynau teithio cynaliadwy a theithio llesol.

5.31 Caiff hyn ei adlewyrchu yn y cynlluniau seilwaith trafnidiaeth allweddol a nodwyd gan swyddogion, sy'n cynnwys cynlluniau presennol a gefnogir gan y Gronfa Drafnidiaeth Leol / y Gronfa Teithio Llesol, ynghyd â cheisiadau posibl, y dylai'r ymchwil hwn eu hystyried. Fe'u rhestrir isod ar gyfer bob awdurdod.

**Abertawe – cynlluniau seilwaith**

- (Cyfnewidfa Bysiau Treforys a'r Mwmbwls – gwelliannau i gyfleusterau presennol y gyfnewidfa, achub ar y cyfleoedd i deithio a'u gwella o safbwynt pa mor gysurus ydynt, ynghyd â'u diogelwch a'r gallu i ddefnyddio'r amser a dreulir yn disgwyl mewn modd cynhyrchiol.

- Pecyn Asesu a Gwella Isadeiledd y Coridor Bysiau (Y Mwmbwls i Ystradgynlais) – gwerth £230k o welliannau i'w rhoi ar waith yn llawn yn 2022 / 23.

- Cyfnewidfa Pontarddulais – mynd ati yn 2022/23 i ganfod safle a ffefrir ar gyfer gwella hygyrchedd, y gyfnewidfa, ynghyd â gwella'r profiad i gwsmeriaid ar draws Pontarddulais a'i chyffiniau.

- Cyfnewidfa Tregŵyr – darparu hwb symudedd penodedig.

- Safle Parcio a Theithio Glandŵr - canfod safle a ffefrir ar gyfer cyfleuster Parcio a Theithio a fydd yn gyfnewidfa allweddol, sy'n targedu cerbydau sy'n gadael yr M4 o gyffordd J45 (Ynysforgan), ynghyd â darparu cyfleoedd i integreiddio â gwasanaethau bysiau lleol. Bydd camau yn y dyfodol yn ystyried y coridor bysiau trwy Barc Menter Abertawe.

- Llwybr Strategol Gogledd Abertawe sy'n cynnwys Cyswllt Pontarddulais a fydd yn creu llwybr cyd-ddefnyddio di-draffig 2.4 cilomedr rhwng Pengelli a Phontarddulais a thrwy Barc Coed Bach. Bydd hefyd yn cynnwys llwybr 2.8 cilomedr arall oddi ar y ffordd rhwng Penllergaer a Gorseinon, gyda chysylltiad i'r cyswllt sydd newydd ei gwblhau oddi ar y ffordd, o Orseinon i Orsaf Reilffordd Tregŵyr, a fydd yn galluogi teithiau aml-ddull. Bydd y cynllun hefyd yn cynnwys Cyswllt Trafnidiaeth Gyhoeddus Pontarddulais.

- Cysylltiadau Canol Dinas Abertawe, sy'n cynnwys llwybr cyd-ddefnyddio 2.8 cilomedr oddi ar y ffordd, sy'n cysylltu llwybr cyd-ddefnyddio'r A48 gyda Chadle a chanolfan fanwerthu Fforest-fach yn y cyffiniau, yn ogystal â stad breswyl Parc Penllergaer.

- Cysylltiadau Cwm Tawe, sy'n cynnwys llwybr Cyswllt De Treforys sydd oddi ar y ffordd, ynghyd â llwybr cyd-ddefnyddio Ynysallan Road ar gyfer cerddwyr a beicwyr.

- Cysylltiadau Gorllewin Abertawe – darpariaeth o lwybr cyd-ddefnydd 2.4 cilomedr dros Gomin Clun sy'n cysylltu ag ardal breswyl Llandeilo Ferwallt.

- Coridor Arloesedd Ffordd Fabian – cynllun posibl i'w gefnogi trwy gais i'r Gronfa Ffyniant Bro sydd heb ei benderfynu hyd yma. Mae hyn yn cynnwys cyfres o lwybrau teithio llesol a chysylltiad Parcio a Theithio newydd i'r Metro / LRT.

**Castell-nedd Port Talbot – cynlluniau seilwaith**

- Hwb Trafnidiaeth Integredig yng ngorsaf reilffordd Castell-nedd – Cynnig i greu cyfnewidfa drafnidiaeth i gysylltu gwahanol ddulliau teithio, gan gydnabod bod yr orsaf reilffordd bresennol yn bell o orsaf fysiau'r dref.

- Gwella Cerbytffordd Cymer – Cynnig i wella traphont Cymer sy'n darparu'r unig fynediad addas i gymunedau Abercregan a Glyncorrwg ar gyfer cerbydau mawr, bysiau a cherbydau brys. Bydd gwelliannau felly'n bwysig er mwyn cynnal cysylltiadau â chymunedau cyfagos.

- Cyswllt Teithio Llesol Pontnewydd (Newbridge) a Mynediad i'r Doc – Cynnig i adnewyddu pont bresennol i'w hailagor i gerddwyr a beicwyr, ochr yn ochr â darparu llwybr cyd-ddefnyddio (375m) i gerddwyr a beicwyr ar hyd Heol Pontnewydd ac uwchraddio Heol Glan yr Afon (516m) i safonau mabwysiedig i gysylltu â'r rhwydwaith teithio presennol.

- Gorsaf Fysiau Port Talbot – Cynnig i adfywio'r orsaf fysiau bresennol i ddarparu man mwy croesawgar gan ddarparu lle ar gyfer bysiau, tacsis a theithio llesol.

**Sir Gaerfyrddin – cynlluniau seilwaith**

- Llwybr Dyffryn Tywi (cynllun £18m) sy'n darparu llwybr cyd-ddefnydd 20 cilomedr sy'n cysylltu Caerfyrddin a Llandeilo. Wedi sicrhau cyllid trwy'r Gronfa Ffyniant Bro.

- Uwchraddio Gorsaf Fysiau Caerfyrddin – Mae gwaith Cam 1 yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar yr ôl-troed bresennol i wella cyfleusterau aros a'r amgylchedd i gerddwyr.

- Llanelli A484 a'r Bont Ddu – pontydd Teithio Llesol sy'n rhychwantu prif ffordd a llwybrau rheilffordd, sy'n darparu cysylltiadau hanfodol o fewn Uwchgynllun Teithio Llesol ehangach Llanelli.

- Depo Bysiau Trydan – Mewn partneriaeth â Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i wasanaethu llwybr Traws T1. Adeiladu depo Bysiau Trydan a chyfleusterau cysylltiedig yn Nant-y-ci Caerfyrddin. Wrthi'n caffael 6 E-fws ar hyn o bryd.

- Gorsaf Reilffordd Sanclêr a chyfleusterau/cyfnewidfa – Ailagor gorsaf reilffordd Sanclêr. Dyrannwyd cyllid gan Trafnidiaeth Cymru ar y cyd â Network Rail, a Llywodraeth Cymru. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin ar dîm y prosiect, ac yn amodol ar y cyllid / yr hyn y gellir ei gyflawni, mae camau ar waith i fwrw ymlaen â chyfleusterau'r gyfnewidfa a'r cysylltiadau o safbwynt teithio llesol.

- Datblygiad cyfnewidfa fawr yng Ngorsaf Reilffordd Llanelli – Gwaith i'r de o'r orsaf bresennol i ddarparu cyfnewidfa ar gyfer gwasanaethau bws a rheilffordd, cyfleusterau teithio llesol, mannau gwefru ar gyfer cerbydau

trydan a chyfleusterau parcio. Cyflwynwyd cais i'r Gronfa Ffyniant Bro, yn disgwyl am y canlyniad.

- Gwelliannau i gyffyrdd yn Heol Sandy ac yn ehangach yn Llanelli – Buddsoddiad mawr i wella cyflwr y briffordd ar Heol Sandy sy'n profi tagfeydd sylweddol ar y llwybr bysiau x11 o Gaerfyrddin i Abertawe trwy Lanelli. Mae'r cynllun yn destun sylw'r Adolygiad Ffyrdd ar hyn o bryd.

**Sir Benfro – cynlluniau seilwaith**

- Prosiect Cyfnewidfa Trafnidiaeth Hwlffordd (cynllun £15m, gorsaf fysiau newydd, maes parcio aml-lawr, cyfleusterau teithio llesol, seilwaith ar gyfer cerbydau trydan, cyfleusterau i dacsis). Llwyddwyd i sicrhau cyllid yn 2022-23 ar gyfer dymchwel y cyfleuster presennol a chyflawni cam 1 o'r gwaith adeiladu.


- Prosiect Cyfnewidfa Aberdaugleddau (cynllun £6m, gorsaf reilffordd newydd, canolbwynt ar gyfer bysiau, cyfleusterau teithio llesol, seilwaith ar gyfer cerbydau trydan, cyfleusterau i dacsis). Yn y cyfnod dylunio cychwynnol ar hyn o bryd. Yn disgwyl canlyniad y cais i'r Gronfa Ffyniant Bro.

- Addasiad Arfordirol Niwgwl a Chynllun Gwyro'r A487 (cynllun £20m, gwaith newydd i alinio 2.5 cilomedr o ffordd yr A487 yn Niwgwl, a leolir rhwng Hwlffordd a Thyddewi. Mae'r cynllun wedi'i atal am gyfnod wrth ddisgwyl am ganlyniad Adolygiad Ffyrdd Llywodraeth Cymru.

**Buddsoddiad mewn teithio llesol**

5.32 Bydd llawer o'r cynlluniau a nodwyd uchod yn gwella llwybrau teithio llesol. Mae Llywodraeth Cymru'n flaenorol wedi paratoi mapiau rhwydwaith Teithio Llesol ar draws ardal yr astudiaeth. Diweddarwyd y rhain yn ddiweddar ac maent ar gael ar MapData Cymru. Dangosir y llwybrau / buddsoddiadau a nodwyd ar y mapiau isod. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, dim ond mapiau Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe oedd wedi'u cymeradwyo ac felly ar gael i'w cyflwyno.

Ffigur 5.2: Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol




Ffynhonnell: MapData Cymru

5.33 Mae'r cynllun yn dangos bod nifer helaeth o lwybrau teithio llesol wedi'u canoli o fewn yr aneddiadau mwy a'u bod, yn wir, yn eu cysylltu. Mae hyn yn

adlewyrchu’r buddsoddiad a wnaed hyd yma, ynghyd â’r rhwydweithiau presennol.


**Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru**

5.34 Yn ychwanegol i’r cynlluniau isadeiledd lleol uchod, mae’r buddsoddiad a gynlluniwyd trwy gynllun Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru hefyd yn cynnig y cyfle i ddylanwadu ac effeithio ar y cwmpas gofodol ynghyd â lleoliad twf.

5.35 Mae Polisi 31 Cymru’r Dyfodol yn cadarnhau cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygiad y Metro sy’n gofyn i: ‘awdurdodau cynllunio gynllunio ar gyfer twf ac adfywio er mwyn achub ar y cyfleoedd posibl sy'n deillio o well cysylltedd rhanbarthol, gan gynnwys nodi cyfleoedd ar gyfer datblygiadau dwysedd uwch, defnydd cymysg a di-gar o amgylch gorsafoedd metro newydd a gwell.’ (Cymru’r Dyfodol, tudalen 157)

5.36 Mae’r map a geir ar dudalen 88 o Cymru’r Dyfodol wedi’i atgynhyrchu isod, mae’n dangos arwyddocâd Metro’r De-orllewin ar raddfa genedlaethol.

Ffigur 5.3: Datblygiadau Metro Cymru’r Dyfodol




Ffynhonnell: Cymru’r Dyfodol, tudalen 88

5.37 Tra bo’r cynnydd wedi’i effeithio gan y pandemig, mae Trafnidiaeth Cymru’n dal i flaenoriaethu ei gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer cyflawni gwelliannau, a fydd yn cynnwys:

- Gwelliannau i goridorau bysiau ynghyd â phrosiectau integreiddio
- Gwelliannau o safbwynt amlder gwasanaethau rheilffordd
- Gorsafoedd newydd

- Gwelliannau i orsafoedd lleol / cyfnewidfeydd

5.38 Mae Ffigur 5.3 yn dangos y blaenoriaethau a nodwyd hyd at 2029 ar gyfer Bae Abertawe a Metro Gorllewin Cymru. Mae hyn yn dangos y gwelliannau sydd wedi'u canoli o fewn yr ardal arfordirol allweddol sy'n cysylltu Llanelli, Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot. Mae'n dangos hefyd y gwelliannau sy'n ymestyn i Borth Tywyn a thrwodd i Gaerfyrddin a thu hwnt, i mewn i Sir Benfro a hefyd i fyny i Rydaman ar ffordd i Lanymddyfri. Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd y coridor trafnidiaeth presennol hwn i'r gogledd, ynghyd â'r cysylltiad â'r brif ardal drefol. Nodir bod y buddsoddiad yn y rheilffordd trwy Rydaman eisoes wedi arwain at wasanaethau ychwanegol ar ddechrau a diwedd y dydd, sydd felly'n gwella'r cysylltedd.


Ffigur 5.4: Blaenoriaethau Trafnidiaeth Cymru hyd at 2029 ar gyfer Bae Abertawe a Metro Gorllewin Cymru




Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru

5.39 Fel y dangosir yn Ffigur 5.4, cwblhawyd astudiaethau dichonoldeb hefyd ar gyfer gorsafoedd o safbwynt y posibilrwydd o greu safleoedd newydd yng Nglandŵr a'r Cocyd. Rhaglennwyd astudiaethau dichonoldeb yn 2022/23 ar gyfer y gorsafoedd a ganlyn: Pontlliw, Treforys, Felindre, Llandarsi a Winch Wen. Cwblhawyd rhagor o astudiaethau ar gyfer Pontarddulais a Phen-bre a Phorth Tywyn.


Ffigur 5.5: Pecynnau Gwaith ar y Rheilffyrdd 2022/23




Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru

5.40 Nodir rhagor o gynlluniau buddsoddi a gwelliannau hirdymor hefyd, fel y dangosir yn Ffigur 5.5. Mae hwn yn dangos y cysylltiadau gwell allan o Abertawe trwy Gastell-nedd ac i fyny i'r Cymoedd yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae hyn yn cynnig y potensial i ymestyn y twf ymhellach i'r gogledd ar hyd y coridor trafnidiaeth pellach hwn yn y tymor hwy.

Ffigur 5.6: Prosiectau tymor hwy Trafnidiaeth Cymru ar gyfer Bae Abertawe a Metro Gorllewin Cymru




Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru

5.41 Mae'n bwysig nodi bod y rhaglen ar gyfer y brif linell hefyd yn cynnig gwelliannau ar hyd y rheilffordd arfordirol, sy'n gwella cysylltiadau rhwng

Aberdaugleddau a Bryste, gyda gwelliannau wedi'u canoli ar hyd y cysylltiadau rheilffordd rhwng Abertawe a Chaerdydd. Tra bo'r rhain yn cynrychioli cysylltiadau pellter hir gwell, fel yr ystyrir yn Adran 5 o'r adroddiad hwn, maent yn atgyfnerthu pwysigrwydd cyfatebolrwydd rhwng Ardaloedd Twf Cenedlaethol ac Ardaloedd Twf Rhanbarthol ar hyd y coridor hwn.

**'Grand Union Trains'**

**5.42** Yn olaf, deallir bod gan Grand Union Trains gynlluniau buddsoddi i lansio gwasanaeth newydd rhwng Caerfyrddin a Llundain. Bwriedir y bydd y gwasanaeth hwn yn cychwyn gyda gwasanaeth llawn rhwng Caerfyrddin a Llundain yn 2025 yn ystod yr amserlen sy'n cychwyn yn Rhagfyr 2024. Ceir cynnig i adeiladu gorsaf barcffordd newydd ym Mharc Felindre, yn agos i Gyffordd 46 Traffordd yr M4. Bydd gwasanaethau'n galw yma ac yn osgoi Abertawe, a fydd felly'n arwain at ostyngiad o tua 20 munud yn yr amser teithio o leoliadau ymhellach i'r gorllewin i Gaerdydd a Llundain. Mae Grand Union Trains yn adrodd y bydd y gwasanaeth newydd hwn yn cyflwyno rhagor o gyfleoedd i deithio, yn darparu buddion economaidd ynghyd â chyfleoedd cyflogaeth sylweddol i bobl De Cymru. Mae'n amlwg y gallai hyn arwain at fuddsoddiad mawr mewn seilwaith a fydd yn dylanwadu ar y modd y gellir cysylltu pobl o fewn ardal bosibl yr Ardal Dwf Genedlaethol gyda hybiau economaidd eraill, er, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw sicrwydd o ran ei gyflawni o fewn y cais ffurfiol i'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd, a gyflwynwyd ar 21 Mehefin 2022, yn dilyn cyfnod o ymgynghori â'r diwydiant.

**Crynodeb**

5.43 Mae mapio'r ardaloedd allweddol a nodwyd am eu potensial o ran twf yn y dyfodol o safbwynt eu defnyddio ar gyfer tai a chyflogaeth, yn awgrymu y rhagwelir y byddir yn parhau i adeiladu ar y patrwm economaidd-gymdeithasol gofodol a ddisgrifiwyd yn yr adran flaenorol, yn enwedig yng nghyffiniau Abertawe, ond hefyd ar hyd y coridor arfordirol yng Nghastell-nedd Port Talbot a Sir Gaerfyrddin. Mae hyn yn cynnwys safleoedd presennol sy'n darparu ar gyfer cyfleoedd ar raddfa fawr o fewn Castell-nedd, Port Talbot a Llanelli. O fewn yr ardal ddaearyddol hon, mae nifer o brosiectau economaidd 'trawsnewidiol' ar y gweill hefyd. Mae'r rhain o bwys strategol (ac yn bwysig ar lefel y DU yn achos Eden Las, neu ddatblygiad Porthladd Port Talbot), a byddant yn dylanwadu ar Ardal Dwf Genedlaethol gyfan Bae Abertawe a Llanelli.

5.44 Mae'n bosibl y bydd eithriadau gofodol yn cynnwys ardaloedd lle rhagwelir twf o safbwynt tai a chyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin, yng nghyffiniau Rhydaman, Cross Hands a Phorth Tywyn, sy'n adlewyrchu'r cyfleoedd a gyflwynir gan y rhwydwaith trafnidiaeth lleol.

5.45 Roedd yr adolygiad o fuddsoddiadau / prosiectau arwyddocaol wedi nodi prosiect datblygu GCRE hefyd. Er ei fod mewn lleoliad cymharol ynysig, deallir ei fod yn rhesymol i'r prosiect gael ei gynrychioli fel un sydd o bwys i'r DU o safbwynt economaidd.

5.46 Bydd buddsoddiad parhaus ac sydd wedi'i gynllunio yn y seilwaith trafnidiaeth a nodwyd yn cael effaith ar gapasiti ardaloedd sy'n cael budd o wasanaethau mwy hygyrch, sydd o safon well er mwyn darparu ar gyfer twf cynaliadwy. Mae sawl un o'r cynlluniau hyn yn cysylltu aneddiadau / ardaloedd allweddol o fewn yr ardal drefol. Mae'n bwysig nodi, o ran bod llawer o'r cynlluniau'n cynnwys mwy o fuddsoddiad mewn teithio llesol, dylai hyn annog perthynas agosach a mwy cynaliadwy rhwng swyddi a chartrefi o fewn ardaloedd trefol craidd yr ardal ddaearyddol. Bydd buddsoddiad arall yn cynorthwyo i gysylltu rhannau mwy ymylol o'r ardal drefol ac aneddiadau cyfagos. Disgwylir y bydd y buddsoddiad hwn yn sbarduno gwaith i ganfod rhagor o gyfleoedd o safbwynt datblygu cynaliadwy, nid yn unig yng nghyffiniau'r buddsoddiad a nodwyd, ond o fewn pellter teithio rhesymol iddo, ac mewn pwyntiau nodol allweddol.

5.47 Ar raddfa fwy strategol, bydd buddsoddi ym Mae Abertawe a Metro Gorllewin Cymru yn gwella'r cysylltiadau ar hyd yr ardal arfordirol, ond hefyd, yn bwysig iawn, yn y llwybrau gogleddol allan o'r ardal hon, trwy Rydaman a Cross Hands yn Sir Gaerfyrddin i ddechrau, ac yna yn y tymor hwy, i fyny y tu hwnt i Gastell-nedd, i mewn i'r Cymoedd o fewn Castell-nedd Port Talbot.

# 6. Cyfyngiadau posibl

6.1 Mae Cymru'r Dyfodol yn cydnabod y cyferbyniad gofodol, ac yn wir, y modd y mae ardaloedd twf yn gorgyffwrdd, ynghyd â'r cyfyngiadau posibl. Yn arbennig, mae Diagram Rhanbarthol De-orllewin Cymru (Ffigur 1.1 yn yr adroddiad hwn) yn dangos bod Ardal Dwf Genedlaethol Abertawe a Llanelli yn ffinio â Pharc Cenedlaethol ac AHNE, yn ogystal â dau o'r ardaloedd sydd wedi'u hasesu ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygiadau ynni gwynt.

6.2 O dan Bolisi 30, nodir pwysigrwydd rheoli asedau amgylcheddol ardal y De-orllewin fel blaenoriaeth ar gyfer y rhanbarth, yng nghyd-destun cymorth posibl ar gyfer nodi Llain Las i reoli ffurf a thwf trefol yn y De-orllewin. Yn benodol, yn nhermau'r mathau o ardaloedd a gaiff eu hystyried, mae'n nodi'r canlynol fewn adnoddau naturiol eithriadol:

'yr arfordir, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr, mwynau, tir amaethyddol, dŵr a thirwedd o ansawdd uchel.' [Cyfeiriad: Cymru'r Dyfodol, tudalen 155]

6.3 Mae'r adran hon yn defnyddio GIS i gyflwyno dadansoddiad manylach o raddfa ddaearyddol yr ardaloedd y gellir eu heffeithio gan gyfyngiadau, gyda phwyslais ar gyfyngiadau mwy sylfaenol a neu arwyddocaol, ynghyd â'u perthynas â'r ardaloedd trefol mwy, y rhwydwaith trafnidiaeth a'r ardaloedd buddsoddi economaidd a nodwyd a ystyriwyd yn yr adran flaenorol. Yng nghyd-destun twf, mae'r cyfyngiadau hyn yn cynnwys, er enghraifft, mesurau diogelu amgylcheddol, yn ogystal â mesurau diogelu trwy gyfrwng polisïau.

**Canfod cyfyngiadau perthnasol**

6.4 O ganlyniad i weithio gyda'r awdurdodau, canfuwyd amryw haenau o gyfyngiadau perthnasol. Er mwyn gallu dehongli'r haenau hyn yn weledol, gan gydnabod eu bod yn gorgyffwrdd mewn sawl modd, maent yn cael eu cyflwyno a'u hystyried mewn cyfres o grwpiau.

**Dynodiadau statudol ar gyfer diogelu'r amgylchedd**

6.5 Mae'r haenau a ganlyn wedi cael eu mapio, ac maent yn cynrychioli dynodiadau amgylcheddol pwysig sy'n effeithio ar y potensial o safbwynt cyflenwi datblygiadau ledled ardal yr astudiaeth:

- Parciau Cenedlaethol: Mae rhannau o Sir Gaerfyrddin wedi'u cynnwys o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae'r Parc Cenedlaethol yn ffinio â Chastell-nedd Port Talbot. I gyfeiriad y dwyrain, mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cynnwys rhannau mawr o Sir Benfro.

- Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE): O fewn ardal yr astudiaeth, mae'r dynodiad hwn wedi'i gyfyngu i'r dynodiad AHNE ar rannau o Benrhyn Gŵyr yn Abertawe.

- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) – Mae pob ACA, ynghyd â AGA Arbennig wedi'u dynodi o dan Gyfarwyddeb yr UE ar Adar Gwyllt i warchod rhywogaethau adar prin a mudol.

- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) - Sy'n cynnwys dynodiadau ar hyd ardaloedd arfordirol ardal yr astudiaeth.

- Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol: Nodir bod pob gwarchodfa natur genedlaethol hefyd yn SoDdGA. Cynhwyswyd Gwarchodfeydd Natur Lleol hefyd, gan gynnwys Gwarchodfeydd Natur Morol.

- Ramsar – Safleoedd gwlyptir o bwys rhyngwladol sy'n rhedeg ar hyd rhannau o'r ardal arfordirol (nodir bod pob safle Ramsar hefyd yn SoDdGA).

- Safleoedd a chlustogfeydd mwynau


- Tir comin

6.6 Mae mapio'r haenau uchod yn dangos y cyfyngiadau helaeth ledled yr ardal, sy'n cynnwys ardaloedd yr ystyrir ar y cyfan eu bod o fewn yr Ardal Dwf Genedlaethol neu'n gyfagos iddi, fel y gwelir yn niagram Cymru'r Dyfodol.

6.7 Mae'n bwysig nodi bod yr haenau'n nodi bod yr Ardal Dwf Genedlaethol wedi'i darlunio o fewn Cymru'r Dyfodol mewn modd sy'n osgoi gorgyffwrdd â'r Parc Cenedlaethol i gyfeiriad y gogledd ac AHNE Gŵyr.

6.8 Mae dynodiadau amgylcheddol eraill, y mae sawl un ohonynt yn rhedeg yn uniongyrchol ar hyd yr ardal arfordirol, yn ffinio â rhai o'r ardaloedd trefol, neu'n wir yn gorgyffwrdd â hwy. Wrth eu hystyried, mae'n bwysig cydnabod hierarchiaeth o ran eu harwyddocâd. Lleolir yr Ardal Cadwraeth Arbennig oddi ar y ffin arfordirol, yng nghyffiniau rhan helaeth o ardal Gŵyr, ac yn ffinio â'r arfordir yng nghyffiniau Porth Tywyn. Yn yr un modd, mae ardal yr Ardal Gwarchodaeth Arbennig wedi'i chyfyngu i ardaloedd rhwng yr arfordir, sy'n cynnwys Llanelli a Phorth Tywyn. Mae Gŵyr yn cynnwys ardaloedd mwy sy'n cael dosbarthu fel SoDdGA, gyda phocedi llai yn amlwg yn y cefnwledydd mwy gwledig yng nghyffiniau Abertawe, ond yn y rhan fwyaf o achosion, fe'u lleolir cryn bellter o ffiniau trefol. Mae Cors Crymlyn, a leolir rhwng Dinas Abertawe a Chastell-nedd, wedi'i nodi fel y corstir isel mwyaf yng Nghymru, ac mae wedi'i dosbarthu fel ACA a SoDdGA (yn ogystal â bod yn Warchodfa Natur Genedlaethol ac yn ardal Ramsar ddynodedig). Mae ardaloedd mwy wedi'u cynnwys o fewn SINCS (Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur), unwaith eto o fewn y cefnwledydd gwledig, er y nodir eu statws amgylcheddol cymharol fel dynodiadau o dan bolisïau lleol, yn hytrach na'r cyfyngiadau eraill a ystyriwyd, a ddiffinnir ar raddfa genedlaethol…

Ffigur 6.1:	Dynodiadau ar gyfer Diogelu'r Amgylchedd



**Ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd**

6.9 Mae’r risg posibl o lifogydd yn ystyriaeth bwysig o fewn polisi cenedlaethol, a gwneir gwaith parhaus i ddiffinio nid yn unig ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd ar hyn o bryd, ond y rheiny y gellid eu heffeithio o ganlyniad i effaith y newid yn yr hinsawdd ar y cynnydd yn lefel y môr.

6.10 Mae’r haenau a ganlyn wedi cael eu cynnwys a’u mapio:

- Ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd sydd wedi’u dosbarthu neu eu cynnwys o fewn y canlynol:
  - Perygl o lifogydd o afonydd
  - Perygl o lifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr
  - Perygl o lifogydd o’r môr
  - Y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio TAN15 Parthau a Amddiffynnir. Cydnabyddir bod y bwriad i ddod â’r TAN15 a’r Map Llifogydd newydd i rym wedi’i ohirio tan 1 Mehefin 2023, er bod llythyr gan Lywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod angen ystyried y dynodiadau hyn o fewn y broses bresennol o ddatblygu CDLl Newydd.

6.11 Gan edrych ar yr haenau sydd wedi’u mapio, mae’n amlwg iawn, ar draws yr ardal sydd wedi’i diffinio’n fras fel yr Ardal Dwf Genedlaethol o fewn Cymru’r Dyfodol, y ceir nifer o ardaloedd y dosbarthwyd eu bod wedi’u cyfyngu gan faterion posibl. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd ar hyd y prif goridorau afon sy’n ymestyn i fyny i’r Cymoedd yng Nghastell-nedd Port Talbot, ynghyd â Rhydaman yn Sir Gaerfyrddin. Mae’r ardaloedd cyntaf o’r rhain hefyd yn cynnwys rhai o’r ardaloedd trefol o fewn Abertawe. Nodir yn benodol bod yr ardal rhwng yr A4067 a’r M4 wedi’i dynodi fel Parth a Amddiffynnir o dan TAN15.

6.12 Hefyd, mae bron bob un o’r ardaloedd arfordirol wedi’u dynodi fel rhai sydd mewn perygl o lifogydd o’r môr, sy’n cynnwys rhannau o Faglan a Phort Talbot i’r dwyrain, ynghyd â’r rhannau hynny o Lanelli sydd agosaf i’r arfordir, y nodir hefyd eu bod wedi’u dynodi fel Parthau a Amddiffynnir o dan TAN15.


6.13 Yn gyffredinol, mae’n amlwg bod y perygl o lifogydd yn bresennol ar hyn o bryd ac yn cynyddu yn y dyfodol o ganlyniad i’r newid yn yr hinsawdd. Ar y cyfan, bydd hyn yn effeithio ardaloedd sydd eisoes yn cynnwys ardaloedd mawr sydd wedi’u datblygu at ddibenion tai a chyflogaeth, y mae eu hagosrwydd at y môr yn ffactor leoliadol bwysig o safbwynt eu twf hanesyddol.

6.14 Cydnabyddir bod Llywodraeth Cymru’n gweithio’n barhaus i bennu graddfa’r dynodiadau llifogydd at y dyfodol, ynghyd â’r modd y byddir yn ei defnyddio. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth o’r graddau y gellir canfod mesurau amddiffyn / lliniaru i alluogi datblygu mewn ardaloedd y byddid yn awgrymu fel arall eu bod

mewn perygl o lifogydd. Mae'n amlwg y bydd gan hyn ganlyniadau pwysig ar gyfer rhannau allweddol o'r ardal drefol, yn enwedig Canol Dinas Abertawe.

6.15 Tra bydd angen i'r CDLl Newydd a'r Cynllun Datblygu Strategol fynd i'r afael â goblygiadau'r perygl o lifogydd, yn enwedig yng nghyd-destun y TAN15 presennol a'r un diwygiedig sy'n cael ei ddatblygu, o ran natur eang dynodiad yr Ardal Dwf Genedlaethol yng nghyd-destun yr uchod, ni ellir ei lunio ar sail yr ardaloedd sydd fwyaf mewn perygl yn uniongyrchol.

Ffigur 6.2: Perygl o Lifogydd




**Tir amaethyddol**

6.16 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylid gwarchod 'Y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas' fel adnodd y mae terfyn iddo ar gyfer y dyfodol, a dylid rhoi cryn bwys ar ddiogelu tir o'r fath rhag ei ddatblygu, oherwydd ei bwysigrwydd arbennig [Cyfeiriad: Polisi Cynllunio Cymru (2021), paragraffau 3.58 a 3.59]. Mae Cymru'r Dyfodol hefyd yn rhoi cydnabyddiaeth benodol i'r amcan i gyfeirio twf tuag at ardaloedd trefol i leihau'r pwysau ar golli tir amaethyddol. Mae'n cynnwys mapio'r ardaloedd hynny o 'dir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas'. Mae hyn yn cynnwys y dynodiadau a ganlyn sydd wedi'u mapio:

- Gradd 1 – ansawdd rhagorol
- Gradd 2 – ansawdd da iawn
- Gradd 3a – ansawdd da

6.17 O safbwynt gofodol, mae'n amlwg bod yr ardaloedd o fewn y ddwy radd uchaf wedi'u cyfyngu'n bennaf i Benrhyn Gŵyr a'r ardaloedd arfordirol, yn ogystal ag i fyny dyffrynnoedd yr afon tuag at Gastell-nedd ac i fyny i Sir Gaerfyrddin. Ceir ardaloedd mawr hefyd yng nghyffiniau'r mwyafrif o rannau gorllewinol Sir Benfro, yng nghyffiniau Aberdaugleddau a Hwlffordd. Ceir ardaloedd bach o diroedd sydd wedi'u dosbarthu'n radd 3a i'r gogledd o Lanelli, yn ogystal ag ardaloedd mwy yng Nghaerfyrddin a Sir Benfro.

Ffigur 6.3: Cyfyngiadau amaethyddol




**Dynodiadau polisi ar gyfer diogelu'r amgylchedd**

6.18 Mae'r haenau uchod yn cynrychioli ardaloedd pwysig lle mae eu hamgylchedd yn cael ei ddiogelu, neu maent yn adlewyrchu gwerth naturiol y tir. Yn ychwanegol i'r rhain, wrth ystyried graddfa ardal sydd wedi'i dynodi fel un sy'n darparu ar gyfer twf o bwys cenedlaethol, mae'n bwysig ystyried dynodiadau

presennol a rhai a fydd efallai'n cael eu harwain gan bolisïau yn y dyfodol, gyda'r bwriad o reoli datblygiad mewn ardaloedd sensitif.

6.19 Cyflwynir sawl map yn yr isadran hon er mwyn ystyried dynodiadau o'r fath a nodwyd i'w hystyried gan yr awdurdodau.

**Ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni gwynt ynghyd ag Ardaloedd â Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Rhanbarthol**

6.20 O dan Bolisi 16, mae Cymru'r Dyfodol yn nodi Ardaloedd â Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Rhanbarthol. Dylai awdurdodau cynllunio nodi cyfleoedd i sefydlu Rhwydweithiau Gwresogi Rhanbarthol a chynllunio'n gadarnhaol ar gyfer eu rhoi ar waith. Nodir y rhain fel trefi a dinasoedd unigol y mae Rhwydweithiau o'r fath yn fwy tebygol o fod yn ymarferol ynddynt, a bod ganddynt felly'r potensial mwyaf. Mae Castell-nedd, Abertawe, Llanelli a Phort Talbot i gyd wedi cael eu nodi fel ardaloedd â blaenoriaeth o'r fath.


6.21 Mae Cymru'r Dyfodol hefyd yn diffinio cyfres o ardaloedd o dan Bolisi 17 sydd wedi'u dynodi yn 'Ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni gwynt'.

6.22 Mae'r polisi'n cadarnhau bod yr ardaloedd hyn yn rhai lle mae Llywodraeth Cymru wedi modelu'r effaith debygol ar y dirwedd ac wedi nodi y gellir lleoli datblygiad yno mewn modd derbyniol. Mae'r polisi'n cadarnhau bod rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni gwynt mawr (gan gynnwys adbweru) yn yr ardaloedd hyn, yn amodol ar y meini prawf a nodir wedyn ym Mholisi 18.

6.23 Ceir ardal ddynodedig fawr sy'n amgylchynu rhannau gogleddol a dwyreiniol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae hyn yn cynnwys, o fewn Castell-nedd Port Talbot, aneddiadau Castell-nedd a Phort Talbot, gyda'r ardal yn ymestyn wedyn i lawr tuag at Gaerdydd yn y dwyrain. Nodir ardal ddynodedig arall yn Sir Gaerfyrddin, sy'n amgylchynu Caerfyrddin i'r gogledd.

6.24 Gellir ystyried y dynodiadau hyn fel cyfyngiad posibl ar fathau eraill o ddatblygu, ble byddai cyflenwi cynlluniau i gynhyrchu ynni gwynt yn effeithio ar agosrwydd datblygiadau eraill. Fodd bynnag, maent hefyd yn cynrychioli cyfle i gefnogi'r cyflenwad o gyfleoedd o ran tai a chyflogaeth mewn modd cynaliadwy. Mae'r rhain yn gofyn am fewnbwn sylweddol o ran ynni, o ganlyniad i raddfa neu natur y defnydd, ac mae eu hagosrwydd at yr Ardal Dwf Genedlaethol hefyd yn ychwanegu at y cyfle i harneisio dulliau cynaliadwy o gynhyrchu ynni.

Ffigur 6.4: Ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni gwynt ynghyd ag Ardaloedd â Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Rhanbarthol



**Lletemau Glas a Llain Las**

6.25 O fewn Cymru, ni cheir ond un ardal Llain Las, rhwng dinasoedd Caerdydd a Chasnewydd. Fodd bynnag, mae Cymru'r Dyfodol, trwy Bolisi 19, yn dweud, fel rhan o baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol, y dylid rhoi ystyriaeth i nodi nifer o ddynodiadau polisi, sy'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, nodi lleiniau glas, coridorau gwyrdd a thirweddau sydd o bwys cenedlaethol lle y bo'n berthnasol. Yn benodol, o ran rhanbarth cynllunio De-orllewin Cymru, mae Polisi 30 'Lleiniau Glas yn y De-orllewin' yn datgan: "Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r defnydd o Gynlluniau Datblygu Strategol i nodi a sefydlu lleiniau glas i reoli ffurf a thwf trefol yn y De-orllewin, yn enwedig o amgylch Bae Abertawe a Llanelli".


6.26 Mae'r testun ategol hefyd yn cydnabod y rôl y gallai dynodiad llain las ei chwarae o safbwynt rheoli twf, yn enwedig y twf cenedlaethol a fynnir gan strategaeth ofodol Cymru'r Dyfodol, ac o amgylch Bae Abertawe a Llanelli, gan ategu hyn trwy ymgysylltu â Llywodraeth Cymru fel rhan o'r broses ymchwil. Mae'r testun ategol yn cydnabod hefyd, o fewn rhanbarth cynllunio De-orllewin Cymru, y ceir ardaloedd gwledig helaeth, ynghyd â chymunedau gwledig sydd wedi'u hen sefydlu, ac y dylai'r Cynllun Datblygu Strategol ystyried y cydbwysedd a fynnir rhwng canolbwyntio datblygu yn y prif ardaloedd trefol a'r ardaloedd gwledig. Mae Polisi Cynllunio Cymru'n nodi meini prawf ar gyfer ystyried sut y dylid amlinellu'r Llain Las.

6.27 Fel y nodwyd, ar hyn o bryd, gan nad yw tîm y Cyd-bwyllgor Corfforaethol wedi'i gynnull hyd yma, nid oes unrhyw waith wedi'i wneud o ran penderfynu p'un a oes angen nodi Llain Las. Bydd angen ystyried hyn ar wahân o ran ei pherthynas â'r Ardal Dwf Genedlaethol, trwy ddatblygu tystiolaeth i gefnogi'r Cynllun Datblygu Strategol. Tra nad oes unrhyw ddynodiad llain las, nodir bod Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe wedi dynodi Lletemau Glas o fewn eu Cynllun mabwysiedig.

6.28 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi bod Lletemau Glas yn ddynodiadau lleol sydd â'r diben o atal cyfuno ardaloedd trefol ag aneddiadau eraill, ynghyd â diogelu pryd a gwedd ardal drefol, gyda rhagdybiaeth yn erbyn datblygiadau amhriodol o fewn yr ardaloedd dynodedig.

6.29 Mae'r map isod yn dangos y Lletemau Glas sydd wedi'u dynodi ar hyn o bryd yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Dengys hyn mai eu pwrpas yw cyfyngu datblygu o amgylch rhannau o aneddiadau Castell-nedd, Pontardawe a phen dwyreiniol pellaf un Port Talbot. Yn Abertawe, mae'r dynodiadau wedi'u canoli i'r gorllewin o'r ardal drefol ac i mewn i Benrhyn Gŵyr.

Ffigur 6.5: Lletemau gwyrdd




**Tirwedd / meysydd polisi penodol eraill**


6.30 Ar draws ardal yr astudiaeth, ac o fewn awdurdodau unigol, ceir nifer o ddynodiadau polisi ychwanegol eraill sydd wedi'u diffinio, gyda'r nod o ddiogelu

ardaloedd gofodol rhag effeithiau niweidiol datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft:

- Datblygu yng Nghefn Gwlad (Abertawe)
- Ardaloedd polisi penodol y Dyffrynnoedd Arfordirol (Castell-nedd Port Talbot)
- Diogelu'r Dirwedd (Abertawe)
- Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) (Sir Gaerfyrddin)

6.31 O fewn Sir Gaerfyrddin, mae ardal Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Caeau Mynydd Mawr yn ddynodiad gofodol pwysig hefyd, y mae angen mesurau lliniaru rhagnodedig ar ei gyfer i wrthbwyso effaith datblygu.

Ffigur 6.6: Cyfyngiadau Eraill o ran Polisïau Gofodol



6.32 Gan edrych ar fapio'r 'polisi', mae'n amlwg bod ardal CCA Caeau Mynydd Mawr yn cynrychioli ardal ofodol fawr. Tra bo prosiect sydd wedi'i hen sefydlu'n darparu ar gyfer mesurau lliniaru, byddai angen rhoi ystyriaeth ofalus i leoli datblygiad cenedlaethol o fewn yr ardal, i sicrhau y byddai'n cyd-fynd â'r darpariaethau ar gyfer rheoli cynefinoedd a nodir yn y CCA. Ceir Ardal Tirwedd Arbennig fawr hefyd, sy'n amgylchynu ardal adeiledig Abertawe. Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn ymestyn hefyd i'r gogledd orllewin o Abertawe. i Aber Llwchwr.

6.33 Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae rhannau o sawl un o'r aneddiadau mawr yn cael eu diogelu gan fesurau diogelu tirwedd cyfagos hefyd, sy'n cynnwys ardaloedd i'r dwyrain o'r M4, yn agos i'r Porthladd, yn ogystal â'r dynodiadau amgylcheddol a ystyriwyd yn flaenorol.

**Crynodeb**

6.34 Mae mapio'r cyfyngiadau sylfaenol a nodwyd yn cadarnhau bod ardal eang yr Ardal Dwf Genedlaethol yn cynnwys nifer o ddynodiadau nodedig, ynghyd ag ardaloedd y mae'n bosibl eu bod mewn perygl, er enghraifft, o effeithiau digwyddiadau llifogydd sy'n gwaethygu.

6.35 O ran llifogydd, mae llawer o'r ardaloedd hynny sydd mewn perygl eisoes yn lleoli llawer iawn o ddatblygiadau mawr, o ran tai a chyflogaeth. Mater o ran polisi at y dyfodol (a NCT15 yn y dyfodol) fydd mynd i'r afael â sut y gellir caniatáu rhagor o dwf trwy fesurau lliniaru. Fodd bynnag, nid yw diffiniad gofodol gwell o'r Ardal Dwf Genedlaethol yn debygol o gael ei lunio ar sail y cyfyngiad hwn yn unig.

6.36 Gan ystyried cyfyngiadau amgylcheddol ehangach, mae'r modd y mae'r Ardal Dwf Genedlaethol yn cael ei chyflwyno yn Cymru'r Dyfodol o safbwynt gofodol yn anelu eisoes at osgoi gorgyffwrdd â rhai o'r dynodiadau ymylol mwy arwyddocaol, gan gynnwys AHNE Gŵyr, a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'n amlwg bod y rhain yn dal i fod yn bwysig o ran mireinio graddfa ofodol yr Ardal Dwf Genedlaethol.

6.37 Mae dynodiadau eraill, sy'n cynnwys, ond heb eu cyfyngu i hynny a nodwyd yn Cymru'r Dyfodol o ran ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni gwynt, ardaloedd â blaenoriaeth ar gyfer rhwydweithiau gwresogi rhanbarthol yn y dyfodol, ynghyd â dosbarthiadau amaethyddol, yn cynnig ystyriaethau pwysig o ran pennu ffiniau rhwng ardaloedd twf posibl ac ardaloedd gwledig cyfagos. Mae hyn y arbennig o wir unwaith eto, o ran y ffin ogleddol ar draws Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, yn ogystal â'r coridorau trafnidiaeth yn Sir Gaerfyrddin. Felly mae ystyried y dynodiadau hyn yn bwysig er mwyn ceisio mireinio graddfa ofodol yr Ardal Dwf Genedlaethol i lunio llinell dynnach o amgylch ardaloedd twf a choridorau seilwaith allweddol, yn enwedig os ydynt y tu allan i'r ardaloedd presennol sydd â dwysedd poblogaeth a chyflogaeth uwch, fel y dangoswyd yn yr adran flaenorol.

# 7. Mireinio graddfa ofodol yr Ardal Dwf Genedlaethol


7.1 Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r adroddiad hwn, cydnabyddir mai rôl y Cynllun Datblygu Strategol fydd nodi graddfa ofodol yr Ardal Dwf Genedlaethol. Mae'r adran hon yn ceisio cynorthwyo'r broses hon, ynghyd â llywio dulliau'r CDLl Newydd sy'n datblygu, o safbwynt dosbarthu'r ddarpariaeth a gynllunnir, trwy ddwyn ynghyd y wybodaeth o'r adrannau blaenorol.

**Argymhellion ar gyfer Ardal Dwf Genedlaethol a fireiniwyd o safbwynt gofodol**

7.2 Mae'r adrannau blaenorol wedi crisialu a chyflwyno llawer o wybodaeth sy'n darparu tystiolaeth bwysig ar gyfer datblygu darlun manylach o raddfa Ardal Dwf Genedlaethol sydd wedi'i mireinio. Bydd hyn yn ffurfio sail bwysig i'r Cynghorau a'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol adeiladu arni o ran trosi'r dystiolaeth yn ddiffiniad o'r Ardal Dwf Genedlaethol o safbwynt polisi.

7.3 I gynorthwyo'r gwaith o ddehongli'r amlinelliad disgrifiadol o Ardal Dwf Genedlaethol sydd wedi'i mireinio, mae Ffigur 7.1 yn darparu darluniad gofodol. Ni ddylid dehongli hon fel ffin ddiffiniedig, gan y bydd angen ei mireinio ymhellach a'i dehongli trwy broses y Cynllun Datblygu Strategol, ynghyd â chael gwybodaeth fanylach.

Ffigur 7.1: Darluniad dangosol o’r Ardal Dwf Genedlaethol a fireiniwyd o safbwynt gofodol



7.4 Mae'r dystiolaeth yn atgyfnerthu pwysigrwydd cynnwys craidd trefol ardal Bae Abertawe, sydd wedi'i ganoli yng nghyffiniau Dinas Abertawe a'r gefnwlad o drefi llai. Mae nifer sylweddol o bobl a swyddi wedi'u canoli yn yr ardal hon, ac mae wedi'i gwasanaethu'n dda gan rwydweithiau trafnidiaeth presennol.

7.5 Mae cyrion gogleddol craidd trefol Abertawe wedi'u diffinio ar hyn o bryd gan yr M4. Mae'r CDLl presennol yn cydnabod y cyfleoedd sy'n codi o ran datblygiadau newydd sy'n ymestyn i'r gogledd, y tu hwnt i'r M4. Mae'r ardal hon yn cwmpasu Pontarddulais a Clydach/Birchgrove ar y naill ochr, yn ogystal â'r safle datblygu strategol yn Felindre ac Ysbyty Treforys, ynghyd ag ardaloedd ehangu posibl. Bydd yr ardaloedd hyn o dwf posibl ar raddfa sylweddol yn manteisio ar fynediad i gyffyrdd y draffordd yn ogystal â gwelliannau i'r rheilffyrdd, sy'n cynnwys y cynlluniau ar gyfer darparu gorsafoedd newydd fel rhan o fuddsoddiad y Metro, yn ogystal â buddsoddiad parhaus mewn llwybrau teithio llesol ehangach.

7.6 Bydd buddsoddiad parhaus mewn seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus, sy'n cynnwys teithio llesol, yn cynnig y cyfle i leoli rhagor o ddatblygu mewn modd cynaliadwy, y tu hwnt i ddynodiadau presennol CDLl Abertawe. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cael mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a chyfleoedd o ran teithio llesol gan randdeiliaid o'r sector datblygu yn ystod y gwaith ymgysylltu sy'n elfen sylfaenol o ddatblygu cynaliadwy. Bydd hyn yn cynnig cyfleoedd dros y tymor hwy, o ran rhagor o dwf arwyddocaol ar gyfer cyflawni effeithiau cadarnhaol o safbwynt cydgrynhoi cyfleoedd o ganlyniad i fuddsoddiad mewn busnesau a thrafnidiaeth. Adlewyrchir hyn yn y tir a gynhwysir sydd, yn fras, yn ymestyn ar hyd y cyfan o'r M4 yn Abertawe. Bydd union raddfa'r twf o fewn yr ardal hon o safbwynt gofodol yn dibynnu ar y cyfyngiadau presennol o ran polisïau amgylcheddol ac at y dyfodol, ac mae'n debygol o gael ei ganoli yn yr ardaloedd hynny sy'n manteisio ar fod yn fwy hygyrch. O ran Felindre er enghraifft, mae pwysigrwydd caniatáu'r posibilrwydd o ragor o dwf yn ymateb i fuddsoddiad posibl mewn cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, ynghyd ag argaeledd tir ar gyfer ehangu ar raddfa fawr.

7.7 I helpu i fireinio'r raddfa ofodol yn y rhan hon o Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli, i'r gogledd o'r M4 yn Abertawe, mae'r ymchwil wedi ystyried y cyfleoedd posibl o ran datblygu, ynghyd â barnau rhanddeiliaid yn y sector datblygu o safbwynt caniatáu ardal briodol ar gyfer twf posibl dros yr amserlenni a fynnir. Fodd bynnag, cynigir na ddylid cynnwys yr ardaloedd hynny o Sir Abertawe ymhellach i'r gogledd, a gynhwysir o fewn yr ardal sydd wedi'i hamlygu o fewn y darluniad dangosol o'r Ardal Dwf Genedlaethol yn Cymru'r Dyfodol. Ond mae'r ymchwil hwn wedi dangos bod cyfiawnhad i beidio â chynnwys yr ardaloedd hyn ar sail y cyfyngiadau ar y tebygolrwydd y bydd cyfleoedd yn yr ardaloedd mwy gogleddol hyn o safbwynt datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys rhannau o'r ardaloedd dynodedig a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni gwynt yn Cymru'r Dyfodol o fewn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, ym mhle mae cyfleoedd o ran datblygiadau strategol at y dyfodol yn

annhebygol o gael eu cyflwyno. Nodir nad yw'r dynodiad polisi hwn yn effeithio fawr ar Bontardawe yng Nghastell-nedd Port Talbot.

7.8 Gan symud i'r gorllewin o Bontarddulais, mae graddfa arfaethedig yr Ardal Dwf Genedlaethol yn ymestyn i fyny coridor y ffordd / rheilffordd i Rydaman a Cross Hands. Fel yr eglurwyd yn adran 3 o'r adroddiad hwn, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi nodi bod gan ardal Cross Hands y potensial i leoli nifer sylweddol o dai newydd (dros 1,000 o gartrefi), ynghyd â thir cyflogaeth sy'n gallu lleoli miloedd o swyddi. Deallir bod buddsoddiadau presennol, a rhai sydd wedi'u cynllunio o fewn y rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus, yn cynnig y cyfle i hybu'r galw ymhellach yn yr ardal, ynghyd â chryfder y cysylltiadau cynaliadwy yn ôl i mewn i graidd trefol yr Ardal Dwf Genedlaethol. Bydd lleoli twf arwyddocaol yn yr ardal hon yn atgyfnerthu'r achos busnes ar gyfer rhagor o fuddsoddiad mewn trafnidiaeth. Mae'n bwysig nodi, trwy ganoli mwy o'r boblogaeth a swyddi yn yr ardal hon, ynghyd â gwella'r seilwaith, gellir newid yr ardaloedd teithio i'r gwaith fel y maent wedi'u diffinio ar hyn o bryd (Ffigur 3.2) a fyddai'n ymestyn ôl-troed yr ardal ddaearyddol swyddogaethol sydd wedi'i chanoli yn Abertawe.

7.9 Cydnabyddir nad yw ardal CCA Caeau Mynydd Mawr yn cael fawr o effaith ar ran helaeth o'r rhan hon o Sir Gaerfyrddin, ac mae angen ystyried hyn yn ofalus wrth leoli datblygiadau at y dyfodol. Yn yr un modd, rhagwelir y byddai ffin yr Ardal Dwf Genedlaethol ar hyd y coridor y ffordd / rheilffordd wedi'i diffinio'n dynn, heb unrhyw fwriad i leoli safleoedd datblygu arwyddocaol ar hyd y rhwydwaith trafnidiaeth. Mae hyn yn cydnabod, bod yr afon yn ffurfio ffin naturiol ar y ffin ddwyreiniol, sy'n cynnwys ardaloedd o dir amaethyddol Gradd 3a. Nodir bod ardaloedd eraill a chanddynt yr un dosbarthiad amaethyddol yn dod o fewn ffin fras o amgylch Llanelli, Llangennech a Phontarddulais, yn ogystal â nifer o aneddiadau yng Nghastell-nedd Port Talbot, a dylent fod yn ystyriaeth bwysig o ran gwerthfawrogi ffin yr Ardal Dwf Genedlaethol ar lefel fwy lleol yn yr ardaloedd hyn hefyd. A byddai angen i ffin orllewinol coridor ffyrdd yr M4 / A48 gydnabod natur wledig yr ardaloedd i'r gorllewin yn Sir Gaerfyrddin.

7.10 Gan symud i'r de, ystyrir bod rhan orllewinol Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli yn cynnwys yr ardaloedd ar y naill ochr i Lanelli, sy'n cynnwys Porth Tywyn yn y gorllewin pellaf, gyda'r raddfa ofodol yn ymestyn at y warchodfa natur leol a nodwyd. Ceir cysylltiadau cynaliadwy rhwng Porth Tywyn a'r Metro, a disgwylir y bydd yn parhau i gael budd o'r buddsoddiad yn y gyfnewidfa, gan felly hybu ei allu i i leoli twf ategol mewn modd cynaliadwy.

7.11 Mae'r rhan hon o'r Ardal Dwf Genedlaethol hefyd yn cynnwys yr ardal gyfle a nodwyd yn Dafen, ac mae'r Cyngor wedi'i nodi hefyd fel ardal â'r potensial i leoli nifer o gartrefi newydd (dros 1,000) yno mewn modd cynaliadwy, ochr yn ochr â thir cyflogaeth y mae'r Cyngor yn ystyried unwaith eto y bydd yn gallu lleoli nifer sylweddol o swyddi newydd yno.

7.12 Gan symud i mewn i Abertawe o Lanelli, nid yw'r AHNE o fewn Penrhyn Gŵyr wedi'i chynnwys o gwbl, ac ystyrir bod yr ardal RAMSAR ar Benrhyn Gŵyr a'r aber yn ffurfio ffin bwysig. Bydd hyn yn sicrhau bod diffiniad yr Ardal Dwf Genedlaethol yn cefnogi gwarchod yr AHNE a'r ardaloedd ar gyrion ardal wledig Gŵyr yn barhaus, yng nghyd-destun y twf a ragwelir o safbwynt yr ardal gytrefol.

7.13 Fel y nodwyd uchod, o gyfeiriad Penrhyn Gŵyr, mae'r ffin yn cwmpasu canol dinas Abertawe, a rhannau prysur yr ardal arfordirol, sy'n lleoli cysylltiadau cryf ar hyn o bryd o ran ei seilwaith trafnidiaeth, ynghyd â lleoliad Campws Gwyddoniaeth ac Arloesi y Bae Prifysgol Abertawe yng Nghastell-nedd Port Talbot. Tra bo rhannau o'r ardal hon - fel rhannau eraill o'r Ardal Dwf Genedlaethol - mewn perygl o lifogydd yn y dyfodol, mae graddfa'r buddsoddiad ar hyn o bryd yn golygu y bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus, trwy gyfrwng polisi, i'r rôl y gall mesurau lliniaru eu chwarae o safbwynt galluogi rhagor o dwf yng nghanol Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli.

7.14 O ran yr ardal sy'n mynd ar hyd y ffin arfordirol ddwyreiniol, mae hi'n cynnwys Port Talbot, o un pen i'r llall, ynghyd â'r ardaloedd cyfle ar gyfer rhagor o dwf sy'n ymestyn i lawr i'r ffin â Phen-y-bont ar Ogwr. Mae dynodiad presennol y lletem las, ynghyd â'r warchodfa natur genedlaethol, yn cael eu hystyried wrth ffurfio'r ffin hon yn y pwynt mwyaf deheuol. Mae'r ardal hon yn cynnwys Ardal Fenter ddynodedig Glannau Port Talbot (sy'n cynnwys Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr), ardal gyflogaeth ddynodedig J38, ynghyd â Gwaith Dur Tata, sy'n cyflogi tua 4,000 o weithwyr, ynghyd â Margam yn ogystal â'r Porthladd ei hun. Ystyrir hefyd bod yr ardal hon yn cynnig cyfle arwyddocaol i hybu twf buddsoddiad economaidd cenedlaethol ymhellach, mae hyn yn cynnwys y cyfle i ddatblygu Bae Baglan sydd ar raddfa sylweddol.

7.15 Mae rhan olaf Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli yn mynd i fyny wedyn trwy Gastell-nedd Port Talbot, i alinio'n agos â therfynau anheddiad presennol Castell-nedd, sy'n ymgorffori Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy, y rhagwelir y bydd capasiti yno i gyflenwi 4,000 o gartrefi newydd, ynghyd â niferoedd sylweddol o gyfleoedd cyflogaeth newydd. Mae'r raddfa ofodol yn rhedeg wedyn rhwng Clydach a Phontardawe. Er y cydnabyddir bod gan yr ardaloedd sydd ymhellach i'r gogledd yng Nghastell-nedd Port Talbot, sy'n cynnwys Pontardawe, gysylltiadau swyddogaethol cymharol gryf i mewn i graidd Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli, nid yw'r cyfleoedd ar gyfer twf a nodwyd yn cael eu hystyried yn rhai sydd ar raddfa genedlaethol. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd yr ardal hon yn parhau i chwarae rôl economaidd bwysig, ac o ystyried ei chysylltiadau swyddogaethol, bydd yn cefnogi'r Ardal Dwf Genedlaethol ac yn manteisio ar ei hagosrwydd ati.

**Ffrydiau gwaith at y dyfodol i gefnogi'r diffiniad gofodol o'r Ardal Dwf Genedlaethol mewn polisi**

7.16 Mae'r ymgais uchod i fireinio'r Ardal Dwf Genedlaethol o safbwynt gofodol wedi ymateb i wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd fel sail i lywio'r ymchwil hwn. Bydd parhau i ddatblygu polisïau, yn ffurf CDLl Newydd a'r Cynllun Datblygu Gofodol, yn cynhyrchu tystiolaeth ategol i fireinio'r ardal ofodol a nodwyd ymhellach.

7.17 Er enghraifft, nodwyd, trwy ymgysylltiad â chynrychiolwyr o'r diwydiant datblygiadau preswyl, bod cyflwyniadau ar gyfer yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol o fewn y genhedlaeth bresennol o CDLl Newydd yn ymateb i raddfa dybiedig cyfleoedd. Gall bodolaeth diffiniad mwy sefydledig o ran polisi sy'n datblygu ar gyfer yr Ardal Dwf Genedlaethol, fel rhan o baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol, lwyddo wedyn i sbarduno camau i ganfod a hyrwyddo rhagor o safleoedd cyfle strategol, naill ai i leoli twf cenedlaethol, neu i gefnogi'r ddarpariaeth o dwf cenedlaethol.

7.18 Yn y cyd-destun hwn, argymhellir yn gryf y dylai awdurdodau unigol sy'n dod o fewn ardal ofodol yr Ardal Dwf Genedlaethol o fewn Cymru'r Dyfodol barhau i gynnal proses gadarn o ymgysylltu â thirfeddianwyr, hyrwyddwyr a datblygwyr tir cyflogaeth a phreswyl, er mwyn deall graddfa a natur perchnogaeth tir a chyfleoedd yn y cyswllt hwnnw. Yn yr un modd, er mwyn deall goblygiadau buddsoddiad mewn seilwaith strategol at y dyfodol, dylid cynnal deialog gyda darparwyr yn ogystal â Thrafnidiaeth Cymru.

**Cysylltiadau ag ardaloedd twf eraill**

7.19 Tra bo Cymru'r Dyfodol yn glir o ran yr angen i ddynodi Ardal Dwf Genedlaethol amlwg o safbwynt daearyddol, ni fydd hyn yn atal twf rhag digwydd mewn ardaloedd y tu allan i'r Ardal Dwf Genedlaethol; twf ategol mewn ardaloedd dynodedig eraill, fel Ardaloedd Twf Rhanbarthol yn Ne-orllewin Cymru; datblygu a thwf mewn aneddiadau i gefnogi dyheadau ac anghenion lleol; ynghyd â phrosiectau economaidd arloesol newydd, a'r berthynas i'r dwyrain o Ardal Dwf Genedlaethol Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd.

7.20 Gan edrych yn gyntaf ar ardaloedd buddsoddi economaidd arloesol posibl eraill, sydd, yn ddaearyddol, wedi'u lleoli y tu allan i'r raddfa ofodol awgrymedig sydd wedi'i mireinio, mae prosiect GCRE (fel y disgrifiwyd yn adran 3), yn un enghraifft o'r fath.

7.21 Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, cydnabyddir bod gan GCRE y potensial i fod yn ddatblygiad o bwys yn y DU, sydd o safon Fyd-eang. Mae'n cynnig y cyfle i roi cymunedau'r Cymoedd yng Nghastell-nedd Port Talbot / Powys wrth wraidd diwydiant byd-eang sydd gyda'r gorau yn y byd [Cyfeiriad: App No P20210327 - Y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd.pdf (npt.gov.uk);
https://democracy.npt.gov.uk/documents/s71607/App%20No%20P20210327%

20-%20Global%20Centre%20of%20Rail%20Excellence.pdf?LLL=-1], mae'n un o ddim ond dau gyfleuster o'r fath trwy'r byd. Bydd ei gyfraniad o ran gwella teithio ar y rheilffyrdd hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflenwi mesurau i wella cysylltedd cenedlaethol, fel y nodir yn Cymru'r Dyfodol (Polisi 11). Bydd yn cefnogi'r amcan cyffredinol a nodwyd o ran datblygu ac ehangu'r seilwaith rheilffyrdd y nodir y bydd yn cyfrannu at economi gryfach, fwy cynhwysol a theg, trwy gysylltu pobl, cymunedau a busnesau ledled Cymru â swyddi, gwasanaethau a marchnadoedd. Yn ychwanegol i hynny, bydd yn cefnogi datblygiad diwydiant rheilffyrdd digidol ar gyfer y DU trwy ddarparu cyfleusterau profi diogel, o ansawdd uchel, ar gyfer technolegau o safbwynt signalau digidol, rheoli trenau a rheoli asedau. O ystyried ei statws cymharol unigryw, byddai'n rhesymol disgwyl iddo greu cysylltiadau newydd o ran busnesau a'r byd academaidd, gyda chyfleoedd i'w meithrin gyda'r seilwaith presennol yn Ne-orllewin Cymru, ynghyd â gweithredu fel catalydd neu brosiect a fyddai'n gweithredu fel magned ar gyfer rhagor o gyfleoedd newydd, a fydd yn cynnig y cyfle ar gyfer twf cysylltiedig o fewn yr ardal.

7.22 Felly, mae'n amlwg bod y datblygiad yn cyd-fynd â llawer o amcanion awgrymedig yr Ardal Dwf Genedlaethol. Mae'r GCRE wedi'i lleoli ar wahân i ble mae'r tai, y gyflogaeth a'r seilwaith wedi'u canoli o fewn yr Ardal Dwf Genedlaethol awgrymedig. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, ni ragwelir y bydd y buddsoddiad yn arwain at unrhyw dwf o bwys yn yr ardal gyfagos, o ran niferoedd y cartrefi neu'r arwynebedd llawr sydd ar gael ar gyfer cyflogaeth newydd. Mae'n amlwg y bydd yn cynorthwyo i hybu enw da'r ardal ehangach ar lefel genedlaethol, a fydd yn arwain at fuddion posibl i fusnesau a phreswylwyr o fewn yr Ardal Dwf Genedlaethol. Felly, argymhellir y dylid darparu cefnogaeth ar wahân o safbwynt polisïau trwy'r Cynllun Datblygu Strategol, ynghyd â fersiynau o Gynllun Datblygu Lleol Castell-nedd Port Talbot fel y bo'n briodol yn y dyfodol. Argymhellir felly y dylid cydnabod y rôl ategol ond amlwg y bydd efallai'n gallu ei gynnig.

7.23 Mae Dyfrffordd y Ddau Gleddau, sy'n cynnwys yr Ardal Fenter, yn enghraifft arall o gyfle y gellid dadlau ei fod yn gyfle twf economaidd o bwys cenedlaethol, sydd unwaith eto wedi'i leoli y tu allan i ardal ddaearyddol ofodol gyffiniol yr Ardal Dwf Genedlaethol a ddiffiniwyd yn rhesymol. Cydnabyddir pwysigrwydd yr ardal fuddsoddi gan y ffaith ei bod wedi'i chynnwys ar wahân yn niagram gofodol Cymru'r Dyfodol ar gyfer De-orllewin Cymru, ynghyd â Pholisi 32, 'Dyfrffordd y Ddau Gleddau ac Ynni'. Mae'r polisi hwn yn cydnabod pwysigrwydd Dyfrffordd y Ddau Gleddau o safbwynt diogelwch cyflenwad ynni'r DU at y dyfodol, ac mae'n cydnabod y caiff ei wasanaethu gan borthladdoedd y tu hwnt i Ddyfrffordd y Ddau Gleddau, gan gynnwys Port Talbot ac Abertawe. Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd y porthladdoedd hyn yn unigol, ond hefyd o ran y cysylltiad swyddogaethol â'r Ardal Dwf Genedlaethol, sy'n cynnwys dau o'r porthladdoedd hyn, o safbwynt bod y porthladdoedd wedi'u nodi hefyd fel seilwaith o bwys cenedlaethol. Mae'n bosibl y gallai'r potensial o ran dynodi Port Talbot a Phorthladd Aberdaugleddau fel Porthladd Rhydd ar y cyd, gryfhau

eu pwysigrwydd ymhellach, ynghyd â’r cysylltiadau swyddogaethol ar draws yr aneddiadau arfordirol yn Ne-orllewin Cymru.

7.24 Mae Strategaeth Ynni De-orllewin Cymru (2022) a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn pwysleisio’n glir y rôl bwysig a chwaraeir gan gynhyrchu ynni cynaliadwy o ran datblygu’r rhanbarth. Mae hon yn cyfeirio’n benodol at Deyrnas Ynni Aberdaugleddau (Milford Haven: Energy Kingdom (MH:EK)) fel prosiect allweddol, sy’n cefnogi’r cais i’r Llywodraeth fuddsoddi mewn hydrogen, ochr yn ochr â Chanolfan Sero Net Penfro, a lansiwyd yn 2021. Mae’n nodi bod hon yn ardal i’w harchwilio ymhellach o fewn y rhanbarth, gan nodi prosiectau ategol posibl eraill, fel Canolfan Dechnoleg Bae Abertawe a’r Ganolfan Hydrogen gyfagos, sy’n atgyfnerthu’r cysylltiadau gofodol pwysig rhwng yr ardaloedd hyn ymhellach.

7.25 Deallir, unwaith eto, er lleoliad daearyddol Dyfrffordd y Ddau Gleddau, bydd y twf cefnogol yn y dyfodol, yn ôl Polisi 32, yn cael ei leoli mewn cymunedau lleol a rhanbarthol. Adlewyrchir hyn hefyd gan leoliad Dyfrffordd y Ddau Gleddau o fewn Ardal Dwf Ranbarthol ddynodedig yn Cymru’r Dyfodol, ynghyd â’i chysylltiad â dynodiad yr Ardal Dwf Ranbarthol.

7.26 Yn olaf, mae’r broses o ymgysylltu trwy’r broses ymchwil, ac yn wir, Cymru’r Dyfodol, yn pwysleisio pwysigrwydd cysylltedd swyddogaethol ar lefel genedlaethol, nid yn unig o fewn De-orllewin Cymru ond y tu hwnt hefyd. Mae’r diagram rhanbarthol strategol yn dangos y cysylltedd cenedlaethol allan o’r Ardal Dwf Genedlaethol, i’r dwyrain yn ogystal â’r gorllewin. Mae hyn yn cydnabod y cysylltiadau pwysig ag Ardal Dwf Genedlaethol Caerdydd, Casnewydd a’r Cymoedd. Deallir nad oes unrhyw waith cymharol wedi’i wneud hyd yma er mwyn cael deall unrhyw fireiniad posibl o ddaearyddiaeth ofodol yr Ardal Dwf Genedlaethol hon, gan nodi ei bod yn ymestyn ar draws y rhan fwyaf o ranbarth De Ddwyrain Cymru. Gellir disgwyl yn rhesymol y byddai agosrwydd twf ategol ym Mhen-y-bont ar Ogwr i ran fwyaf dwyreiniol Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli yn cryfhau’r cysylltiadau hyn ymhellach.

7.27 Bydd angen i ddatblygiad y Cynlluniau Datblygu Strategol, sydd wedi’u llunio ar wahân ar gyfer y ddwy ardal, ystyried y potensial am ffiniau cyffiniol neu ar wahân rhwng yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol, ynghyd â’r rolau ategol y gallent eu chwarae o ran cyflawni amcanion a chanlyniadau penodol Cymru’r Dyfodol.

# 8. Crynodeb ac ystyriaethau o ran polisïau

8.1 Mae'r adroddiad hwn wedi cyflwyno allbynnau proses ymchwil sydd wedi llywio asesiad manwl o Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli.

8.2 Ymgymerwyd â hyn er mwyn mireinio Ardal Dwf Genedlaethol enghreifftiol Bae Abertawe a Llanelli a gyflwynir yn Cymru'r Dyfodol, ac mae'n llywio'r gwaith o lunio CDLl Newydd. Y bwriad yw y bydd y gwaith a gwblhawyd yn darparu sylfaen ar gyfer tystiolaeth ddilynol a rhagor o waith mireinio, a fydd yn cael ei baratoi gan y Cyd-bwyllgor Corfforaethol, i lywio Cynllun Datblygu Strategol De-orllewin Cymru, y bydd angen iddo gynllunio ar gyfer twf yr Ardal Dwf Genedlaethol, yn unol â Pholisi 19 o Cymru'r Dyfodol.

8.3 Roedd yr adran flaenorol yn disgrifio'r amlinelliad o raddfa ofodol yr Ardal Dwf Genedlaethol a fireiniwyd yn unol â'r amcan hwn. Cyflawnwyd hyn trwy broses o ymgysylltu â'r awdurdodau unigol, ynghyd â haenu data gofodol gan ddefnyddio GIS. Mae o hefyd wedi manteisio ar waith ymgysylltu ar wahân gyda rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys busnesau allweddol, adeiladwyr tai a'r sector datblygu, a Llywodraeth Cymru. Mae'r awdurdodau comisiynu yn cydnabod mai cyfrifoldeb tîm y Cynllun Datblygu Strategol a benodir gan y Cyd-bwyllgor Corfforaethol fydd ymgymryd â rhagor o waith ymgysylltu, ynghyd â cheisio cyflawni consensws llawn a ffurfiol o ran ffin yr Ardal Dwf Genedlaethol at y dyfodol.


8.4 Yn yr adran grynhoi hon, cyflwynir yr ardal ofodol ddangosol a fireiniwyd ochr yn ochr â disgrifiad cryno o'r ardaloedd allweddol y cynigir y byddir yn eu cynnwys a'u gadael allan o fewn y raddfa ofodol hon a fireiniwyd. Mae'n bwysig nodi nad bwriad hyn yw darparu ffin ddiffiniol y gellir ei defnyddio at ddibenion rheoli datblygiad.

8.5 I osgoi amheuaeth, ni roddir unrhyw bwys i'r adroddiad hwn yng nghyswllt penderfynu ceisiadau cynllunio, ac nid yw'n ffurfio rhan o'r cynlluniau datblygu ar gyfer y cynghorau.

**Darluniad dangosol o'r Ardal Dwf Genedlaethol a fireiniwyd o safbwynt gofodol**

8.6 Cyflwynwyd yr ardal a ganlyn yn adran 7 i gynorthwyo gyda dehongli ei disgrifiad o amlinelliad ar gyfer daearyddiaeth Ardal Dwf Genedlaethol a fireiniwyd.

Ffigur 8.1: Darluniad dangosol o’r Ardal Dwf Genedlaethol a fireiniwyd o safbwynt gofodol



8.7 Heb ailadrodd yr adran flaenorol, mae'r ardaloedd allweddol yr argymhellir y dylid eu cynnwys o fewn y raddfa ofodol a fireiniwyd yn cynnwys:

- Ardal Drefol Bae Abertawe, sy'n cynnwys ardal adeiledig Abertawe – gan gynnwys canol y ddinas - ac sy'n ffurfio'r canolbwynt ar gyfer yr Ardal Dwf Genedlaethol;

- Ardaloedd y mae cynlluniau ar gyfer eu hehangu, neu botensial i wneud hynny, i'r gogledd o'r M4 ar hyd rhan uchaf ardal drefol Abertawe, ac sy'n cyfrif am y buddsoddiad a gynlluniwyd ar gyfer y Metro. Mae hyn yn ymestyn rhwng Pontarddulais a Chlydach;

- Coridor arfordirol Castell-nedd a Phort Talbot sy'n ymestyn ar hyd coridor yr M4 / GWR ac sy'n dilyn terfynau anheddiad presennol y ddwy ardal drefol yn agos, ac sy'n cydnabod y cysylltiad trwy Gastell-nedd, trwy'r A465, i mewn i Ganolbarth Lloegr. Mae'r coridor hwn yn cynnwys ardal adfywio Coed Darcy, canol tref Castell-nedd, Bae Baglan, ac Ardal Fenter Glannau Port Talbot, a Gwaith Dur presennol Tata;

- Y coridor arfordirol sy'n ymestyn o Borth Tywyn trwy Lanelli ac sy'n cynnwys ardal gyfle Dafen, sydd unwaith eto'n adlewyrchu buddsoddiad yn y Metro, a gwell cysylltedd; ynghyd â

- Rhydaman a Cross Hands a choridor ffyrdd yr M4 / A48 sy'n cysylltu ardaloedd datblygu â chraidd trefol Abertawe, ac sy'n cydnabod buddsoddiad parhaus ar hyn o bryd ac at y dyfodol yn y rhwydwaith rheilffyrdd, er mwyn gwella gwasanaethau.

8.8 Gan ystyried gwaith mapio'r cyfyngiadau posibl, argymhellir, fel rhan o'r gwaith hwn, na ddylid cynnwys yr ardaloedd a ganlyn yn ardal ofodol Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli a fireiniwyd:

- Ardaloedd o fewn yr ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni gwynt, a ddiffinnir yn Cymru'r Dyfodol o fewn Sir Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, ym mhle mae cyfleoedd datblygu strategol yn annhebygol o gael eu cyflwyno;

- Ardaloedd ymhellach i'r gogledd o ardal drefol Abertawe, o fewn dynodiadau ar gyfer Diogelu'r Dirwedd; ynghyd ag

- AHNE Penrhyn Gŵyr, sy'n cynnwys yr ardaloedd gwledig ar y cyrion a'r ardal RAMSAR sy'n ymestyn ar draws yr aber.

**Ystyriaethau o ran polisïau**

8.9 Rhoddir ystyriaeth yn yr is-adran derfynol hon i'r ystyriaethau posibl o ran polisïau sy'n deillio o ddynodi a defnyddio daearyddiaeth ofodol yr Ardal Dwf Genedlaethol. Mae hyn yn ystyried y materion posibl sy'n codi yn sgil pontio'r

genhedlaeth bresennol o Gynlluniau Datblygu Lleol sy'n amodol ar eu hadolygu, ynghyd â datblygiad cyfochrog Cynllun Datblygu Strategol dros amserlen a fydd efallai'n hwy. Mae o hefyd yn ystyried materion penodol a godwyd trwy broses o ymgysylltu o fewn yr ymchwil hwn, gan y rheiny sy'n gyfrifol yn y diwedd am roi unrhyw ddynodiad ar waith o ran polisi, ynghyd â'r rheiny a fydd yn ymateb i'w ddaearyddiaeth wrth fynd ati i hyrwyddo a chyflwyno safleoedd a cheisiadau ar gyfer eu datblygu.

**Defnyddio dyraniad yr Ardal Dwf Genedlaethol**

8.10 Bwriedir y bydd y gwaith arfaethedig i fireinio'r Ardal Dwf Genedlaethol o safbwynt gofodol yn cynorthwyo gyda datblygu strategaethau gofodol mewn CDLl Newydd. O ran lle bydd y CDLl Newydd efallai'n nodi ardaloedd twf gofodol, gan ystyried graddfa Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli a fireiniwyd, yn unol â Pholisi 1 Cymru'r Dyfodol, ni fydd hyn yn atal canfod ardaloedd twf a chyfleoedd twf y tu allan i raddfa ofodol awgrymedig yr Ardal Dwf Genedlaethol.

8.11 Rôl tîm y Cynllun Datblygu Strategol / Cyd-bwyllgor Corfforaethol fydd diffinio graddfa ffin Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe, ynghyd â chyflwyno dull polisi penodol i adlewyrchu'r modd y mae wedi'i hamlinellu o fewn y Cynllun Datblygu Strategol.

**Hirhoedledd y ffin**

8.12 Mae Cymru'r Dyfodol yn edrych ymlaen tuag at 2040. Fel rhan o'r gwaith i lywio'r Cynllun Datblygu Strategol, dylid ystyried ffin ddiffiniedig derfynol Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli o fewn yr amserlen hon.

8.13 Fel y disgrifir yn adran 5 o'r adroddiad hwn, yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig cydnabod na ddylid cyfyngu'r ffin derfynol gan hynny a gyflwynwyd yn yr ymatebion a gofnodwyd i'r alwad am gyflwyno safleoedd ar adeg diffinio'r Cynllun Datblygu Strategol, neu ddyraniadau hanesyddol mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (gan gydnabod y bydd yr Ardal Dwf Genedlaethol yn darparu ar gyfer gyfnod hwy na hynny o ran y Cynllun Datblygu Strategol). Pwysleisiwyd y pwynt hwn hefyd gan ddatblygwyr yn y gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid. Yn lle hynny, dylai gynorthwyo i lunio'r gwaith yn y dyfodol o ran canfod cenhedlaeth o gyfleoedd o safbwynt tir ar gyfer twf cenedlaethol i ddiwallu anghenion dros amserlen hwy.

8.14 Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â gwaith a wnaed fel rhan o'r astudiaeth i fireinio'r modd y mae Cymru'r Dyfodol yn cynrychioli'r Ardaloedd Twf Cenedlaethol o safbwynt gofodol. Cydnabyddir y bydd digwyddiadau a fydd yn gofyn am adolygiad o'r raddfa ofodol hon a fireiniwyd, i sicrhau ei bod yn adlewyrchu polisïau cyfredol, ynghyd â dynodiadau cyfyngiadau sy'n cael eu llywio gan ddata (e.e. mesurau diogelu amgylcheddol neu ar gyfer llifogydd) ar adeg eu diffinio gan dîm y Cynllun Datblygu Gofodol / Cyd-bwyllgor Corfforaethol.

8.15 Mae'r modd y mae'r Ardal Dwf Genedlaethol wedi'i chynrychioli o safbwynt gofodol yn Cymru'r Dyfodol wedi'i fireinio i allu ymateb, lle y bo angen, i

gyfleoedd sy'n cyflwyno eu hunain. Gallai'r rhain fod ar ffurf estyniadau i ardaloedd cyflogaeth presennol, neu ardaloedd lle mae tai wedi'u canoli, sy'n cael eu gwneud yn fwy cynaliadwy o ganlyniad i fuddsoddi mewn isadeiledd y tu hwnt i hynny sy'n hysbys neu a ragwelir ar hyn o bryd. Awgrymir y dylid mynd â'r dull hyblyg hwn trwy'r diffiniad o'r ffin gan dîm y Cynllun Datblygu Strategol/ Cyd-bwyllgor Corfforaethol.

**Penodoldeb ardal ddaearyddol ddiffiniedig**

8.16 Yn unol â briff y prosiect, mae'r ymchwil wedi awgrymu graddfa ofodol a fireiniwyd ar gyfer yr ardal ddaearyddol a ddiffiniwyd yn Cymru'r Dyfodol ar gyfer Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli, ar ffurf disgrifiad gofodol, ac fe'i darluniwyd gan ddefnyddio ffin anniffiniedig / niwlog.

8.17 Mae hyn yn cydnabod y bydd datblygu sylfaen dystiolaeth y Cynllun Datblygu Strategol yn adeiladu ar yr ymchwil hwn, ac yn ei fireinio fel y bo angen i gynnwys rhagor o fanylion yng nghyswllt y diffiniad o ardaloedd twf lleol, safleoedd cyfle a chyfyngiadau posibl.

8.18 Penderfyniad y Cynllun Datblygu Strategol fydd y ffin derfynol, ond mae'r ymchwil wedi sbarduno trafodaeth ynghylch y manteision a'r anfanteision a allai ddeillio o ddefnyddio ffin gadarn. Yn benodol, fe wnaed y sylwadau a ganlyn:

- Wrth ddefnyddio polisiau cynllunio, mae dynodi "llinell goch" yn dileu unrhyw amwyster o ran p'un a yw safle o fewn neu'r tu allan i'r Ardal Dwf Genedlaethol, sydd felly'n helpu i roi sicrwydd. Mae hyn hefyd yn galluogi monitro a mesur graddfa datblygiad o fewn neu'r tu allani'r Ardal Dwf Genedlaethol gyda mwy o sicrwydd; a

- Fodd bynnag, gallai parhauster ffin sydd wedi'i diffinio'n glir ar gyfer yr Ardal Dwf Genedlaethol greu'r risg o gyfyngu parhad twf mewn rhai safleoedd neu aneddiadau penodol. Byddai ffin fwy hyblyg yn galluogi dull mwy ymatebol tuag at alluogi a chefnogi twf mewn ardaloedd lle profwyd bod y galw / anghenion yn uchel.

8.19 Bydd yn bwysig rhoi ystyriaeth ofalus i'r barnau amgen hyn wrth fynd ati i geisio cael y cydbwysedd iawn o safbwynt penderfynu beth fydd natur ffin ddiffiniedig o fewn y Cynllun Datblygu Strategol.

# Atodiad 1 Trosolwg o’r gwaith ymgysylltu

Fel y nodwyd yn adran 2 o’r adroddiad hwn, ymgysylltwyd â nifer o randdeiliaid er mwyn llywio’r ymchwil. Mae’r atodiad hwn yn cynnwys crynodeb o’r pwyntiau allweddol a godwyd trwy gyfrwng y broses ymgysylltu.

**Llywodraeth Cymru**

- Ymateb positif i gwmpas y gwaith a’i sail resymegol.
- Trafodaeth am gyfleoedd / manteision ffiniau anghyffiniol ar gyfer yr Ardal Dwf Genedlaethol.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd dangos cysondeb â pholisi Cymru’r Dyfodol a’r canlyniadau disgwyliedig, yn ogystal â sail resymegol benodol dynodi Ardal Dwf Genedlaethol.
- Amlygwyd pwysigrwydd cydnabod cyfyngiadau, gan gynnwys y rheiny a nodwyd yn Cymru’r Dyfodol, e.e. ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni gwynt.
- Amlygwyd canlyniadau posib yr Arolwg Ffyrdd sydd heb ei gyhoeddi hyd yma, ynghyd â phwyslais ar gysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy.
- Nodwyd ymgynghoriad ar yr arweiniad drafft ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol, cyfle i ailasesu canlyniadau’r astudiaeth yng nghyd-destun hyn fel y mae’r Cynllun Datblygu Strategol yn cael ei ddatblygu.

**Awdurdodau cyfagos (Sir Benfro, Pen-y-bont ar Ogwr a Phowys)**

- Cydnabyddiaeth nad oedd diffiniad bras yr Ardal Dwf Genedlaethol yn ymestyn y tu hwnt i Gastell-nedd Port Talbot, Abertawe a Sir Gaerfyrddin.
- Trafodaethau â Phowys ynghylch y manteision / potensial ar gyfer cynnwys y GCRE fel cydran anghyffiniol sydd wedi’i adnabod yn yr Ardal Dwf Genedlaethol.
- Cydnabyddiaeth bod gan yr Hwb Twf Rhanbarthol yn Sir Benfro gysylltiadau pwysig â’r Ardal Dwf Genedlaethol, a’i fod o bwys cenedlaethol ynddo’i hun yng nghyswllt trosglwyddo ynni.
- Cydnabyddiaeth y bydd rhyngberthynas gadarn ag Ardal Dwf Genedlaethol y De Ddwyrain ar ôl ei diffinio, gan nodi cysylltiad yr M4 ac agosrwydd ardaloedd twf mawr ar y ffin.
- Nodwyd eu bod yn dal i ddisgwyl am benderfyniad ynghylch lleoliad ysbyty rhanbarthol yng Ngorllewin Cymru.

**Gweithdy ar gyfer y sector preswyl (gan gynnwys HBF)**

- Cydnabyddiaeth gadarn o ran y pwyslais a roddir ar gyfleoedd datblygu, lle'n bosibl, er mwyn profi cysylltiadau cynaliadwy a theithio llesol. Cydnabyddiaeth na fyddai ardaloedd ymylol a chanddynt gysylltiadau gwael yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer twf ar sail polisi presennol y Llywodraeth.

- Mae dealltwriaeth o bwysigrwydd buddsoddiad mewn trafnidiaeth yn y dyfodol yn gydran bwysig felly, o ran llywio dealltwriaeth o raddfa'r Ardal Dwf Genedlaethol.

- Pwysigrwydd meddwl y tu hwnt i'r cylch presennol o CDLl Newydd ac yn benodol, ymarferion galwadau am safleoedd. Bydd angen i'r diffiniad o'r Ardal Dwf Genedlaethol fod yn addas ar gyfer y tymor hwy, ac felly ni ddylid cyfyngu ystyriaeth o'i raddfa ddaearyddol i'r safleoedd sydd wedi'u nodi / cyflwyno i brosesau'r CDLl ar hyn o bryd. Yn yr un modd, mae angen iddo gydnabod lefel o hyblygrwydd, ac ni ddylid ei gyfyngu gan heriau / bygythiadau economaidd uniongyrchol.

- Yng nghyd-destun yr uchod, nodwyd efallai na fydd yr ymarferion galw am safleoedd yn canfod yr holl safleoedd cyfle, gan y gellir dylanwadu ar dirfeddianwyr / asiantiaid oherwydd mwy o sicrwydd ynghylch, er enghraifft, diffiniad yr Ardal Dwf Genedlaethol o'r buddsoddiad mewn trafnidiaeth yn y tymor hwy.

- Amlygwyd pwysigrwydd cynnal ymgysylltiad rhwng yr awdurdodau a'r diwydiant datblygu, er mwyn sicrhau bod canfod tir yn llywio ac yn ymateb i ddatblygiadau arfaethedig o ran polisïau strategol.

- Trafodaeth am fanteision ac anfanteision diffinio'r Ardal Dwf Genedlaethol gyda 'ffin linell goch'. Cydnabyddiaeth bod cyfle i ddarparu sicrwydd trwy drosi polisi cynllunio ond hefyd posibilrwydd o gyfyngu lefel resymol a defnyddiol o hyblygrwydd.

**Trafnidiaeth Cymru**

- Cadarnhawyd pwysigrwydd buddsoddi mewn dulliau teithio cynaliadwy, ynghyd â'r broses o sefydlu'r achos busnes ar gyfer buddsoddi.

- Cydnabyddiaeth y bydd cynllunio twf o ran darparu cartrefi (cwsmeriaid) a swyddi (cymudwyr) yn dylanwadu ar benderfyniadau o safbwynt buddsoddiad at y dyfodol. Cafwyd trafodaeth benodol am Rydaman lle gwelwyd rhywfaint o fuddsoddiad ar gyfer sicrhau gwasanaethau mwy rheolaidd, ond mae'r cysylltiadau'n dal i fod yn gymharol gyfyngedig, ond byddai mwy o alw yn effeithio ar benderfyniadau o safbwynt buddsoddiadau at y dyfodol.

- Trosolwg o'r sefyllfa ddiweddaraf o ran buddsoddiad sydd wedi'i gyflawni a'i gynllunio yng nghyswllt y Metro.

**Busnesau lleol**

- Cydnabyddiaeth eang o ddaearyddiaeth y farchnad lafur sy'n ymestyn ar hyd Coridor yr M4 (yn enwedig i'r dwyrain i gyfeiriad Caerdydd), ynghyd ag integreiddio'r farchnad lafur ar draws prif ardaloedd trefol yr Ardal Dwf Genedlaethol.

- Roedd cysylltiadau cadwyni cyflenwi a'r sylfaen cwsmeriaid yn amrywio yn ôl sector (er enghraifft, mae rhai busnesau gweithgynhyrchu'n gweithredu ar lefel ryngwladol i raddau helaeth). Ond roedd rhai, ym maes gweithgareddau adeiladu, gosod a darparu gwasanaethau yn nodi ardal farchnad ehangach a oedd yn ymestyn ar hyd Coridor yr M4 ac i mewn i Dde-orllewin Lloegr.

- Nodwyd bod y cyflenwad o eiddo yn her gyffredin, yn enwedig mannau i fusnesau symud iddynt fel y maent yn tyfu, ar gyfer rhai sydd eisiau ehangu. Mewn rhai achosion, adroddwyd bod hyn yn arwain at beidio â gwneud y penderfyniadau gorau yng nghyswllt ehangu (er enghraifft, sefydlu cyfleusterau am yr ail a'r trydydd gwaith mewn trefi cyfagos i sicrhau capasiti, er y byddai safleoedd integredig ar un safle yn well). Roedd tystiolaeth o gwmnïau'n symud rhwng ardaloedd er mwyn sicrhau eiddo digonol (rhwng awdurdodau'r Ardaloedd Twf Cenedlaethol, yn ogystal â rhwng Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr).

- Cafwyd barnau cymysg ynghylch y cyflenwad o lafur, roedd rhai busnesau'n sôn am broblemau mawr yng nghyswllt recriwtio (gan gynnwys o ganlyniad i fwy o gyfleoedd i weithio o bell, sy'n galluogi rhai pobl yn yr ardal i gael gwaith sy'n talu'n well mewn lleoliadau sy'n bellach i ffwrdd. [Cyfeiriad: Mae hyn yn gyson â chanlyniadau'r arolwg mwyaf diweddar o gyflogwyr a adroddwyd gan Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin Cymru]. Cyfeiriodd un busnes rhanbarthol (a leolir mewn ardal wledig) at gynlluniau i agor ail gyfleuster ymhellach i'r dwyrain ar hyd Coridor yr M4, i fanteisio ar y posibilrwydd y bydd gweithlu mwy ar gael.

- Mewn rhannau o'r sector gweithgynhyrchu, mae 'etifeddiaeth' diwydiannol yr ardal yn bwysig, gyda rhai sgiliau o fewn y gweithlu yn deillio o hynny a ddysgwyd gan gyflogwyr diwydiannol mawr, yr oedd rhai ohonynt wedi lleihau eu busnesau neu wedi diflannu dros y blynyddoedd. Mae canfod gweithwyr newydd i gymryd lle'r sylfaen sgiliau hon yn her fel y mae'r gweithlu'n heneiddio.

**Turley**
1 New York Street
Manchester
M1 4HD

T 0161 233 7676